**Adolygiad o Gyfyngiadau'r Coronafeirws - 14 Mai 2021**
**ASESIAD EFFAITH CRYNO**

## Cyflwyniad

Cafodd Asesiad Effaith Cryno ei lunio ym mis Rhagfyr 2020 ar ôl cyflwyno system o lefelau rhybudd yng Nghymru. Yn dilyn yr Adolygiad 21 Diwrnod ym mis Chwefror 2021, lluniwyd Asesiad Effaith Cryno pellach. Cafodd yr Asesiad Effaith Cryno diweddaraf ei lunio yn dilyn yr Adolygiad 21 Diwrnod ar 22 Ebrill.

Mae'r Cynllun Rheoli Coronafeirws diwygiedig ar gael ar wefan Llywodraeth Cymru.

Nod y ddogfen hon yw cofnodi asesiad o effaith y mesurau llacio a roddwyd ar waith neu a nodwyd yn yr Adolygiad 21 Diwrnod ar 14 Mai 2021 ar wahanol ddemograffeg yn y gymdeithas yng Nghymru.

Ym mis Rhagfyr, daeth 'amrywiolyn Caint' i'r amlwg, sef y prif amrywiolyn bellach ac mae'n fwy heintus. Arweiniodd hyn at gyfyngiadau llymach ar Lefel Rhybudd 4 (ee atal y mwyafrif helaeth o ddysgwyr ym myd addysg rhag dysgu wyneb yn wyneb). Ers hynny, mae'r sefyllfa o ran iechyd yng Nghymru wedi gwella sydd wedi golygu bod modd llacio'r cyfyngiadau rywfaint yn adolygiadau mis Chwefror a mis Mawrth. Mae'r gwelliannau wedi parhau ac wedi cael eu cynnal sy'n golygu bod modd symud yn ofalus ac yn raddol i Lefel Rhybudd 2 yng Nghymru.

Dyma'r prif fesurau llacio a roddwyd ar waith yn yr Adolygiad 21 Diwrnod ar 14 Mai 2021:

- Mae lletygarwch dan do yn cael ailagor – mae chwech o bobl o hyd at chwe aelwyd (heb gynnwys plant dan 11 oed) yn cael archebu;

- Mae pob llety gwyliau yn cael ailagor yn llwyr;

- Mae lleoliadau adloniant, gan gynnwys sinemâu, neuaddau bingo, alïau bowlio, ardaloedd a chanolfannau chwarae dan do, casinos, arcedau difyrion a theatrau yn cael ailagor. Mae sinemâu, theatrau, neuaddau cyngerdd a meysydd chwaraeon yn cael gwerthu bwyd a diod ar yr amod bod pobl yn bwyta ac yn yfed ar eu heistedd wrth wylio'r perfformiad;

- Mae atyniadau dan do i ymwelwyr, gan gynnwys amgueddfeydd ac orielau yn cael ailagor;

- Mae hyd at 30 o bobl yn cael cymryd rhan mewn gweithgareddau dan do wedi'u trefnu ac mae hyd at 50 o bobl yn cael cymryd rhan mewn gweithgareddau awyr agored wedi'u trefnu. Mae hyn yn cynnwys gwledd briodas a gwledd gladdu.

Bydd modd teithio'n rhyngwladol o ddydd Llun 17 Mai ymlaen. Cyflwynir system goleuadau traffig, ar y cyd â Lloegr a'r Alban. Bydd y gwledydd yn cael eu dosbarthu

yn rhai gwyrdd, oren a choch. Mae hyn yn golygu y bydd pobl sy'n byw yng Nghymru yn cael teithio i nifer fach o gyrchfannau tramor heb fod angen iddyn nhw gael eu gosod dan gwarantin ar ôl dychwelyd. Bydd yn dal yn rhaid i bobl gael eu gosod dan gwarantin os byddant yn dychwelyd o wledydd nad ydynt ar y rhestr werdd.

**Y cefndir deddfwriaethol**

Daeth Rheoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Cymru) 2020 i rym ar 26 Mawrth 2020, a chawsant eu disodli wedyn gan Reoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Rhif 2) (Rhif 3) a (Rhif 4) (Cymru) 2020. Mae modd gweld fersiwn wedi'i chydgrynhoi o'r Rheoliadau diweddaraf ar GOV.WALES.

Mae'r Asesiad Effaith Cryno hwn yn ymwneud â'r diwygiadau a wnaed i Reoliadau Diogelu Iechyd (Cyfyngiadau Coronafeirws) (Rhif 5) (Cymru) 2020 o ganlyniad i'r Adolygiad 21 Diwrnod ar 14 Mai 2021.

**Adolygu rheoliadau cyfyngiadau**

Adolygir y Rheoliadau bob tair wythnos yn unol â'r wybodaeth a'r dystiolaeth ddiweddaraf.

**Asesiadau o'r Effaith**

Mae'r asesiadau canlynol o'r effaith, sy'n ymwneud â'r mesurau llacio a roddwyd ar waith, i'w gweld yng ngweddill y ddogfen hon:

**i.** Cwrdd mewn lleoliadau sy'n cael eu rheoleiddio dan do - rheol 6
**ii.** Lletygarwch dan do
**iii.** Atyniadau dan do ac arcedau difyrion
**iv.** Theatrau a Neuaddau Cyngerdd
v. Amgueddfeydd ac Orielau.
vi. Sinemâu
vii. Llety sy'n Weddill
viii. Canolfannau Chwarae Dan Do
ix. Alïau bowlio
x. Brecwastau priodas

**i. Cwrdd mewn lleoliadau sy'n cael eu rheoleiddio dan do - rheol 6**

<u>EFFEITHIAU AR LESIANT</u>

Mae effeithiau negyddol mawr yn gysylltiedig â chyfyngu ar allu pobl i gymdeithasu.

Cynhaliodd Iechyd Cyhoeddus Cymru arolwg ar iechyd a llesiant (1 i 7 Mawrth 2021), a phan ofynnwyd i bobl sut roeddent yn teimlo yn ystod yr wythnos ddiwethaf, dywedodd 22% o bobl eu bod yn teimlo'n unig o bryd i'w gilydd ac roedd 16% yn

teimlo’n unig drwy’r amser neu’n aml.  Roedd tua 24% o bobl yn teimlo’n ynysig o bryd i’w gilydd, gyda 25% yn dweud eu bod yn teimlo fel hyn drwy'r amser neu’n aml. Dros y cyfnod hwn, roedd 58% yn dweud eu bod yn poeni am eu hiechyd meddwl a’u llesiant.

Cafodd y data canlynol eu defnyddio yn ystod y llacio i ganiatáu aelwydydd estynedig yn 2020.  Nid yw’r arolwg a oedd yn cynnwys y data wedi cael ei ddiweddaru ers mis Tachwedd 2020.  Mae’n debygol bod y negeseuon allweddol isod yn berthnasol i’r llacio hwn oherwydd bod yr amgylchedd ym mis Mehefin 2020 yn edrych yn gymharol debyg i’r presennol.

Mewn dadansoddiad cyfun gan Iechyd Cyhoeddus Cymru o’r arolwg ar iechyd a llesiant a gynhaliwyd rhwng 13 Ebrill a 7 Mehefin 2020, nodwyd pryderon penodol am y rheini sy’n cael eu hystyried yn agored i niwed yn glinigol. Roedd 25% o unigolion agored i niwed yn poeni llawer am eu hiechyd meddwl a’u llesiant (o gymharu â 14% o’r rheini sydd ddim yn agored i niwed).

Mae dadansoddiad blaenorol gan Iechyd Cyhoeddus Cymru[1] o ddata ei arolygon llesiant wythnosol (yn ystod y cyfnod rhwng 10 Ebrill a 10 Mai) yn nodi canfyddiadau demograffig allweddol ar gyfer pobl sy’n byw yn yr ardaloedd mwyaf difreintiedig yng Nghymru, sy’n fwy tebygol o fod yn: hunanynysu (45% o bumed mwyaf difreintiedig y boblogaeth o'i gymharu â 31% o bumed mwyaf cefnog y boblogaeth); poeni'n fawr am eu hiechyd meddwl (30% o'i gymharu ag 17%); teimlo'n bryderus iawn (28% o'i gymharu ag 20%); a theimlo'n ynysig (29% o'i gymharu â 18%).

O ran rhywedd, mae menywod yn fwy tebygol o fod yn: hunanynysu (40% o’i gymharu â 33%); poeni llawer am eu hiechyd meddwl (25% o’i gymharu ag 20%); teimlo’n bryderus iawn (28% o’i gymharu ag 20%); a theimlo’n ynysig (29% o’i gymharu â 18%). Mae mwy o fenywod yn dweud bod y cyfyngiadau symud yn cael effaith negyddol ar eu cwsg.  Er eu bod yn dweud eu bod yn bwyta mwy o fyrbrydau ac yn defnyddio cyfryngau cymdeithasol yn amlach na dynion yn ystod cyfyngiadau’r coronafeirws, mae menywod hefyd yn treulio mwy o amser yn yr awyr agored ac wedi bod yn siarad â ffrindiau a theulu yn amlach nag y byddent fel arfer.

Mae adroddiad y Swyddfa Ystadegau Gwladol ‘Coronavirus and loneliness’ [2] (3 Ebrill – 3 Mai) yn ystyried sut mae’r coronafeirws wedi effeithio ar bobl sy’n byw gydag unigrwydd.  Er bod hwn yn hen erbyn hyn, roedd yn tynnu sylw at y ffaith bod pobl ag unigrwydd cronig ac unigrwydd y cyfnod clo yn poeni mwy am effaith Covid-19 ar eu llesiant o’i gymharu â phryderon eraill.  Roeddent yn fwy tebygol o ddweud eu bod yn teimlo’n bryderus neu dan straen; yn treulio gormod o amser ar eu pen eu hunain; yn teimlo eu bod wedi diflasu; ei fod yn effeithio ar eu hiechyd meddwl; yn rhoi straen ar berthnasau personol a bod ganddynt neb i siarad â nhw am eu problemau.

---

[1] https://phw.nhs.wales/news/public-health-survey-reveals-bigger-impacts-of-novel-coronavirus-covid-19-and-restriction-measures-on-wellbeing-of-those-in-poorer-communities/

[2] https://www.ons.gov.uk/peoplepopulationandcommunity/wellbeing/bulletins/coronavirusandlonelinessgreatbritain/3aprilto3may2020

Cynhyrchodd y Swyddfa Ystadegau Gwladol ddadansoddiad hefyd ym mis Rhagfyr 2020 a oedd yn edrych ar effaith Coronafeirws ar iselder ymysg oedolion. Roedd hyn yn dangos bod tua un rhan o bump o oedolion yn debygol o fod yn profi rhyw fath o iselder ym mis Tachwedd 2020, sydd bron i ddwywaith y cyfraddau a adroddwyd cyn y pandemig. Roedd hefyd yn dangos bod oedolion iau, menywod, y rheini nad oeddent yn gallu fforddio costau annisgwyl a phobl anabl yn fwy tebygol o fod yn profi iselder.[3]

Tystiolaeth ychwanegol:

- Mae data arolwg Ipsos Mori[4] yn awgrymu bod 17% o'r cyfranogwyr yng Nghymru yn poeni am fethu mynd allan yn gyffredinol ac mae 20% o'r cyfranogwyr yng Nghymru yn poeni am eu hiechyd meddwl
- Mae arolwg Hafal o 300 o oedolion yng Nghymru[5] yn awgrymu bod 73% o'r cyfranogwyr yn dweud bod y coronafeirws wedi effeithio'n negyddol ar eu hiechyd meddwl
  Mae astudiaeth hydredol[6] y Sefydliad Iechyd Meddwl yn awgrymu bod 24% o oedolion y DU wedi teimlo'n unig oherwydd y coronafeirws ac mae'r teimladau o unigrwydd wedi mwy na dyblu ers y cyfyngiadau symud.

EFFEITHIAU ECONOMAIDD

I'r busnesau hynny sy'n gallu gweithredu, mae'n bosibl y byddai'r newid i ganiatáu i ragor o bobl o ragor o aelwydydd gael cwrdd yn arwain at effaith gadarnhaol gan fod mwy o bobl yn gallu defnyddio eu gwasanaethau. Er enghraifft, mae'n bosibl y bydd effaith economaidd gadarnhaol sylweddol oherwydd bydd yn caniatáu i gronfa ehangach o gwsmeriaid ymweld â gwahanol fusnesau, yn enwedig lleoliadau adloniant lletygarwch ac atyniadau dan do i ymwelwyr. Mae'r busnesau hyn hefyd yn fwy tebygol o ddenu rhagor o gwsmeriaid os ydynt yn cael ymweld â rhagor o'u ffrindiau a'u teulu.

EFFEITHIAU AMGYLCHEDDOL

Gallai'r cynnydd posibl yn nifer y bobl sy'n symud effeithio ar ansawdd aer wrth i bobl ddechrau teithio'n bellach yng Nghymru ac i Gymru. Bydd y sefyllfa bresennol o ran iechyd a chapasiti cyfyngedig trafnidiaeth gyhoeddus yn golygu bod mwy yn defnyddio cerbydau preifat a bydd llai yn rhannu ceir. Mae teithio llesol yn cael ei hyrwyddo'n weithredol, ond nid yw hyn yn debygol o fod yn ymarferol ar gyfer pellteroedd hirach.

---

[3] https://www.ons.gov.uk/peoplepopulationandcommunity/healthandsocialcare/healthandwellbeing/bulletins/coronavirusandthesocialimpactsongreatbritain/11december2020#loneliness-of-adults-experiencing-some-form-of-depression-or-anxiety

[4] https://www.ipsos.com/ipsos-mori/en-uk/Covid-19-and-mental-wellbeing
[5] https://www.hafal.org/2020/04/survey-raises-concerns-about-the-provision-of-mental-health-services-in-wales-during-the-covid-19-outbreak/
[6] https://www.mentalhealth.org.uk/our-work/research/coronavirus-mental-health-pandemic

Bydd llacio’r cyfyngiadau ar leoliadau dan do sy’n cael eu rheoleiddio bron yn sicr o gynyddu’r rhesymau pam mae aelodau o’r cyhoedd yn teithio mewn cerbyd preifat (yn enwedig wrth ystyried y cyfyngiadau ar gapasiti trafnidiaeth gyhoeddus effeithiol). Er nad oes rhagolygon ar gael ynglŷn â'r effaith ganlyniadol ar ansawdd aer, disgwylir y bydd yn cael effaith negyddol o’i chymharu â’r misoedd diwethaf, lle credwyd bod ansawdd yr aer wedi gwella. Am y rheswm hwn, mae swyddogion yr Amgylchedd a Materion Gwledig yn monitro’r effeithiau ar ansawdd yr aer sydd wedi codi ers cyflwyno’r cyfyngiadau symud. Comisiynwyd ymgynghorwyr allanol i ddadansoddi’r effeithiau a bydd y gwaith hwn yn llywio polisi’r dyfodol gyda golwg ar gynnal gwelliannau i ansawdd aer ar gyfer y dyfodol, cyn belled ag y bo modd.

ASESIADAU O’R EFFAITH

*Effeithiau ar gydraddoldeb*

Mae asesiad o’r effeithiau yn ôl nodweddion gwarchodedig wedi’i nodi isod. Yn gyffredinol, mae’r cynnig yn hyrwyddo cydraddoldeb gan ei fod yn caniatáu i hyd at chwech o bobl o hyd at chwe aelwyd gwrdd am unrhyw reswm dan do mewn lleoliadau sy’n cael eu rheoleiddio, gan gynnwys gerddi preifat a lleoliadau lletygarwch yn yr awyr agored a fydd wedi effeithio ar wahanol grwpiau mewn gwahanol ffyrdd.

| ***Grŵp neu nodwedd warchodedig*** | ***Beth yw effeithiau cadarnhaol neu negyddol y cynnig?*** | ***Rhesymau dros eich penderfyniad (gan gynnwys tystiolaeth)*** | ***Sut byddwch yn lliniaru’r effeithiau?*** |
|---|---|---|---|
| *Oedran (meddyliwch am wahanol grwpiau oedran)* | ***Cadarnhaol:*** *Bydd caniatáu i 6 o bobl o hyd at 6 aelwyd wahanol gwrdd am unrhyw reswm* o fudd i’r rheini sy’n cael eu hynysu oddi wrth eu teulu a’u ffrindiau, gan liniaru effeithiau unigrwydd ac arwahanrwydd neu allgáu digidol.<br><br>*Negyddol:* Efallai y bydd pobl o bob oed, ond yn enwedig pobl hŷn, yn poeni am fwy o risgiau o ganlyniad i gynnydd yn nifer y bobl sy’n cwrdd dan do mewn lleoliadau sy’n cael eu rheoleiddio | Mae amrywiaeth o ddata arolwg yn awgrymu mai pobl iau (18-29 oed) yw’r mwyaf tebygol o boeni am eu hiechyd meddwl, a’u bod yn fwy tebygol o deimlo’n ynysig na grwpiau eraill.<br><br>Mae pobl dros 70 oed yn fwy tebygol o fod yn poeni am eu hiechyd a’r risg o ddal COVID-19. Fodd bynnag, mae’r rhan fwyaf o’r grŵp oedran hwn wedi cael y dos cyntaf o’r brechlyn o leiaf, felly gallai hynny leddfu rhai o’r pryderon. | Bydd canllawiau’n cael eu cyhoeddi i amlinellu’r risgiau sy’n gysylltiedig â phobl yn cwrdd dan do (hyd at 6 o bobl o 6 aelwyd), a sut orau i ddiogelu yn erbyn trosglwyddo’r feirws (cadw pellter cymdeithasol).<br><br>Canllawiau parhaus i’r rheini sy’n eithriadol o agored i niwed yn glinigol i sicrhau bod risgiau ychwanegol yn cael eu hystyried pan fyddant yn yr awyr agored. |

| | | | |
|---|---|---|---|
| *Anabledd (meddyliwch am wahanol fathau o anabledd)* | Cadarnhaol: ar gyfer pobl anabl nad oedd angen iddynt gael gafael ar ddarpariaeth o dan gymorth a gofal, byddant yn cael cwrdd yn gymdeithasol gyda ffrindiau a theulu ychwanegol dan do mewn lleoliadau wedi'u rheoleiddio. | Roedd ein rheolau eisoes yn caniatáu i bobl anabl (gan gynnwys plant anabl) gael gafael ar gymorth a gofal gan ffrindiau a theulu. Felly, gallai pobl anabl gyfarfod yn barod. | Ni chynigir unrhyw fesurau lliniaru ychwanegol |
| *Ailbennu rhywedd (y weithred o drawsnewid a phobl drawsryweddol)* | **Cadarnhaol:** Efallai fod y cyfyngiadau wedi cyfyngu ar y gallu i gael mynediad at rwydweithiau cymorth a fyddai'n cael effaith negyddol ar lesiant. | Ni nodwyd unrhyw dystiolaeth benodol | Amh |
| *Beichiogrwydd a mamolaeth* | **Cadarnhaol:** Mae'n bosibl bod y cyfyngiadau ar gwrdd ag aelwydydd eraill wedi gwaethygu unigrwydd, teimlo'n ynysig neu'r gallu i gael mynediad at rwydweithiau cymorth. | Ni nodwyd unrhyw dystiolaeth benodol | Amh |
| *Hil (yn cynnwys gwahanol leiafrifoedd ethnig, sipsiwn a theithwyr a mudwyr, ceiswyr lloches a ffoaduriaid)* | **Cadarnhaol:** Dim effeithiau gwahaniaethol penodol ar aelwydydd<br><br>Negyddol: Mae'n hysbys bod unigolion Du, Asiaidd a Lleiafrifoedd Ethnig yn wynebu mwy o risg yn sgil effeithiau'r coronafeirws ac fe allent fod yn fwy pryderus ynghylch llacio'r cyfyngiadau. | | Gweithgareddau cyfathrebu cyffredinol ar y risgiau i grwpiau gwahanol a'r angen parhaus i bawb barhau i ddilyn canllawiau fel cadw pellter cymdeithasol a sicrhau hylendid da. |
| *Crefydd, cred a diffyg cred* | Heb ganfod effeithiau gwahaniaethol penodol | Amh | Amh |

| | | | |
|---|---|---|---|
| *Rhyw / Rhywedd* | ***Cadarnhaol:*** Mae'n ymddangos bod y cyfyngiadau'n effeithio ar wahanol rywiau mewn gwahanol ffyrdd, a gellid lliniaru hyn drwy lacio'r cyfyngiadau. | Mae arolygon yn dangos bod menywod yn fwy tebygol o fod yn hunanynysu, o boeni'n fawr am eu hiechyd meddwl, o deimlo'n bryderus ac o deimlo'n ynysig. Mae mwy o fenywod yn dweud bod y cyfyngiadau symud yn cael effaith negyddol ar eu cwsg. | Ni chynigir unrhyw fesurau lliniaru ychwanegol |
| *Cyfeiriadedd rhywiol (lesbiaidd, hoyw a deurywiol)* | Heb ganfod effeithiau gwahaniaethol penodol | Amh | Amh |
| *Priodas a phartneriaeth sifil* | Heb ganfod effeithiau gwahaniaethol penodol. | Roedd pobl a oedd yn briod neu'n cyd-fyw yn llai tebygol na'r cyfartaledd o deimlo'n unig (unigrwydd y 'cyfnod clo' a chronig) (arolwg barn a ffordd o fyw ONS, Mai 20) | Amh |
| *Plant a phobl ifanc hyd at 18 oed* | ***Cadarnhaol:*** Mae plant dan 11 oed yn cael eu heithrio o'r chwech o bobl sy'n cael cwrdd dan do mewn lleoliadau sy'n cael eu rheoleiddio. | Y ddau brif fater i blant (12-18 oed) o ran cyfyngiadau yw 'peidio â gallu treulio amser gyda ffrindiau' (72%) a 'peidio â gallu ymweld ag aelodau o'r teulu' (59%) (arolwg Coronafeirws a Fi, Ionawr 2021) | Amh |
| *Aelwydydd incwm isel* | ***Cadarnhaol:*** Mae'n bosibl bod y cyfyngiadau ar gwrdd ag aelwydydd eraill wedi gwaethygu unigrwydd, teimlo'n ynysig neu'r gallu i gael mynediad at rwydweithiau cymorth. | Arolwg Llesiant Iechyd Cyhoeddus Cymru: mae'r rheini sy'n byw yn yr ardaloedd mwyaf difreintiedig yng Nghymru yn fwy tebygol o fod yn hunanynysu ac o deimlo'n bryderus ac ynysig yn ystod cyfyngiadau'r coronafeirws, yn | Amh |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | ogystal â bod yn fwy pryderus am eu hiechyd meddwl. | |

*Hawliau Dynol a Chonfensiwn y Cenhedloedd Unedig*

Prif bwrpas y cyfyngiadau a'r gofynion sy'n gysylltiedig â'r cyfyngiadau symud yw diogelu hawl pawb i fywyd. Mae hyn wedi arwain at gyfyngiadau ar hawliau megis ar fywyd preifat a theuluol a'r rhyddid i ymgynnull a chymdeithasu ar sail y gellir ei gyfiawnhau yn ymwneud ag iechyd. Mae iechyd y cyhoedd yn cael ei ddisgrifio fel rheswm derbyniol dros atal yr hawliau hyn, ar yr amod ei fod yn angenrheidiol ac yn gymesur. Er gwaethaf y cyfyngiadau symud parhaus, yn gyffredinol mae'r cynnig hwn yn effeithio ar y canlynol:

| ***Hawliau Dynol*** | ***Beth yw effeithiau cadarnhaol neu negyddol y cynnig?*** | ***Rhesymau dros eich penderfyniad (gan gynnwys tystiolaeth)*** | ***Sut byddwch yn lliniaru'r effeithiau negyddol?*** |
|---|---|---|---|
| Yr hawl i fwynhau perthnasau teuluol heb ymyrraeth gan y llywodraeth (ee yr hawl i fyw gyda'ch teulu ac i gael cyswllt rheolaidd) | *Cadarnhaol*: bydd cael gwared ar y cyfyngiadau ar gwrdd â phobl eraill dan do mewn lleoliadau wedi'u rheoleiddio yn hwyluso perthnasoedd teuluol drwy leihau'r cyfyngiadau a osodir gan y llywodraeth. Mae'r cyfyngiadau sy'n dal yn eu lle ar gyfer lleoliadau preifat dan do a nifer yr aelwydydd sy'n cael cwrdd yn parhau i fod yn gymesur ar sail iechyd y cyhoedd. | Roedd y cyfyngiadau'n seiliedig ar resymau iechyd y cyhoedd ac mae'r broses asesu ac adolygu'n ceisio dileu'r rhain cyn gynted â nad ydynt yn gymesur mwyach. Mae'r broses hon wedi arwain at y cynnig i godi'r cyfyngiad hwn. | Does dim effeithiau negyddol penodol yn deillio o'r cynnig. |

*Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn*

Ystyriwyd y confensiwn yn yr asesiad hwn. Mae'r cyfyngiadau ar symud ac ymgynnull yn gwrthdaro â'r Erthyglau canlynol:

- Erthygl 15 – Mae gan blant yr hawl i gydgyfarfod ac ymuno gyda grwpiau a sefydliadau, cyn belled â bod hynny ddim yn cadw pobl eraill rhag mwynhau eu hawliau.
- Erthygl 31 – Mae gan bob plentyn hawl i ymlacio a chwarae, ac i gymryd rhan mewn amrywiaeth eang o weithgareddau.

Nid yw plant dan 11 oed yn cael eu cynnwys yn y cyfyngiadau ar gwrdd dan do. Bydd y llacio hwn yn lliniaru’r cyfyngiadau ar blant hŷn ac yn caniatáu iddynt gwrdd â rhagor o’u ffrindiau am y tro cyntaf eleni dan do mewn lleoliadau wedi’u rheoleiddio. Bydd yr hawliau hyn yn dal i gael eu cyfyngu gan yr angen i atal y feirws rhag lledaenu a diogelu iechyd y cyhoedd (ee cadw pellter corfforol parhaus).

Mae’r arolwg Coronafeirws a Fi o 23,700 o blant yng Nghymru yn sicrhau bod safbwyntiau plant yn sail i ddewisiadau polisi (Erthygl 12 – Mae gan blant yr hawl i ddweud beth ddylai ddigwydd yn eu barn nhw, pan fydd oedolion yn gwneud penderfyniadau sy’n effeithio arnynt, a bod eu barn yn cael ei hystyried). Mae'r arolwg wedi canfod mai’r ddwy reol aros gartref sydd wedi cael yr effaith fwyaf ar sut mae pobl ifanc (12-18 oed) yn teimlo yw ‘peidio â gallu treulio amser gyda ffrindiau’ (72%) a ‘peidio â gallu ymweld ag aelodau'r teulu’ (59%). I lawer, mae wedi bod yn bleser treulio mwy o amser gyda’r teulu, dysgu sgiliau newydd a mwynhau’r awyr agored mewn gerddi ac wrth ymarfer corff dyddiol.

I rai, mae’r cyfnod hwn hefyd wedi dod â rhyddhad o bwysau cymdeithasol ac iechyd blaenorol fel anawsterau iechyd meddwl neu fwlio.

*Y Gymraeg*

Ni chanfuwyd bod y cynnig yn cael unrhyw effaith negyddol ar y Gymraeg. Yn gyffredinol, gallai’r gallu i gwrdd â phobl o hyd at chwe aelwyd dan do gael effaith gadarnhaol ar y defnydd o’r Gymraeg. Bydd hyn yn galluogi siaradwyr Cymraeg i gwrdd â siaradwyr Cymraeg eraill ledled Cymru a thu hwnt. Nid yw’r cynnig hwn yn effeithio ar addysg cyfrwng Cymraeg.

### ii. Lletygarwch Dan Do

<u>EFFEITHIAU AR LESIANT</u>

Mae tystiolaeth yr arolwg yn rhoi ciplun o lesiant meddyliol ledled Cymru wrth i’r cyfyngiadau barhau. Roedd *Arolwg Ymgysylltu â’r Cyhoedd ar Iechyd a Llesiant yn ystod Mesurau’r Coronafeirws* Iechyd Cyhoeddus Cymru, ar gyfer yr wythnos 1 i 7 Mawrth, wedi dangos bod 27% yn poeni llawer am eu hiechyd meddwl (31% ychydig), a dywedodd 49% fod eu hiechyd meddwl yn waeth na chyn y pandemig. Fe wnaeth yr elusen iechyd meddwl Mind gyhoeddi tystiolaeth o arolwg y llynedd, a oedd yn awgrymu bod iechyd meddwl dros hanner yr oedolion a’r bobl ifanc yn y DU wedi dirywio ers i’r cyfyngiadau symud fod mewn grym, gyda'r effaith waethaf ar bobl ifanc.[7]

Mae wedi’i sefydlu bod diweithdra’n gysylltiedig â lefelau llesiant isel ac iechyd sy’n dirywio. Bydd mwy a mwy o bobl sy’n ymuno â’r farchnad lafur yn teimlo effeithiau niweidiol os byddant yn ymuno â’r farchnad lafur yn ystod dirywiad economaidd. Mae tystiolaeth academaidd y gall profiadau niweidiol yn y farchnad lafur mewn

[7] Mind (2020) The mental health emergency: How has the coronavirus pandemic impacted our mental health?

dirwasgiad gael effeithiau gydol oes ar yr economi, iechyd, llesiant a hyd yn oed disgwyliad oes pobl ifanc.[8]

## EFFEITHIAU ECONOMAIDD

*Arwyddocâd economaidd y sector*

Yn ôl data'r Swyddfa Ystadegau Gwladol, roedd yr holl sector *Gwasanaethau Bwyd a Diod* wedi cyfrannu £1.3 biliwn o werth ychwanegol gros (GVA) i economi Cymru yn 2018, a oedd gyfwerth â 2% o gyfanswm y gwerth ychwanegol gros ar gyfer yr un flwyddyn. Yn 2019, gan ddefnyddio data Arolwg Cyflogaeth y Gofrestr Fusnes (BRES), amcangyfrifwyd bod 85,500 o bobl yn cael eu cyflogi'n uniongyrchol yn y sector 'Lletygarwch - Tafarndai, Caffis a Bwytai' yng Nghymru, 6.7% o gyfanswm y gyflogaeth.[9]

Mae'r sector lletygarwch hefyd yn hanfodol i'r economi sylfaen. Mae cwmnïau lleol yn aml yn prynu bwyd a diod gan gyflenwyr lleol. Mae'n amlwg bod cau'r sector lletygarwch yn effeithio ar y sector cyflenwi bwyd a diod – er enghraifft, mae 50% o'r llaeth a gyflenwir gan ffermwyr yn mynd i'r sector lletygarwch yn gyffredinol. Er bod y defnydd domestig wedi codi 15%, nid yw hyn yn gwneud iawn am y gostyngiad o'r sector lletygarwch. Mae Llywodraeth Cymru wedi gorfod camu i mewn i gefnogi ffermwyr o ganlyniad.

Yn 2019, roedd 22% o deithiau hamdden domestig 3+ awr yn golygu mynd allan am bryd o fwyd, ac ar gyfer 9% o'r holl ymweliadau (13.5 miliwn o deithiau, gyda gwariant cysylltiedig o £500m) dyma oedd prif reswm y daith. Roedd 19% yn golygu mynd ar noson allan i dafarn neu i glwb, ac ar gyfer 10% o'r holl ymweliadau (15.2 miliwn o deithiau, gyda gwariant cysylltiedig o £449m) dyma oedd prif reswm y daith. Mae gwariant cysylltiedig yn cynnwys pob rhan o'r daith hamdden, ac nid oes data ar gael ar gyfer gwariant ar fwyta ac yfed yn benodol. Ar gyfer teithiau dros nos i Gymru, roedd y gwariant uniongyrchol ar fwyta ac yfed allan yn ystod 2019 yn £428m, 28% o gyfanswm cost y daith, ar gyfartaledd.[10]

Mae bwyd a diod wrth galon y profiad i dwristiaid ac mae ymchwil diweddar ymysg defnyddwyr yn dangos bod diffyg cyfleusterau bwyd a diod yn rhwystr allweddol i deithio a dyddiau allan eleni. Canfu Arolwg Ymwelwyr Cymru 2019[11] fod 83% o'r ymwelwyr a oedd yn aros dros nos yn y DU a 59% o'r ymwelwyr dydd a oedd yn aros yn y DU wedi bwyta allan yn ystod eu taith yng Nghymru. Canfu Traciwr Defnyddwyr y DU Croeso Cymru (19-23 Ebrill)[12] mai'r prif ffactorau ymysg y rheini a oedd 'ddim yn hyderus iawn' ynghylch teithio yn ystod y gwanwyn oedd 'cyfyngiadau'r llywodraeth ar deithio' a 'llai o gyfleoedd i fwyta/yfed allan' (roedd 38% wedi sôn am hyn). Canfu Traciwr Adferiad Atyniadau ALVA y llynedd (Ton 3, 9-12 Mehefin 2020)[13] na fyddai 21% o ddefnyddwyr yn ymweld ag atyniad pe bai'r caffi neu'r lleoliad gwerthu bwyd/diod ar gau, dim ond cyfleusterau toiledau oedd yn

[8] Darllenwch: https://voxeu.org/article/impact-covid-19-chronic-health-uk

[9] Diffiniwyd SIC2007 cod 2-ddigid (56) Gweithgareddau gwasanaeth Bwyd a Diod hy bwytai, caffis, bwyd tecawê, tafarndai / bariau, clybiau, ac arlwyo ar gyfer digwyddiadau

[10] Ffynhonnell: GBTS, 2019. Dadansoddiad mewnol

[11] Arolwg Ymwelwyr Cymru 2019

[12] Traciwr Wythnosol Defnyddwyr COVID-19 (Ton 29, 19-23 Ebrill

[13] Traciwr Adferiad Atyniadau ALVA Ton 3: 9-12 Mehefin

bwysicach iddynt.

*Effeithiau economaidd cyffredinol*

Roedd Cynnyrch Domestig Gros blynyddol y DU wedi disgyn 9.9% yn 2020. Gwelwyd gostyngiad o 44% mewn gweithgareddau Llety a Gwasanaethau Bwyd yn ystod 2020, gwelodd y Celfyddydau, Adloniant a Hamdden ostyngiad o 26%, er bod gweithgareddau gwasanaethau bwyd a diod wedi bownsio'n ôl yn gryf yn ystod mis Awst 2020.

Mae Arolwg y Swyddfa Ystadegau Gwladol o Ganfyddiadau ac Amodau Busnes (BICS) yn rhoi cipolwg ar effeithiau'r cyfyngiadau ledled y DU ar y sector *Gweithgareddau Llety a Gwasanaethau Bwyd* yn gyffredinol.[14] Ynghyd â'r *Celfyddydau, Adloniant a Hamdden*, mae'n un o'r meysydd yn economi'r DU y mae'r pandemig iechyd a'r cyfyngiadau cysylltiedig wedi effeithio fwyaf arnynt; ddiwedd mis Ebrill dim ond 6 o bob 10 busnes llety a gwasanaethau bwyd yn y DU oedd yn masnachu, sy'n is na bron bob diwydiant arall, ac o'i gymharu ag 83% o fusnesau'r DU yn gyffredinol.[15] Yn ôl y disgwyl, mae'r ddau sector hyn yn parhau i weld y gostyngiadau mwyaf mewn trosiant busnes, gyda 6 o bob 10 busnes llety a gwasanaethau bwyd yn dweud bod eu trosiant wedi gostwng, o'i gymharu â thraean o fusnesau'r DU yn gyffredinol.

Oherwydd natur tafarndai, caffis a bwytai, mae'n bosibl y bydd llawer o'r galw (a'r refeniw cysylltiedig) sydd wedi'i golli ers i'r cyfyngiadau gael eu rhoi ar waith wedi cael ei golli heb fodd ei adfer ar ôl i'r cyfyngiadau gael eu llacio. Mae'r busnes a gollwyd yn y sector hwn yn annhebygol o gynyddu a chael ei ryddhau (galw wedi cronni) mewn ffyrdd y mae modd eu rhagweld ar gyfer sectorau eraill fel rhai sydd, er enghraifft, yn gwerthu nwyddau a/neu wasanaethau.

Mae dyraniad Cronfa Cadernid Economaidd ychwanegol o £200m yn cael ei ystyried (mae'r cyngor yn cael ei ddatblygu) i gefnogi'r sector hwn drwy'r ailagor graddol a'r cyfyngiadau parhaus.

### Cyflogaeth ac Effaith ar Incwm

Mae llawer o gwmnïau'n defnyddio Cynllun Cadw Swyddi drwy gyfnod y Coronafeirws (CJRS) Llywodraeth y DU i roi staff ar ffyrlo neu fathau eraill o gymorth. Mae'r CJRS yn sicrhau, petai gweithwyr yn cael eu rhoi ar ffyrlo, y bydd Llywodraeth y DU yn gwarantu 80% o'u hincwm cyflogedig arferol (gyda chyflogwyr yn cael ychwanegu at y cyflog yn ôl eu disgresiwn). Yn arolwg BICS ar gyfer 5-18 Ebrill, roedd 13% o weithwyr y DU ar ffyrlo, ond gwasanaethau llety a bwyd a'r Celfyddydau, adloniant a hamdden oedd y ddau ddiwydiant yr effeithiwyd arnynt waethaf, gyda 38% a 40% o'u gweithwyr ar ffyrlo llawn neu rannol.

I lawer o bobl yng Nghymru, mae pandemig Covid-19 wedi cael effaith niweidiol ar incwm eu haelwyd. Mae tystiolaeth o arolygon yn awgrymu bod 20% o bobl mewn

[14] Yn cwmpasu'r cyfnod rhwng 18 Mai a 31 Mai.

[15] Roedd canran y busnesau yn y DU a ddywedodd eu bod yn parhau i fasnachu yn 61% ar gyfer y sector Llety a Gwasanaethau Bwyd a 78% ar gyfer y sector Celfyddydau, Adloniant a Hamdden. 83% oedd cyfartaledd pob sector yn y DU.

sefyllfa waeth yn ariannol o ganlyniad i'r coronafeirws, ac mae 16% yn dweud eu bod mewn sefyllfa well.[16] Mae pryderon wedi cael eu codi ynglŷn ag effaith niweidiol y coronafeirws ar gyllid aelwydydd tlotach, yn enwedig rheini lle mae eu haelodau'n gweithio mewn sectorau sydd wedi cau. Mae'r aelwydydd hyn yn llai tebygol o allu lleihau eu gwariant yn sylweddol o ganlyniad i'r coronafeirws nag aelwydydd mwy cyfoethog, sy'n golygu eu bod yn fwy tebygol o fod yn ariannu eu gwariant yn ystod y cyfyngiadau symud drwy ddefnyddio cynilion (a all fod yn gyfyngedig) a'u bod felly'n cronni dyledion.[17] Mae'r rheini sydd ar incwm is wedi bod yn fwy tebygol o weld eu hincwm yn disgyn, ac mae gweithwyr ar gyflogau is wedi bod yn fwy tebygol na'r rheini sydd ar gyflogau uwch o fod wedi cael eu rhoi ar ffyrlo neu wedi colli eu swyddi.[18]

**Y Gweithlu**

Mae'r gweithlu twristiaeth a lletygarwch yn y ddau faes o'r economi sy'n tueddu i gynnwys cyfran anghymesur o bobl sydd wedi cael addysg is, pobl iau, Pobl Dduon, Asiaidd a Lleiafrifoedd Ethnig ac maent yn ennill cyflogau sy'n is o lawer na chyfartaledd Cymru (canolrif) – mae llawer o'r rhain yn grwpiau sydd fel arfer yn profi'r effeithiau cyson gwaethaf ar eu hiechyd, eu henillion, a'u potensial cyflogaeth o ganlyniad i ddirywiad economaidd.

**Cadwyn gyflenwi / gwerth lletygarwch i economi Cymru**

Yn 2018, roedd yr holl sector gwasanaethau bwyd a diod werth £1.3 biliwn o werth ychwanegol gros (GVA) i economi Cymru. Roedd hyn gyfwerth â 2% a 1.2% yn y drefn honno o gyfanswm y gwerth ychwanegol gros ar gyfer yr un flwyddyn. Er nad yw ystadegau llif nwyddau marchnad fewnol y DU ar gael, bydd lletygarwch Cymru mewn sawl achos yn prynu cynnyrch a nwyddau wedi'u gweithgynhyrchu yn uniongyrchol gan gwmnïau yng Nghymru, felly mae'n debygol y bydd manteision cadwyn gyflenwi oherwydd bod mwy o weithgarwch economaidd yn cael ei ganiatáu yn y sector – fodd bynnag, nid yw'n bosibl mesur yr effaith honno.

<u>EFFEITHIAU AMGYLCHEDDOL</u>

Mae tafarndai, caffis a bwytai i gyd yn ardaloedd lle mae'n rhaid i weithwyr a defnyddwyr deithio i safleoedd busnes er mwyn gweithredu. Er bod Llywodraeth Cymru yn parhau i hyrwyddo teithio llesol fel dewis yn lle mathau eraill o deithio yn ystod pandemig y coronafeirws a thu hwnt, mae agor y sector yn siŵr o gynyddu'r rhesymau i aelodau'r cyhoedd deithio mewn cerbyd preifat (yn enwedig felly oherwydd cyfyngiadau ar gapasiti trafnidiaeth gyhoeddus effeithiol). Er nad oes rhagolygon ar gael ynglŷn â'r effaith ganlyniadol ar ansawdd aer, disgwylir y bydd yn cael effaith negyddol o'i chymharu â'r misoedd diwethaf, lle credwyd bod ansawdd yr aer wedi gwella. Am y rheswm hwn, mae swyddogion yr Amgylchedd a Materion Gwledig yn monitro'r effeithiau ar ansawdd yr aer sydd wedi codi ers cyflwyno'r

[16] Iechyd Cyhoeddus Cymru (2021) Arolwg Ymgysylltu â'r Cyhoedd ar Iechyd a Llesiant yn ystod Mesurau'r Coronafeirws: Wythnos 48: 1 – 7 Mawrth 2021.

[17] Bangham & Leslie (2020) Rainy days: An audit of household wealth and the initial effects of the coronavirus crisis on saving and spending in Great Britain. Resolution Foundation.

[18] Resolution Foundation: Incymau, cynilion a gwariant drwy argyfwng y coronafeirws Tachwedd 2020

cyfyngiadau symud. Comisiynwyd ymgynghorwyr allanol i ddadansoddi'r effeithiau a bydd y gwaith hwn yn llywio polisi'r dyfodol gyda golwg ar gynnal gwelliannau i ansawdd aer ar gyfer y dyfodol, cyn belled ag y bo modd.

RHYNGDDIBYNIAETHAU GALLUOGWYR

*Gofal plant*

Mae dadansoddiad Llywodraeth Cymru yn awgrymu bod gan 11,400 o oedolion sy'n cael eu cyflogi yn y sector tafarndai a bwytai blant 16 oed ac iau. Ar hyn o bryd nid oes gennym unrhyw ddadansoddiad sy'n ein galluogi i ddeall faint o'r rhain y gallai fod angen trefniadau gofal plant ffurfiol arnynt er mwyn gallu dychwelyd i'r gwaith.

*Trafnidiaeth*

Mae data Arolwg Cenedlaethol Cymru 2014/15 yn cofnodi'r dull o deithio a ddefnyddir gan bobl i deithio i dafarndai, caffis ac ati. Dangosodd fod 47% (heb fod yn gyfan gwbl) o bobl yn defnyddio car fel dull arferol o deithio i dafarndai, caffis a bwytai, roedd 43% yn cerdded, roedd 8% yn defnyddio bysiau ac roedd 9% yn defnyddio tacsis. Mae hyn yn codi problem bosibl y mae angen ei hystyried, sy'n ymwneud â'r risg bosibl o gynnydd mewn troseddau gyrru dan ddylanwad diod os bydd pobl yn dewis peidio neu'n peidio â chael defnyddio tacsis (oherwydd rheolau cadw pellter) ar ôl yfed alcohol. Mae potensial hefyd ar gyfer mwy o ymddygiad gwrthgymdeithasol a materion yn ymwneud â threfn gyhoeddus wrth i yfed gormod o alcohol achosi problemau i staff trenau/bysiau a gyrwyr tacsis/cerbydau hurio preifat.

ASESIADAU O'R EFFAITH

*Effeithiau ar gydraddoldeb*

Mae asesiad o'r effeithiau yn ôl nodweddion gwarchodedig wedi'i nodi isod. Yn gyffredinol, mae'r cynnig yn hyrwyddo cydraddoldeb gan ei fod yn dileu'r cyfyngiadau ar deithio a fydd wedi effeithio ar wahanol grwpiau mewn gwahanol ffyrdd. Mae effeithiau negyddol posibl yn ymwneud â'r risgiau o wneud addasiadau i fannau awyr agored nad ydynt yn ystyried anghenion gwahanol grwpiau yn llawn. Mae'r rhain yn ymwneud yn bennaf â chydraddoldeb mynediad.

| ***Grŵp neu nodwedd warchodedig*** | ***Beth yw effeithiau cadarnhaol neu negyddol y cynnig?*** | ***Rhesymau dros eich penderfyniad (gan gynnwys tystiolaeth)*** | ***Sut byddwch yn lliniaru'r effeithiau?*** |
|---|---|---|---|
| *Oedran (meddyliwch am wahanol grwpiau oedran)* | **Cadarnhaol:** Mae carfannau iau o'r boblogaeth yn fwy tebygol o lawer o weithio yn y sector hwn yng Nghymru na charfannau hŷn, felly gallai agor y sector | Mae dadansoddiad Llywodraeth Cymru o ddata'r Arolwg Blynyddol o'r Boblogaeth yn 2019 yn dangos bod 46% o weithwyr mewn tafarndai, caffis a | Mae'r mesurau lliniaru y gofynnwyd i'r sector eu rhoi ar waith, a'r gofyniad iddynt ailagor yn gyfyngedig i ddechrau, wedi'u hanelu at leihau'r risg |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | arwain at effeithiau cadarnhaol o ran dosbarthiad os yw'n atal colledion swyddi posibl ac yn cynyddu incwm aelwydydd, drwy drosglwyddo unigolion oddi ar Gynllun Cadw Swyddi drwy gyfnod y Coronafeirws y DU. Ar hyn o bryd, y garfan hon yw'r grŵp oedran sy'n wynebu'r risg fwyaf o ganlyniad i ddirywiad economaidd.<br><br>Negyddol: Mae'r risgiau o ganlyniadau iechyd negyddol yn sgil dal Covid-19 yn cynyddu ag oedran. Dylid ystyried hyn mewn cysylltiad â staff a chwsmeriaid y sector. | bwytai yng Nghymru o dan 25 oed (a dim ond 12% o'r gweithlu mae'r grŵp oedran hwn yn ei gynrychioli). | o drosglwyddiad i bob grŵp; cwsmeriaid a staff.<br><br>Dylid defnyddio'r asesiadau risg y mae angen i fusnesau eu cynnal i nodi risgiau anghymesur i grwpiau penodol. |
| *Anabledd (meddyliwch am wahanol fathau o anabledd)* | **Cadarnhaol:** Mae'r boblogaeth anabl yng Nghymru yn cynrychioli cyfran uwch o'r gweithwyr yn y sector tafarndai a bwytai nag yn y gweithlu'n gyffredinol, felly gallai agor y sector arwain at effeithiau cadarnhaol o ran dosbarthiad os yw'n atal colledion swyddi posibl ac yn cynyddu incwm aelwydydd, drwy drosglwyddo unigolion oddi ar Gynllun Cadw Swyddi drwy gyfnod y Coronafeirws y DU. | Mae dadansoddiad o ddata'r Arolwg Blynyddol o'r Boblogaeth yn 2019 yn awgrymu bod cyfran y bobl anabl sy'n gweithio mewn tafarndai a bwytai yng Nghymru yn uwch na'r cyfartaledd, gyda 19% o'r gweithlu yn cael eu hystyried yn anabl (mae'r grŵp hwn yn cynrychioli 15% o'r gweithlu ehangach). | Mae Llywodraeth Cymru yn ymwybodol o faterion posibl ac yn ymgysylltu â grwpiau priodol i baratoi i gwblhau Asesiad Effaith Integredig.<br><br>Dylid defnyddio'r asesiadau risg y mae angen i fusnesau eu cynnal i nodi effeithiau anghymesur ar grwpiau penodol. |

| | | | |
|---|---|---|---|
| *Ailbennu rhywedd (y weithred o drawsnewid a phobl drawsryweddol)* | Heb ganfod effeithiau gwahaniaethol penodol. | Amh | Amh |
| *Beichiogrwydd a mamolaeth* | Negyddol: Mae'n bosibl y bydd y cynlluniau i ailagor y sector yn arwain at ddefnyddio llefydd i gynyddu capasiti awyr agored gwirioneddol. Bydd hi'n bwysig gwneud yn siŵr nad yw hyn yn creu amgylcheddau peryglus i rieni â phlant ifanc neu bramiau. | Amh | Mae Llywodraeth Cymru yn ymwybodol o faterion posibl ac yn ymgysylltu â grwpiau priodol i baratoi i gwblhau Asesiad Effaith Integredig. |
| *Hil (yn cynnwys gwahanol leiafrifoedd ethnig, sipsiwn a theithwyr a mudwyr, ceiswyr lloches a ffoaduriaid)* | **Cadarnhaol:** Mae'r boblogaeth BAME yn fwy tebygol o weithio yn y sector hwn yng Nghymru na'r boblogaeth wyn, felly gallai agor y sector arwain at effeithiau cadarnhaol o ran dosbarthiad os yw'n atal colledion swyddi posibl ac yn cynyddu incwm aelwydydd, drwy drosglwyddo unigolion oddi ar Gynllun Cadw Swyddi drwy gyfnod y Coronafeirws y DU.<br><br>Negyddol: Mae'n bosibl bod pobl BAME yn wynebu risg anghymesur o ganlyniadau iechyd negyddol pe baent yn dal Covid-19. Dylid ystyried hyn mewn cysylltiad â staff a | Mae dadansoddiad o ddata'r Arolwg Blynyddol o'r Boblogaeth yn 2019 yn amcangyfrif bod 12% o weithwyr mewn tafarndai a bwytai yng Nghymru yn dod o gefndir BAME (a dim ond 5% o'r gweithlu yng Nghymru mae'r grŵp hwn yn ei gynrychioli). | Mae'r mesurau lliniaru y gofynnwyd i'r sector eu rhoi ar waith, a'r gofyniad iddynt ailagor yn gyfyngedig i ddechrau, wedi'u hanelu at leihau'r risg o drosglwyddiad i bob grŵp; cwsmeriaid a staff.<br><br>Dylid defnyddio'r asesiadau risg y bydd angen i fusnesau eu cynnal i nodi risgiau anghymesur i grwpiau penodol. |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | chwsmeriaid y sector. | | |
| *Crefydd, cred a diffyg cred* | Heb ganfod effaith wahaniaethol benodol. | Amh | Amh |
| *Rhyw / Rhywedd* | Cadarnhaol: mae cyfran y gweithwyr yn y sector sy'n fenywod ychydig yn uwch nag ar gyfer gweithlu Cymru yn gyffredinol. | Mae dadansoddiad o ddata'r Arolwg Blynyddol o'r Boblogaeth yn 2019 yn amcangyfrif bod 50% o weithwyr mewn tafarndai a bwytai yng Nghymru yn fenywod, a bod menywod yn cynrychioli 47% o gyfanswm y gweithlu yng Nghymru. | Does dim effeithiau negyddol penodol yn deillio o'r cynnig. |
| *Cyfeiriadedd rhywiol (lesbiaidd, hoyw a deurywiol)* | Heb ganfod effaith wahaniaethol benodol. | Amh | Amh |
| *Priodas a phartneriaeth sifil* | Heb ganfod effaith wahaniaethol benodol. | Amh | Amh |
| *Plant a phobl ifanc hyd at 18 oed* | Negyddol: Gallai oedolion a gyflogir mewn tafarndai, caffis a bwytai fod â chyfrifoldebau gofal plant. Mae'n bosibl bod y cyfyngiadau symud cyfredol wedi amharu ar fathau traddodiadol o ofal plant. | Mae dadansoddiad Llywodraeth Cymru o'r Arolwg Blynyddol o'r Boblogaeth yn 2018 yn awgrymu bod gan 11,400 o'r oedolion sy'n gweithio yn y sector tafarndai a bwytai blant o dan 16 oed. | Mae Llywodraeth Cymru wedi llacio'r cyfyngiadau ar y sector gofal plant gyda'r bwriad o leddfu'r pwysau ar deuluoedd lle gallai fod angen i'r oedolion ddychwelyd i safleoedd ffisegol i weithio. |
| *Aelwydydd incwm isel* | **Cadarnhaol:** Drwy ganiatáu i aelodau o'r sector hwn ddychwelyd i weithio, gallai hynny leihau colledion swyddi. | Mae data dros dro o'r Arolwg Blynyddol o Oriau ac Enillion yn darparu amcangyfrifon ar gyfer cyflog gros fesul awr a fesul wythnos, yn ôl codau Dosbarthiad Diwydiannol Safonol (SIC) 2 ddigid yng Nghymru. Ar gyfer **Gweithgareddau Gwasanaethau Bwyd a Diod** (cod SIC 56), y | Does dim effeithiau negyddol penodol yn deillio o'r cynnig. |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | cyflog gros canolrifol yr awr oedd £8.28 – £3.91 yn is na chanolrif Cymru ar gyfer holl swyddi gweithwyr, sef £12.19. O ran cyflog gros yr wythnos yn y sector hwn, £197.30 yw'r canolrif – tua £243.50 yn is na chanolrif Cymru.<br><br>Gan ddefnyddio'r un data, amcangyfrifir bod **o leiaf** 80% o weithwyr **Gweithgareddau Gwasanaethau Bwyd a Diod** yn cael cyflog gros is yr awr na chanolrif Cymru. | |

***Hawliau Dynol a Chonfensiwn y Cenhedloedd Unedig***

Prif bwrpas y cyfyngiadau a'r gofynion sy'n gysylltiedig â'r cyfyngiadau symud yw diogelu hawl pawb i fywyd. Mae hyn wedi arwain at gyfyngiadau ar hawliau megis ar fywyd preifat a theuluol a'r rhyddid i ymgynnull a chymdeithasu ar sail y gellir ei gyfiawnhau yn ymwneud ag iechyd. Mae iechyd y cyhoedd yn cael ei ddisgrifio fel rheswm derbyniol dros atal yr hawliau hyn, ar yr amod ei fod yn angenrheidiol ac yn gymesur. Er gwaethaf y cyfyngiadau symud parhaus, yn gyffredinol mae'r cynnig hwn yn effeithio ar y canlynol:

| ***Hawliau Dynol*** | ***Beth yw effeithiau cadarnhaol neu negyddol y cynnig?*** | ***Rhesymau dros eich penderfyniad (gan gynnwys tystiolaeth)*** | ***Sut byddwch yn lliniaru'r effeithiau negyddol?*** |
|---|---|---|---|
| Yr hawl i fwynhau perthnasau teuluol heb ymyrraeth gan y llywodraeth (ee yr hawl i fyw gyda'ch teulu ac i gael cyswllt rheolaidd) | Cadarnhaol: bydd caniatáu i Dafarndai, Caffis a Bwytai ailagor yn golygu bod llawer o weithwyr yn y sector – a allent fod yn ennill llai na'r Isafswm Cyflog a'r Cyflog Byw Cenedlaethol oherwydd eu bod yn cael 80% o'r cyflog roeddent yn ei gael cyn yr argyfwng – yn dychwelyd i'r gwaith. | Mae data incwm ar gyfer yr Arolwg Blynyddol o Oriau ac Enillion yn dangos bod gweithwyr yn y sector hwn yn ennill llai na'r cyflog cyfartalog (canolrif) yng Nghymru a bod llawer ohonynt yn debygol o fod yn ennill llai na'r Isafswm Cyflog/Cyflog Byw Cenedlaethol | Does dim effeithiau negyddol penodol yn deillio o'r cynnig. |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | oherwydd eu bod ar ffyrlo. | |

*Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn*

Mae agor lletygarwch dan do yn cefnogi'r gofyniad bod gan bob plentyn a pherson ifanc hawl i ymlacio, chwarae ac ymuno mewn ystod eang o weithgareddau. Mae lletygarwch dan do yn rhan o'r profiadau a chyfleusterau a ddarperir i deuluoedd, a fydd yn sicrhau bod modd sicrhau cymaint o ganlyniadau â phosibl i blant a phobl ifanc.

*Y Gymraeg*

Mae 150,000 o bobl yn cael eu cyflogi'n uniongyrchol yn yr economi ymwelwyr – tua 12% o'r gweithlu. Mae'r economi yn hanfodol i greu'r amodau cymdeithasol lle gall siaradwyr Cymraeg aros mewn cymunedau Cymraeg, neu ddychwelyd i'r cymunedau hynny. Mae llawer o ardaloedd sy'n Gymraeg yn bennaf yn dibynnu'n drwm ar dwristiaeth am incwm a chyflogaeth. Mae canran uchel o fusnesau twristiaeth mewn ardaloedd Cymraeg – er enghraifft mae dros draean y busnesau llety i dwristiaid wedi'u lleoli mewn awdurdodau lleol lle mae dros 40% o'r boblogaeth yn siarad Cymraeg fel iaith gyntaf.

Bydd cymunedau Cymraeg eu hiaith yn cael budd o'r ffaith bod busnesau lletygarwch yn cael ailddechrau gweithredu, oherwydd bydd yn helpu i greu a diogelu swyddi, ac mae'n bosibl y bydd hynny'n annog siaradwyr Cymraeg i aros a gweithio yno, a chynnal hyfywedd yr iaith yn sgil hynny.

**iii.** Atyniadau dan do ac arcedau difyrion

<u>EFFEITHIAU AR LESIANT</u>

Mae twristiaeth, gan gynnwys atyniadau, yn cyfrannu at dwf a ffyniant economïau lleol ledled Cymru. Gan amlaf, mae twristiaeth yn cyflogi rhagor o fenywod na dynion. Mae cyfran uwch o gyflogaeth ym maes twristiaeth yng Nghymru yn rhan amser sy'n cyfrif am bron i hanner yr holl gyflogaeth ac mae hyn wedi bod yn cynyddu dros y blynyddoedd diwethaf. Wrth gymharu â chyfanswm y sectorau blaenoriaeth eraill yng Nghymru, mae cyfran y gyflogaeth ym maes Twristiaeth yn sylweddol uwch ar gyfer pobl BAME a phobl 16-24 oed ac ychydig yn uwch ymysg pobl sydd ag anabledd.

Mae'r sector twristiaeth yn darparu'r llety, y cyfleusterau a'r seilwaith sy'n galluogi pobl ifanc Cymraeg i weithio yn eu cymunedau. Mae llawer o ardaloedd sy'n Gymraeg yn bennaf yn dibynnu'n drwm ar dwristiaeth am incwm a chyflogaeth.

Yn ddiweddar, rydym wedi cyhoeddi asesiad effaith integredig ar gyfer twristiaeth sydd, er iddo gael ei gwblhau cyn y pandemig, yn dal yn berthnasol i raddau helaeth.

Mae'r economi ymwelwyr yn cyfrannu at ganlyniadau iechyd a llesiant drwy gefnogi, hyrwyddo a gwella mynediad at gyfleoedd hamdden a chyfleusterau twristiaeth ac yn cefnogi erthygl CCUHP sy'n mynnu bod gan bob plentyn a pherson ifanc hawl i ymlacio, chwarae ac ymuno mewn amrywiaeth eang o weithgareddau.

Y prif ffactor a gafodd ei gadarnhau gan ymwelwyr sy'n aros yn y DU yn 2019 o ran eu denu i ddod i Gymru oedd er mwyn eu helpu i ymlacio a dianc o straen bywyd ac roedd dros ddwy ran o dair yn fodlon iawn ar eu taith i Gymru yn y cyswllt hwnnw. Ar ben hynny, mae helpu pobl i ddianc rhag y cyfan yn un o'r prif bethau sy'n sbarduno bodlonrwydd ar Gymru fel lle i ymweld ag ef (ochr yn ochr ag ansawdd amgylchedd naturiol Cymru).[19]

Roedd cyfran uwch o'r rheini a oedd yn mynd ar deithiau undydd yng Nghymru yn 2019 yn dod o gefndiroedd cymdeithasol C2DE nag ymysg ymwelwyr dros nos (tua thraean o'i gymharu â thua chwarter).

Bydd ailagor atyniadau dan do ac arcedau difyrion yn cyfrannu'n uniongyrchol neu'n anuniongyrchol at lesiant gan gael effeithiau cadarnhaol ar yr economi, cyfoethogi diwylliannol a chymdeithasol ac iechyd.

EFFEITHIAU ECONOMAIDD

Mae Llywodraeth Cymru wedi nodi bod Twristiaeth yn un o bedwar sector sylfaen economi Cymru. Mae'n cyfrannu 6% o werth ychwanegol gros at economi Cymru. Mae data ar gyfer 2019 yn dangos bod £6.0 biliwn o wariant wedi cael ei gynhyrchu gan dwristiaeth ac yn 2020 roedd 11% o fusnesau yng Nghymru yn y sector twristiaeth. Roedd hyn yn uwch mewn rhai ardaloedd gyda Gwynedd ar 16%, Conwy ar 15% ac Ynys Môn, Sir Benfro a Merthyr Tudful ar 14%.[20]

Mae tua £5bn y flwyddyn yn cael ei wario ar deithiau hamdden undydd, ac mae teithiau i atyniadau i ymwelwyr yn tueddu i fod yn gyfrifol am tua 3% o'r gwariant (tua £150m-£200m y flwyddyn).

Roedd y bobl wnaeth ymateb i'r 'ymgynghoriad 10 cwestiwn' ar gyfer Cynllun Gweithredu ar Dwristiaeth Llywodraeth Cymru, a gyhoeddwyd ym mis Ionawr 2020, yn teimlo bod effaith economaidd twristiaeth yn gwneud rhai cymunedau gwledig yn hyfyw, gan ddarparu cyfleoedd cyflogaeth uniongyrchol ac anuniongyrchol a galluogi busnesau ehangach nad ydynt yn ymwneud yn uniongyrchol â thwristiaeth i ategu eu hincwm.

Mae'n anoddach darogan gwasgariad y gwariant ar atyniadau drwy gydol y flwyddyn na'r gwariant ar lety, ac mae data misol yn ystod blynyddoedd diweddar wedi amrywio, ond mae cyfnod brig yn ymddangos yn gyson rhwng mis Ebrill a mis Mehefin. Mae busnesau atyniadau a fethodd gyfran sylweddol o'u hincwm y llynedd yn cael cyfle i gynyddu eu hincwm eleni.

---

[19] Arolwg Ymwelwyr Cymru 2019 – Adroddiad Ymwelwyr sy'n Aros o'r DU

[20] Ffynhonnell y data: Cofrestr Ryngadrannol o Fusnesau y Swyddfa Ystadegau Gwladol 2020

*Data defnyddwyr diweddaraf Atyniadau i Ymwelwyr / y pellter a deithiwyd i atyniadau:*

Mae 24% o ddefnyddwyr y DU yn bwriadu mynd ar ddiwrnod allan i atyniad i ymwelwyr yn ystod y pythefnos nesaf. Mae'r cyrchfannau o ddewis ar gyfer teithiau undydd yn fwy tebygol o fod yn wledig neu'n arfordirol eu natur. Mae mwy o gyplau heb blant a phobl sydd â bywyd teuluol yn mynd ar fwy o deithiau undydd o gymharu â phoblogaeth oedolion y DU drwyddi draw.

Mae atyniadau i ymwelwyr yn sbarduno twristiaeth yn gyffredinol ac, ar ôl cyfyngiadau'r llywodraeth, y prif resymau dros lai o hyder ymysg y cyhoedd wrth deithio yw cael llai o lefydd i fwyta ac yfed allan, a llai o bethau i'w gwneud a llefydd i ymweld â nhw.   Mae atyniadau dan do neu dan do yn bennaf yn dal yn debygol o ddenu lefelau is o ddiddordeb nag atyniadau yn yr awyr agored o gymharu â'r arfer, gan eu bod yn debygol o weld 12% net yn llai o ymwelwyr nag arfer, er bod hyn yn symud yn ôl at lefelau arferol.  Mae lefel y cysur wrth ymweld ag atyniad dan do wedi aros yr un fath yn ystod yr wythnosau diwethaf (2.3 allan o 4) ac mae gweithgareddau eraill fel defnyddio trafnidiaeth gyhoeddus, bwyta allan a siopa yn dangos arwyddion bod lefel y cysur yn codi'n araf.[21]

Mae Cymdeithas y Prif Atyniadau i Ymwelwyr yn honni, ym mis Mawrth eleni, fod oddeutu chwarter y farchnad sy'n ymweld ag atyniadau wedi dweud y byddent yn ymweld â thŷ neu safle hanesyddol, ac amgueddfeydd neu orielau celf cyn gynted ag y byddant ar agor, ond adeg yr arolwg, dywedodd y gyfran fwyaf – tua 40% – y byddent yn 'aros i weld beth sy'n digwydd' yn y tymor byr.  Mae 10% o'r farchnad yn honni y byddant, ar ôl cael y dos cyntaf o frechlyn, yn ymweld ag atyniad cyn gynted ag y bydd y cyfle'n codi, ac ar ôl cyflwyno'r brechlyn yn llwyddiannus ers yr arolwg hwn, efallai y bydd y ffigurau hyn wedi gwella. .  Er ei bod yn ymddangos bod ychydig mwy o hyder wrth ymweld ag atyniadau yn yr awyr agored na dan do, ers diwedd mis Ionawr, bu gostyngiad yng nghyfran y farchnad a fydd yn teimlo'n fwy pryderus nag arfer am ddefnyddio cyfleusterau atyniadau dan do ar ôl ailagor, gan gynnwys toiledau a chaffis dan do.[22]

## EFFEITHIAU AMGYLCHEDDOL

Mae'n debygol y bydd yr effaith amgylcheddol yn niwtral. Mae'r mesurau llacio a gynigir yn debygol o arwain at fwy o deithio mewn car. Byddai'r cynnydd mewn gwyliau yng Nghymru yn cael ei wrthbwyso gan y tebygolrwydd y bydd llai o deithio mewn awyrennau a gostyngiad mewn allyriadau.

Nid oes unrhyw effeithiau amlwg o ran bioamrywiaeth nac addasu.

## ASESIADAU O'R EFFAITH

*Effeithiau ar gydraddoldeb*

[21] Traciwr Defnyddwyr y DU Croeso Cymru: Ton 29, 19-23 Ebrill 2021
[22] Traciwr Adferiad Atyniadau ALVA: Ton 7, 3-9 Mawrth 2021

Mae asesiad o'r effeithiau yn ôl nodweddion gwarchodedig wedi'i nodi isod. Yn gyffredinol, mae'r cynnig yn hyrwyddo cydraddoldeb gan ei fod yn dileu'r cyfyngiadau ar deithio a fydd wedi effeithio ar wahanol grwpiau mewn gwahanol ffyrdd. Mae effeithiau negyddol posibl yn ymwneud â'r risgiau o wneud addasiadau i atyniadau awyr agored nad ydynt yn ystyried anghenion gwahanol grwpiau yn llawn. Mae'r rhain yn ymwneud yn bennaf â chydraddoldeb mynediad.

| ***Grŵp neu nodwedd warchodedig*** | ***Beth yw effeithiau cadarnhaol neu negyddol y cynnig?*** | ***Rhesymau dros eich penderfyniad (gan gynnwys tystiolaeth)*** | ***Sut byddwch yn lliniaru'r effeithiau?*** |
|---|---|---|---|
| *Oedran (meddyliwch am wahanol grwpiau oedran)* | **Cadarnhaol:** Bydd ailagor rhagor o safleoedd, gan ddarparu amrywiaeth ehangach o wasanaethau ac atyniadau, yn fuddiol i bob grŵp oedran. Mae Cymru'n parhau i fod yn gyrchfan boblogaidd i deithwyr canol oed/hŷn a phobl anabl. Mae proffil oedran y bobl sy'n ymweld â Chymru ar eu gwyliau yn debyg i Brydain ar y cyfan, gan wyro tuag at ymwelwyr canol oed a hŷn. Mae pobl iau, yn enwedig pobl dan 25 oed, yn cynrychioli cyfran gymharol fach o deithiau gwyliau domestig dros nos ym | Mae'r dystiolaeth a nodir uchod ar lesiant ac effeithiau economaidd yn tynnu sylw at yr amcangyfrif o gynrychiolaeth y grŵp hwn fel ymwelwyr ac yn y gweithlu. | Mae Llywodraeth Cymru wedi mabwysiadu dull cydweithredol o ddatblygu canllawiau ar ailagor sectorau/gwasanaethau/cyfleusterau, a hynny gyda rhanddeiliaid a diwydiannau. Felly, mae canllawiau cynhwysfawr ar roi'r mesurau ar waith yn ddiogel ar gael i'r meysydd hynny lle mae'r cyfyngiadau wedi'u llacio, a byddant yn cael eu paratoi fel y bo'n briodol i safleoedd eraill wrth i baratoadau gael eu gwneud ar gyfer eu hailagor.<br><br>Mae canllawiau Llywodraeth Cymru "Cyrchfannau a lleoliadau diwylliant a threftadaeth: Canllawiau ar gyfer dychwelyd yn raddol" yn cynghori sefydliadau i feddwl am hawliau'r rheini sydd â nodweddion gwarchodedig a sut byddant yn gallu parhau i ddefnyddio'r lleoliad / gwasanaethau'n ddiogel ac yn gofyn iddynt ystyried oed a pha mor agored i niwed yn glinigol yw'r bobl yn eich gweithlu wrth feddwl am risgiau sy'n ymwneud â Covid-19. Mae hyn yn cael ei ailadrodd yn y canllawiau i fusnesau twristiaeth a lletygarwch a'r rhestr wirio gysylltiedig. |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | Mhrydain yn gyffredinol, er bod Cymru'n cael cyfran uwch o deithiau gwyliau ym Mhrydain gyda phlant yn y parti gan gyrraedd 13% yn 2018, o'i gymharu â 10% o'r gwyliau heb blant yn y parti. Mae gan 41% o'r teithiau gwyliau dros nos a wneir gan drigolion Prydain yng Nghymru blant yn eu parti gyda 2.6 miliwn taith yn 2018, bydd nifer o'r rhain yn wyliau gan deuluoedd sy'n byw yng Nghymru.<br><br>Mae'r canllawiau ar gyfer busnesau twristiaeth a lletygarwch yn datgan y bydd y cyfyngiadau sydd ar aelodau hŷn cymdeithas ac ar aelodau sy'n agored i niwed yn glinigol y cynghorir iddynt **barhau i warchod** hefyd yn effeithio ar sut bydd sefydliadau'n gallu ailagor. | | |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | O ran cyflogeion, mae’r gyfran cyflogaeth ym maes twristiaeth yn sylweddol uwch ymysg pobl 16-24 oed. Felly gallai'r mesurau arwain at ganlyniadau buddiol o ran dosbarthiad i bobl ifanc pe baent yn helpu i gadw swyddi a chynyddu incwm aelwydydd ymysg y rheini sy’n gweithio yn y sector (hy drwy gael eu cyflog llawn wrth i’w cyfnod ar ffyrlo ddod i ben).<br><br>Mae’n bosibl y bydd cyrchfannau a lleoliadau’n gallu cynnig profiad gwaith gwerthfawr i bobl ifanc hefyd. | | |
| *Anabledd (meddyliwch am wahanol fathau o anabledd)* | **Cadarnhaol:** Mae 24% o’r teithiau dros nos a wneir yng Nghymru yn cynnwys rhywun yn y parti sydd ag anabledd neu nam arall - sydd ychydig yn uwch na'r lefel ar gyfer Prydain | Wrth i ragor o safleoedd ailagor, o ganolfannau cymunedol i atyniadau, dylai pobl anabl elwa ar allu defnyddio amrywiaeth ehangach o wasanaethau a manteisio ar gyfleoedd eraill. Bydd hyn yn helpu i leihau nifer y bobl sy’n unig ac yn teimlo’n ynysig; yn darparu mynediad gwell | Roedd “Canllawiau i gyrchfannau a lleoliadau diwylliant a threftadaeth ar gyfer ailagor yn raddol ac yn ddiogel” Llywodraeth Cymru yn rhoi nodiadau i fusnesau twristiaeth a lletygarwch er mwyn ystyried hawliau’r rheini sydd â nodweddion gwarchodedig o ran cael gafael ar leoliadau neu wasanaethau. Mae hyn hefyd wedi cael ei gynnwys yn y rhestr wirio ar gyfer busnesau twristiaeth. |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | drwyddi draw (20%). | at gymorth; ac yn hyrwyddo llesiant yn gyffredinol. | ee rhoi gwybod iddynt am unrhyw newid i'r trefniadau archebu neu sut bydd y lleoliad yn helpu pobl anabl er mwyn iddynt allu parhau i ddefnyddio'r lleoliad mewn ffordd ddiogel.<br><br>ee darparu gwybodaeth ychwanegol i ymwelwyr sydd â nam ar eu golwg cyn eu hymweliad o ran newidiadau i fynedfa'r adeilad neu'r safle a llwybrau newydd a mwy cymhleth i ymwelwyr eu dilyn ac, yn gyffredinol, drwy wneud yr holl wybodaeth sydd ar gael i ymwelwyr yn fwy hygyrch.<br><br>Mae'r canllawiau hefyd yn datgan bod gan gyflogwyr ddyletswyddau statudol tuag at weithwyr anabl a rhaid iddynt wneud addasiadau rhesymol i wneud yn siŵr nad ydynt dan anfantais. |
| *Ailbennu rhywedd (y weithred o drawsnewid a phobl drawsryweddol)* | Nid yw'n debygol o gael effaith. Treuliwyd ychydig o amser yn chwilio drwy dystiolaeth ac nid oes unrhyw dystiolaeth eilaidd berthnasol ar gael na data procsi ar brofiadau ac ymddygiadau teithio'r grŵp hwn. | Dim digon o ddata ar gael i gynhyrchu asesiad iawn<br><br>Wrth i ragor o adeiladau agor, dylai pobl elwa'n gyffredinol ar ragor o gyfleoedd ar gyfer rhyngweithio cymdeithasol diogel a chyfleoedd i ddefnyddio gwasanaethau, a fydd yn helpu i leihau nifer y bobl sy'n unig ac yn teimlo'n ynysig; yn darparu rhagor o fynediad at gymorth; ac yn hyrwyddo llesiant yn gyffredinol. | |
| *Beichiogrwydd a mamolaeth* | Bydd ailagor rhagor o fusnesau, fel atyniadau i dwristiaid, yn darparu amrywiaeth ehangach o weithgareddau | Wrth i ragor o safleoedd agor, byddant yn elwa'n gyffredinol ar ragor o gyfleoedd ar gyfer rhyngweithio cymdeithasol diogel a chyfleoedd i ddefnyddio gwasanaethau, a fydd yn helpu i leihau nifer y | Mae canllawiau Llywodraeth Cymru "Cyrchfannau a lleoliadau diwylliant a threftadaeth: Canllawiau ar gyfer dychwelyd yn raddol" yn cynghori sefydliadau i feddwl am hawliau'r rheini sydd â nodweddion gwarchodedig a sut byddant yn gallu parhau i ddefnyddio eich lleoliad / gwasanaethau'n ddiogel. |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | y bydd mamau/gofalwyr yn gallu eu mwynhau gyda phlant ifanc o bosibl. | bobl sy'n unig ac yn teimlo'n ynysig; yn darparu rhagor o fynediad at gymorth; ac yn hyrwyddo llesiant yn gyffredinol. | Mae'r Canllawiau i fusnesau twristiaeth a lletygarwch yn tynnu sylw at y ffaith bod asesiadau risg yn ofyniad cyfreithiol i fenywod beichiog, dim ots beth yw maint y busnes, a bod gan gyflogwyr ddyletswydd statudol i famau newydd neu fenywod beichiog. |
| *Hil (yn cynnwys gwahanol leiafrifoedd ethnig, sipsiwn a theithwyr a mudwyr, ceiswyr lloches a ffoaduriaid)* | Niwtral fel ymwelwyr.<br><br>**Cadarnhaol:** O ran gweithwyr, mae'r gyfran cyflogaeth ym maes twristiaeth ychydig yn uwch ymysg pobl o gefndir BAME ac felly, wrth ailagor rhagor o fusnesau, dylai hyn helpu i gadw swyddi a chynyddu incwm aelwydydd ymysg y rheini sy'n gweithio yn y sector (hy drwy gael eu cyflog llawn wrth i'w cyfnod ar ffyrlo ddod i ben). | Cafodd data eu cronni rhwng 2016-2018 o arolygon GBTS a GBDVS i ddeall unrhyw wahaniaethau o ran y cymhellion rhwng ymwelwyr gwyn a BAME â Chymru o Brydain Fawr. Ar gyfer ymwelwyr dros nos, roedd y prif gymhellion i deithio yn dilyn patrwm tebyg gyda phobl wyn a BAME yn teithio'n bennaf ar gyfer gwyliau/pleser/hamdden (63% o'i gymharu â 54%) ac yna ymweld â theulu a pherthnasau (26% o'i gymharu â 28%) ac yna teithio at ddibenion busnes (8% o'i gymharu â 12%). Y rheswm mwyaf cyffredin dros ymweliadau dydd i ymwelwyr gwyn a BAME oedd ymweld â ffrindiau a theulu (23% o'i gymharu â 19%). | Rhaid cadw at negeseuon cyson a chlir i atgoffa pobl BAME o'r risgiau sy'n gysylltiedig â COVID-19.<br><br>Mae canllawiau Llywodraeth Cymru "Cyrchfannau a lleoliadau diwylliant a threftadaeth: Canllawiau ar gyfer dychwelyd yn raddol" yn cynghori sefydliadau i feddwl am hawliau'r rheini sydd â nodweddion gwarchodedig a sut byddant yn gallu parhau i ddefnyddio eich lleoliadau/gwasanaethau'n ddiogel.<br><br>Mae'r canllawiau hefyd yn cynghori defnyddio negeseuon syml, clir a hygyrch i egluro'r canllawiau, gan ystyried grwpiau sydd ag iaith gyntaf ar wahân i'r Gymraeg a'r Saesneg.<br><br>Mae'r canllawiau twristiaeth yn nodi er mwyn trin cyflogeion yn deg y dylid cymryd camau i ddeall, cynnwys ac ystyried amgylchiadau penodol y rheini sydd â nodweddion gwarchodedig. Mae hyn hefyd wedi cael ei gynnwys yn y rhestr wirio gysylltiedig.<br><br>Mae hefyd yn mynnu bod yr asesiad risg yn rhoi sylw penodol i a yw'r bobl sy'n gwneud y gwaith yn arbennig o agored i niwed oherwydd COVID19 a rhoi camau ar waith i'w diogelu. |
| *Crefydd, cred a diffyg cred* | Nid yw'n debygol o gael effaith. | Nid yw'r data ar grefydd ymwelwyr ag atyniadau i dwristiaid yn cael eu casglu drwy arolygon swyddogol. Treuliwyd ychydig o amser yn chwilio drwy dystiolaeth | Mae canllawiau Llywodraeth Cymru "Cyrchfannau a lleoliadau diwylliant a threftadaeth: Canllawiau ar gyfer dychwelyd yn raddol" yn cynghori sefydliadau i feddwl am hawliau'r rheini sydd â nodweddion gwarchodedig a sut byddant yn gallu |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | ac nid oes unrhyw dystiolaeth eilaidd berthnasol ar gael na data procsi ar brofiadau ac ymddygiadau teithio'r grŵp hwn. | parhau i ddefnyddio eich lleoliad / gwasanaethau'n ddiogel.<br><br>Mae'r canllawiau twristiaeth yn nodi er mwyn trin cyflogeion yn deg y dylid cymryd camau i ddeall, cynnwys ac ystyried amgylchiadau penodol y rheini sydd â nodweddion gwarchodedig. Mae hyn hefyd wedi cael ei gynnwys yn y rhestr wirio gysylltiedig.<br><br>Mae hefyd yn nodi bod y camau y bydd angen eu cymryd fel arfer yn cynnwys sicrhau nad ydych yn cael effaith negyddol nad oes modd ei chyfiawnhau ar rai grwpiau o'u cymharu ag eraill, er enghraifft y rheini sydd ag ymrwymiadau crefyddol. |
| *Rhyw / Rhywedd* | Gan amlaf, mae twristiaeth yn cyflogi rhagor o fenywod na dynion.<br><br>Felly, wrth i ragor o fusnesau perthnasol gael yr hawl i ailagor dylent helpu i gadw swyddi a chynyddu incwm aelwydydd ymysg y rheini sy'n gweithio yn y sector (hy drwy gael eu cyflog llawn wrth i'w cyfnod ar ffyrlo ddod i ben). | Bydd cyfleoedd i ddychwelyd i weithio yn helpu i leihau'r pryderon sy'n gysylltiedig â'r cyfyngiadau symud, gan gynnwys pryderon ariannol. | Mae canllawiau Llywodraeth Cymru "Cyrchfannau a lleoliadau diwylliant a threftadaeth: Canllawiau ar gyfer dychwelyd yn raddol" yn cynghori sefydliadau i feddwl am hawliau'r rheini sydd â nodweddion gwarchodedig a sut byddant yn gallu parhau i ddefnyddio eich lleoliad / gwasanaethau'n ddiogel.<br><br>Mae'r canllawiau twristiaeth yn nodi er mwyn trin cyflogeion yn deg y dylid cymryd camau i ddeall, cynnwys ac ystyried amgylchiadau penodol y rheini sydd â nodweddion gwarchodedig. Mae hyn hefyd wedi cael ei gynnwys yn y rhestr wirio gysylltiedig.<br><br>Mae hefyd yn nodi bod y camau y bydd angen eu cymryd fel arfer yn cynnwys sicrhau nad ydych yn cael effaith negyddol nad oes modd ei chyfiawnhau ar rai grwpiau o'u cymharu ag eraill, er enghraifft y rheini sydd â chyfrifoldebau gofalu. |
| *Cyfeiriadedd rhywiol (lesbiaidd,* | Mae gwybodaeth brocsi ar gael drwy ymchwil i | O ran twristiaeth, mewn arolwg gan '[VisitScotland'](VisitScotland) o'r canfyddiadau o | Mae canllawiau Llywodraeth Cymru "Cyrchfannau a lleoliadau diwylliant a threftadaeth: Canllawiau ar gyfer dychwelyd yn raddol" yn cynghori |

| | | | |
|---|---|---|---|
| *hoyw a deurywiol)* | ymwelwyr LGBT â'r Alban[23]. Tybir y byddai'r canfyddiadau hyn hefyd yn berthnasol i Gymru. Mae'r dylanwadau ar fynd ar daith i'r Alban yn debyg i ymwelwyr LGBT, yn yr un modd ag ymwelwyr eraill. Fodd bynnag, rhaid iddynt hefyd feddwl am amrywiaeth o ffactorau eraill nad ydynt o reidrwydd bob amser yn bwysig i deithwyr nad ydynt yn deithwyr LGBT. Mae'r rhain yn aml yn cynnwys faint o groeso bydden nhw'n ei gael mewn cyrchfannau penodol, sut bydden nhw'n cael eu trin yn eu llety a hyd yn oed pa mor ddiogel fydden nhw'n cerdded i lawr y stryd; ac mae'r rhain i gyd yn ystyriaethau sylfaenol sy'n dylanwadu ar ddewisiadau cyrchfannau ar | gyrchfannau ystyriol o LGBT o gwmpas y byd, roedd y DU yn 12fed allan o 15 cyrchfan a gafodd eu crybwyll yn ddigymell. | sefydliadau i feddwl am hawliau'r rheini sydd â nodweddion gwarchodedig a sut byddant yn gallu parhau i ddefnyddio eich lleoliad / gwasanaethau'n ddiogel.<br><br>Mae'r canllawiau twristiaeth yn nodi er mwyn trin cyflogeion yn deg y dylid cymryd camau i ddeall, cynnwys ac ystyried amgylchiadau penodol y rheini sydd â nodweddion gwarchodedig. Mae hyn hefyd wedi cael ei gynnwys yn y rhestr wirio gysylltiedig. |

[23] Visit Scotland (2014). Ymchwil LGBT. https://www.visitscotland.org/binaries/content/assets/dot-org/pdf/research-papers/lgbt-topic-paper-july-2014.pdf

| | | | |
|---|---|---|---|
| | gyfer ymwelwyr LGBT. O ran canfyddiadau o gyrchfannau ystyriol o LGBT o gwmpas y byd, roedd y DU yn 12fed allan o 15 cyrchfan a gafodd eu crybwyll yn ddigymell. Er bod y canfyddiad o gael eu croesawu yn yr Alban yn eithaf uchel ymysg ymwelwyr LGBT o'r Alban (82%), mae lle i wella o hyd ymysg unigolion LGBT o weddill y DU (67%) a thramor (68%). | | |
| *Priodas a phartneriaeth sifil* | *Heb ganfod effaith wahaniaethol* | *Wrth i ragor o adeiladau agor, dylai cyplau elwa'n gyffredinol ar ragor o gyfleoedd ar gyfer rhyngweithio cymdeithasol diogel a chyfleoedd i ddefnyddio gwasanaethau, a ddylai hyrwyddo llesiant.* | Mae'r canllawiau twristiaeth yn nodi er mwyn trin cyflogeion yn deg y dylid cymryd camau i ddeall, cynnwys ac ystyried amgylchiadau penodol y rheini sydd â nodweddion gwarchodedig. Mae hyn hefyd wedi cael ei gynnwys yn y rhestr wirio gysylltiedig. |
| *Plant a phobl ifanc hyd at 18 oed* | **Cadarnhaol:** Bydd yn darparu rhagor o gyfleoedd i gymryd rhan mewn amrywiaeth o wahanol weithgareddau ac i ryngweithio'n gymdeithasol ar gyfer pobl ifanc. | Mae'r arolwg '[Coronafeirws a Fi]' o tua 23,000 o blant a phobl ifanc yng Nghymru yn taflu rhywfaint o oleuni ar eu profiadau o bandemig y coronafeirws a'u hymatebion, eu gobeithion a'u pryderon ar gyfer y dyfodol (Erthygl 12, Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn). | Dim angen lliniaru. |

| | | | |
|---|---|---|---|
| Aelwydydd incwm isel | Yn ôl Arolwg Cenedlaethol Cymru 2018/19, hoffai 21% o'r ymatebwyr gael gwyliau yn bell o'u cartref (am o leiaf wythnos heb aros â pherthnasau) ond nid ydynt yn gallu fforddio hynny. Mae hyn yn debygol o fod yn waeth oherwydd cyfyngiadau ariannol ar yr adeg hon. Gall atyniadau ac ymweliadau dydd fod yn ddewis arall i rai. | | Bydd atyniadau lleol a/neu atyniadau di-dâl yn fwy hygyrch i aelwydydd incwm isel nad ydynt yn gallu teithio'n bell o'u cartref o bosibl.<br><br>Mae canllawiau Llywodraeth Cymru ar ailagor cyrchfannau a lleoliadau diwylliannol a threftadaeth yn cynghori gwneud darpariaeth fel bod pobl heb fynediad at y Rhyngrwyd yn gallu archebu lle. |

*Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn*

Mae agor atyniadau awyr agored yn cefnogi'r gofyniad bod gan bob plentyn a pherson ifanc hawl i ymlacio, chwarae ac ymuno mewn ystod eang o weithgareddau. Mae atyniadau awyr agored yn rhan o'r profiadau a chyfleusterau a ddarperir i deuluoedd, a fydd yn sicrhau bod modd sicrhau cymaint o ganlyniadau â phosibl i blant a phobl ifanc.

*Y Gymraeg*

Mae oddeutu 150,000 o bobl yn cael eu cyflogi'n uniongyrchol yn yr economi ymwelwyr – tua 12% o'r gweithlu. Mae'r economi yn hanfodol i greu'r amodau cymdeithasol lle gall siaradwyr Cymraeg aros mewn cymunedau Cymraeg, neu ddychwelyd i'r cymunedau hynny. Mae llawer o ardaloedd sy'n Gymraeg yn bennaf yn dibynnu'n drwm ar dwristiaeth am incwm a chyflogaeth. Mae canran uchel o fusnesau twristiaeth mewn ardaloedd Cymraeg – er enghraifft mae dros draean y busnesau llety i dwristiaid wedi'u lleoli mewn awdurdodau lleol lle mae dros 40% o'r boblogaeth yn siarad Cymraeg fel iaith gyntaf.

Bydd cymunedau Cymraeg eu hiaith yn cael budd o'r ffaith bod atyniadau i dwristiaid yn cael ailddechrau gweithredu, oherwydd bydd yn helpu i greu a diogelu swyddi, ac mae'n bosibl y bydd hynny'n annog siaradwyr Cymraeg i aros a gweithio yno, a chynnal hyfywedd yr iaith yn sgil hynny.

Mae Canllawiau “Lleoliadau Diwylliant a Threftadaeth: canllawiau ar gyfer dychwelyd yn raddol” Llywodraeth Cymru yn cynghori sefydliadau i ystyried sut byddent yn parhau i gydymffurfio â dyletswyddau iaith Gymraeg wrth weithredu unrhyw newidiadau i’ch gweithgareddau/gwasanaeth.

**iv.** Theatrau a Neuaddau Cyngerdd

<u>EFFEITHIAU AR LESIANT</u>

Ceir ar ddeall bod cysylltiad cryf rhwng cyfranogiad ac ymgysylltiad â diwylliant, a gwell llesiant meddyliol a chorfforol. M**ae data diweddar o Arolwg Cenedlaethol Cymru (2018/2019)[24] yn datgelu bod cyfranogiad a phresenoldeb mewn digwyddiadau celfyddydol yng Nghymru yn dal yn uchel, gyda 80% o’r oedolion a gafodd eu cyfweld wedi cymryd rhan yn y celfyddydau, a 73% wedi bod mewn digwyddiad celfyddydol yn ystod y 12 mis diwethaf. Rydym hefyd yn gwybod bod yr ymgysylltiad hwn yn aml yn lleol, sy’n pwysleisio’r rhan bwysig mae’r celfyddydau’n ei chwarae mewn cymunedau.**

Mae’r What Works Centre for Wellbeing yn nodi tystiolaeth gref y gall celfyddydau cyfranogol, chwaraeon a gweithgareddau diwylliannol wella llesiant pan fyddant yn dod â chyfranogwyr at ei gilydd yn yr un gofod ffisegol[25]. Gall cyfyngiadau i unigolion oherwydd y cyfyngiadau symud gyfyngu ar fanteision cysylltiedig cymryd rhan gyda’n gilydd mewn celfyddydau, chwaraeon a diwylliant.

Yn ddiweddar, mae Llywodraeth Cymru wedi cynnal ymchwil a oedd yn edrych yn fanwl ar y berthynas rhwng diwylliant a llesiant.[26] Drwy ddadansoddi canlyniadau diweddaraf Arolwg Cenedlaethol Cymru, canfu’r ymchwil fod ffactorau iechyd a llesiant yn cael effaith gadarnhaol gan ddibynnu ar fynediad unigolion at y celfyddydau a diwylliant. Yn hollbwysig, canfu’r ymchwil fod presenoldeb neu gymryd rhan mewn gweithgareddau diwylliannol yn chwarae rhan drwy ragweld a fydd rhywun yn dweud bod eu llesiant yn dda. Mae’n amlwg bod y manteision sy’n deillio o’r gweithgareddau hyn wedi disgyn nad yw’r cyhoedd wedi gallu cymryd rhan mewn gweithgareddau diwylliannol.

Mae’r economi ymwelwyr yn cyfrannu at ganlyniadau iechyd a llesiant drwy gefnogi, hyrwyddo a gwella mynediad at gyfleoedd hamdden a chyfleusterau twristiaeth yn yr awyr agored ac yn cefnogi erthygl CCUHP sy’n mynnu bod gan bob plentyn a pherson ifanc hawl i ymlacio, chwarae ac ymuno mewn amrywiaeth eang o weithgareddau.

Mae effeithiau cadarnhaol ar lesiant cymdeithasol a seicolegol yn sgil darparu a defnyddio theatrau a neuaddau cyngerdd. Bydd eu hailagor yn darparu cyrchfannau i ymwelwyr ac yn helpu i feithrin ymdeimlad o ddychwelyd i ‘normalrwydd’.

---

[24] Arolwg Cenedlaethol Cymru: Dangosydd Canlyniadau

[25] https://whatworkswellbeing.org/blog/places-spaces-and-loneliness-what-matters-for-participatory-art-and-sport/?mc_cid=c975bde8f8&mc_eid=e4236b0dbe

[26] Llywodraeth Cymru:Archwilio’r Berthynas rhwng Diwylliant a Llesiant

EFFEITHIAU ECONOMAIDD

Mae pandemig y coronafeirws wedi cael effaith ddifrifol ar berfformiad economaidd, yn wahanol i unrhyw beth mae economi’r DU wedi’i weld yn yr oes fodern – mae’r sectorau Celfyddydau, adloniant a hamdden wedi cael eu taro’n arbennig o galed.

Mae’r cyfyngiadau sydd wedi cael eu rhoi ar waith i reoli Covid-19 ledled y DU wedi cael effaith anghymesur iawn ar gwmnïau yn economïau cymdeithasol, diwylliannol ac ymwelwyr y pedair gwlad. Y rheswm am hyn yw mai dyma’r meysydd o’r economi yr effeithir arnynt fwyaf o ganlyniad i fesurau sydd wedi’u cynllunio i gyfyngu ar symudiadau poblogaeth ac ymgynnull yn gymdeithasol.

Mae’r Arolwg o Ganfyddiadau ac Amodau Busnes (BICS)[27] yn rhoi cipolwg ar effeithiau’r cyfyngiadau ledled y DU ar y sector *Celfyddydau, Adloniant a Hamdden* yn gyffredinol. Mae’r don ddiweddaraf (Ton 29) yn dangos bod 63% o fusnesau ledled y DU ym maes y *Celfyddydau, Adloniant a Hamdden* wedi bod yn masnachu am y 2 wythnos diwethaf. Dyma’r trydydd ffigur isaf ar draws pob sector, gyda dim ond *Gwasanaethau Llety a Bwyd* a G*weithgareddau Gwasanaethau Eraill* â chyfran is o fusnesau’n masnachu. Yn ôl y disgwyl, dywedodd y sector hwn hefyd fod ei drosiant busnes wedi disgyn yn sylweddol. Dywedodd 40.1% o fusnesau yn y sector celfyddydau, adloniant a hamdden bod eu trosiant wedi disgyn mwy na 50% o’i gymharu â’r disgwyliadau arferol ar gyfer yr adeg hon o’r flwyddyn.

Mae’r Arolwg o Ganfyddiadau ac Amodau Busnes (BICS) yn rhoi cipolwg ar effeithiau’r cyfyngiadau ledled y DU ar y sector *Celfyddydau, Adloniant a Hamdden* yn gyffredinol. Mae’r don ddiweddaraf (Ton 29) yn dangos bod 63% o fusnesau ledled y DU ym maes y Celfyddydau, Adloniant a Hamdden wedi bod yn masnachu am y 2 wythnos diwethaf. Dyma’r trydydd ffigur isaf ar draws pob sector, gyda dim ond Gwasanaethau Llety a Bwyd a Gweithgareddau Gwasanaethau Eraill â chyfran is o fusnesau’n masnachu. Yn ôl y disgwyl, dywedodd y sector hwn hefyd fod ei drosiant busnes wedi disgyn yn sylweddol. Dywedodd 40.1% o fusnesau yn y sector celfyddydau, adloniant a hamdden bod eu trosiant wedi disgyn mwy na 50% o’i gymharu â’r disgwyliadau arferol ar gyfer yr adeg hon o’r flwyddyn.

Mae llawer o gwmnïau’n defnyddio Cynllun Cadw Swyddi drwy gyfnod y Coronafeirws (CJRS) Llywodraeth y DU i roi staff ar ffyrlo neu fathau eraill o gymorth. Mae’r CJRS yn sicrhau, petai gweithwyr yn cael eu rhoi ar ffyrlo, y bydd Llywodraeth y DU yn gwarantu 80% o’u hincwm cyflogedig arferol (gyda chyflogwyr yn cael ychwanegu at y cyflog yn ôl eu disgresiwn). Ar 28 Chwefror 2021, roedd 177,400 o swyddi yng Nghymru ar ffyrlo o dan y CJRS. Mae’r nifer sy’n manteisio ar y cynllun yn 14% – ychydig yn is na’r gyfradd ar draws y DU, sef 15%[28]. Mae pryderon y gallai diffyg eglurder ynghylch llacio’r cyfyngiadau arwain at ddileu swyddi wrth i gwmnïau orfod ysgwyddo’r cyfrifoldeb ariannol am eu cyflogres ar yr un pryd ag wynebu gostyngiadau sylweddol yn eu refeniw. Roedd y data’n dangos mai’r sector *Celfyddydau, Adloniant, Hamdden a Gwasanaethau Eraill* oedd â’r cyfraddau ail a thrydedd uchaf sef 57% a 42% yn y drefn honno.

[27] https://www.ons.gov.uk/economy/economicoutputandproductivity/output/datasets/businessinsightsandimpactontheukeconomy

**28** Ystadegau’r Cynllun Cadw Swyddi drwy gyfnod y Coronafeirws: Mawrth 2021

Bydd ailagor theatrau a neuaddau cyngerdd yn arwain at fanteision economaidd, ond mewn termau cymharol bydd y rhain yn weddol fach, yn enwedig wrth ystyried y cyfyngiadau ar niferoedd cwsmeriaid.

Ceir tystiolaeth sy'n awgrymu bod y galw ymysg defnyddwyr yn codi cyn y disgwyliad y bydd y cyfyngiadau'n cael eu llacio. Mae tua dwy ran o dair (65%) o fusnesau'n derbyn archebion ymlaen llaw, gan wybod nad oes dyddiad wedi'i gadarnhau eto i'w sector ailagor. Mae'r archebion hyn yn fwyaf cyffredin yn y sector hunanddarpar – mae'r rhan fwyaf (78%) yn derbyn archebion[29]. Fodd bynnag, mae nifer yr archebion ymlaen llaw ar gyfer eleni yn is o lawer na'r arfer ar hyn o bryd.

Mewn arolwg diweddar gan Ipsos Mori[30] o oedolion y DU, nodwyd y byddai tua hanner yr ymatebwyr yn fodlon ymweld ag arddangosfa dan do (51%) a mynd i far a bwyty (50%). Mae defnyddio toiledau cyhoeddus a thrafnidiaeth yn parhau i hollti barn. Byddai bron i 4 o bob 10 yn teimlo'n gyfforddus yn defnyddio'r cyfleusterau cyhoeddus hyn (39% a 37% yn y drefn honno), a byddai 45% a 42% yn anghyfforddus yn gwneud hynny. Mae sinemâu, theatrau, campfeydd, pyllau nofio a chanolfannau hamdden dan do hefyd yn hollti barn. Byddai ychydig o dan 4 o bob 10 (38%) yn teimlo'n gyfforddus yn mynd i sinemâu a theatrau fel roedden nhw'n ei wneud cyn i'r pandemig daro, ni fyddai 42%.

## EFFEITHIAU AMGYLCHEDDOL

Er bod Llywodraeth Cymru yn parhau i hyrwyddo teithio llesol fel dewis yn lle mathau eraill o deithio yn ystod pandemig y coronafeirws a thu hwnt, mae'n debygol y bydd agor y sector yn ehangach yn ehangu'r rhesymau i aelodau'r cyhoedd deithio mewn cerbyd preifat (yn enwedig felly oherwydd cyfyngiadau ar gapasiti trafnidiaeth gyhoeddus effeithiol).

Er nad oes rhagolygon ar gael ynglŷn â'r effaith ganlyniadol ar ansawdd aer, disgwylir y bydd yn cael effaith negyddol o'i chymharu â'r misoedd diwethaf, lle credwyd bod ansawdd yr aer wedi gwella. Am y rheswm hwn, mae swyddogion yr Amgylchedd a Materion Gwledig yn monitro'r effeithiau ar ansawdd yr aer sydd wedi codi ers cyflwyno'r cyfyngiadau symud. Comisiynwyd ymgynghorwyr allanol i ddadansoddi'r effeithiau a bydd y gwaith hwn yn llywio polisi'r dyfodol gyda golwg ar gynnal gwelliannau i ansawdd aer ar gyfer y dyfodol, cyn belled ag y bo modd.

## EFFEITHIAU AR GYDRADDOLDEB

Mae asesiad o'r effeithiau yn ôl nodweddion gwarchodedig wedi'i nodi isod. Dylai cynyddu'r amrywiaeth o weithgareddau hamdden sydd ar gael i unigolion eu gwneud gael effaith gadarnhaol ar draws yr holl grwpiau gwarchodedig.

[29] Baromedr Busnes Twristiaeth Cymru – Adroddiad Ton 6 – Mawrth 18 2021

[30] https://www.ipsos.com/ipsos-mori/en-uk/number-people-completely-following-covid-19-restrictions-falls-especially-among-55-75-year-olds

| *Grŵp neu nodwedd warchodedig* | *Beth yw effeithiau cadarnhaol neu negyddol y cynnig?* | *Rhesymau dros eich penderfyniad (gan gynnwys tystiolaeth)* | *Sut byddwch yn lliniaru'r effeithiau?* |
|---|---|---|---|
| *Oedran (meddyliwch am wahanol grwpiau oedran)* | **Cadarnhaol:** Bydd ailagor theatrau a neuaddau cyngerdd yn cynnig amrywiaeth eang o gyfleoedd i bobl o bob oed gael mynediad at y cyfleusterau hyn. | Mae'r dystiolaeth a nodir uchod ar lesiant yn tynnu sylw at y dystiolaeth sy'n ymwneud â'r penderfyniad hwn. | Mae Llywodraeth Cymru wedi mabwysiadu dull cydweithredol o ddatblygu canllawiau ar ailagor sectorau/gwasanaethau/cyfleusterau, a hynny gyda rhanddeiliaid a diwydiannau. Felly, mae canllawiau cynhwysfawr ar roi'r mesurau ar waith yn ddiogel ar gael i'r meysydd hynny lle mae'r cyfyngiadau wedi'u llacio, a byddant yn cael eu paratoi fel y bo'n briodol i safleoedd eraill wrth i baratoadau gael eu gwneud ar gyfer eu hailagor. |
| *Anabledd (meddyliwch am wahanol fathau o anabledd)* | **Cadarnhaol:** Mae data Arolwg Ymwelwyr Cymru 2019 yn dangos bod 13% o'r grwpiau ymwelwyr dydd yn y DU yn 2019 yn cynnwys rhywun ag anabledd: Roedd gan 6% nam symudedd, roedd gan 5% salwch hirdymor, roedd gan 3% nam ar y clyw, roedd gan 2% anawsterau dysgu ac roedd gan 1% nam ar y golwg. Mae hyn yn debyg i'r nifer ymysg poblogaeth y DU (amcangyfrifir mai 12% yw'r ffigur). | Ystyrir bod caniatáu rhagor o gyfleoedd i gymryd rhan mewn gweithgareddau diwylliannol yn rhywbeth cadarnhaol i bawb; oherwydd bydd ailagor theatrau a neuaddau cyngerdd yn cynyddu'r cyfleoedd ar gyfer rhyngweithio cymdeithasol diogel, gan leihau nifer y bobl sy'n unig ac yn teimlo'n ynysig; a hyrwyddo gwell llesiant meddyliol. | Amh |
| *Ailbennu rhywedd (y weithred o drawsnewid a phobl drawsryweddol)* | Heb ganfod effaith wahaniaethol. | Ystyrir bod caniatáu rhagor o gyfleoedd i gymryd rhan mewn gweithgareddau diwylliannol yn rhywbeth | Amh |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | cadarnhaol i bawb; oherwydd bydd ailagor theatrau a neuaddau cyngerdd yn cynyddu'r cyfleoedd ar gyfer rhyngweithio cymdeithasol diogel, gan leihau nifer y bobl sy’n unig ac yn teimlo’n ynysig; a hyrwyddo gwell llesiant meddyliol. | |
| *Beichiogrwydd a mamolaeth* | **Cadarnhaol:** Bydd ailagor rhagor o fusnesau, fel atyniadau dan do i dwristiaid, hefyd yn darparu amrywiaeth ehangach o weithgareddau y bydd mamau/gofalwyr yn gallu eu mwynhau gyda phlant ifanc o bosibl. | Ystyrir bod caniatáu rhagor o gyfleoedd i gymryd rhan mewn gweithgareddau diwylliannol yn rhywbeth cadarnhaol i bawb; oherwydd bydd ailagor theatrau a neuaddau cyngerdd yn cynyddu'r cyfleoedd ar gyfer rhyngweithio cymdeithasol diogel, gan leihau nifer y bobl sy’n unig ac yn teimlo’n ynysig; a hyrwyddo gwell llesiant meddyliol. | Fel uchod. |
| *Hil (yn cynnwys gwahanol leiafrifoedd ethnig, sipsiwn a theithwyr a mudwyr, ceiswyr lloches a ffoaduriaid)* | Heb ganfod effeithiau gwahaniaethol. | Ystyrir bod caniatáu rhagor o gyfleoedd i gymryd rhan mewn gweithgareddau diwylliannol yn rhywbeth cadarnhaol i bawb; oherwydd bydd ailagor theatrau a neuaddau cyngerdd yn cynyddu'r | Amh |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | cyfleoedd ar gyfer rhyngweithio cymdeithasol diogel, gan leihau nifer y bobl sy'n unig ac yn teimlo'n ynysig; a hyrwyddo gwell llesiant meddyliol. | |
| *Crefydd, cred a diffyg cred* | Heb ganfod effeithiau gwahaniaethol. | Ystyrir bod caniatáu rhagor o gyfleoedd i gymryd rhan mewn gweithgareddau diwylliannol yn rhywbeth cadarnhaol i bawb; oherwydd bydd ailagor theatrau a neuaddau cyngerdd yn cynyddu'r cyfleoedd ar gyfer rhyngweithio cymdeithasol diogel, gan leihau nifer y bobl sy'n unig ac yn teimlo'n ynysig; a hyrwyddo gwell llesiant meddyliol. | Amh |
| *Rhyw / Rhywedd* | Heb ganfod effeithiau gwahaniaethol. | Ystyrir bod caniatáu rhagor o gyfleoedd i gymryd rhan mewn gweithgareddau diwylliannol yn rhywbeth cadarnhaol i bawb; oherwydd bydd ailagor theatrau a neuaddau cyngerdd yn cynyddu'r cyfleoedd ar gyfer rhyngweithio cymdeithasol diogel, gan leihau nifer y bobl sy'n unig ac yn teimlo'n | Amh |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | ynysig; a hyrwyddo gwell llesiant meddyliol. | |
| *Cyfeiriadedd rhywiol (lesbiaidd, hoyw a deurywiol)* | Heb ganfod effaith wahaniaethol. | Ystyrir bod caniatáu rhagor o gyfleoedd i gymryd rhan mewn gweithgareddau diwylliannol yn rhywbeth cadarnhaol i bawb; oherwydd bydd ailagor theatrau a neuaddau cyngerdd yn cynyddu'r cyfleoedd ar gyfer rhyngweithio cymdeithasol diogel, gan leihau nifer y bobl sy'n unig ac yn teimlo'n ynysig; a hyrwyddo gwell llesiant meddyliol. | Amh |
| *Priodas a phartneriaeth sifil* | Heb ganfod effaith wahaniaethol | Ystyrir bod caniatáu rhagor o gyfleoedd i gymryd rhan mewn gweithgareddau diwylliannol yn rhywbeth cadarnhaol i bawb; oherwydd bydd ailagor theatrau a neuaddau cyngerdd yn cynyddu'r cyfleoedd ar gyfer rhyngweithio cymdeithasol diogel, gan leihau nifer y bobl sy'n unig ac yn teimlo'n ynysig; a hyrwyddo gwell llesiant meddyliol. | Amh |
| *Plant a phobl ifanc hyd at 18 oed* | **Cadarnhaol:** Dylai'r llacio ddarparu rhagor o | Data gwyliau o Arolwg Atyniadau Cymru 2018. | Fel uchod. |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | gyfleoedd i gymryd rhan mewn amrywiaeth o wahanol weithgareddau ac i ryngweithio’n gymdeithasol.<br><br>Mae gan Gymru gyfran uwch o’r teithiau gwyliau sy’n cael eu gwneud ym Mhrydain gyda phlant yn y parti, gan gyrraedd 13% yn 2018 o’i gymharu â chyfran o 10% o wyliau heb blant yn y parti. Mae gan 41% o’r teithiau gwyliau dros nos a wneir gan drigolion Prydain yng Nghymru blant yn eu parti gyda 2.6 miliwn taith yn 2018, bydd nifer o’r rhain yn wyliau gan deuluoedd sy’n byw yng Nghymru. | | |
| Aelwydydd incwm isel | Heb ganfod effaith wahaniaethol. | Ystyrir bod caniatáu rhagor o gyfleoedd i gymryd rhan mewn gweithgareddau diwylliannol yn rhywbeth cadarnhaol i bawb; oherwydd bydd ailagor theatrau a neuaddau cyngerdd yn cynyddu'r cyfleoedd ar gyfer rhyngweithio cymdeithasol diogel, gan leihau nifer y bobl sy’n | Amh |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | unig ac yn teimlo'n ynysig; a hyrwyddo gwell llesiant meddyliol. | |

*Hawliau Dynol a Chonfensiwn y Cenhedloedd Unedig*

Prif bwrpas y cyfyngiadau yw diogelu'r hawl i fywyd a rhaid ystyried unrhyw newidiadau yn y cyd-destun hwn. Mae'r newidiadau a gynigir yn gwneud cyfraniad at yr hawl i fyw bywyd yn breifat heb ymyrraeth gan y llywodraeth, drwy gael gwared ar gyfyngiadau a allai amharu ar fywyd preifat a theuluol unigolion.

*Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn*

Ystyriwyd y confensiwn yn yr asesiad hwn. Gallai'r cyfyngiadau ar theatrau a neuaddau cyngerdd wrthdaro'n bennaf â'r Erthygl ganlynol:

- **Erthygl 31** – Mae gan blant yr hawl i ymlacio a chwarae ac ymuno mewn ystod eang o weithgareddau.

Byddai llacio cyfyngiadau cysylltiedig yn galluogi Llywodraeth Cymru i fodloni ei hymrwymiadau dan yr erthygl hon yn benodol. Mae theatrau a neuaddau cyngerdd yn rhan boblogaidd o amser hamdden ar gyfer gwyliau teuluol.

*Y Gymraeg*

Nid oes tystiolaeth bod y cynigion i ganiatáu i safleoedd diwylliannol a thwristiaeth fel theatrau a neuaddau cyngerdd agor yn cael unrhyw effeithiau negyddol amlwg ar nod Llywodraeth Cymru i gynyddu nifer y siaradwyr Cymraeg, hyrwyddo'r defnydd o'r Gymraeg, a chreu amodau ffafriol ar gyfer y Gymraeg, fel y nodir yn **Cymraeg 2050: Miliwn o siaradwyr Cymraeg**. Mae theatrau a neuaddau cyngerdd yn chwarae rhan drwy ddarparu cyfleoedd i'w defnyddwyr fwynhau cynnwys Cymraeg, gan gynnwys plant a dysgwyr.

v. Amgueddfeydd ac Orielau.

<u>EFFEITHIAU AR LESIANT</u>

Bydd plant ac oedolion fel ei gilydd yn elwa o fwy o fynediad at wasanaethau amgueddfeydd. Mae amgueddfeydd yn asedau cymunedol gwerthfawr ac mae sicrhau eu bod ar gael yn darparu manteision iechyd corfforol a meddyliol pwysig.

Bydd ailagor amgueddfeydd yn cyfrannu'n uniongyrchol neu'n anuniongyrchol at lesiant gan gael effeithiau cadarnhaol ar gyfoethogi diwylliannol a chymdeithasol ac ar iechyd.

Drwy ymweld ag amgueddfa leol yng Nghymru, mae teimladau o lesiant yn codi 14%-28% (Mesurau Llesiant Amgueddfeydd UCL). Mae amgueddfeydd yn darparu amrywiaeth o weithgareddau i helpu pobl i reoli eu hiechyd a'u llesiant meddyliol eu

hunain. Maent yn cynnig amrywiaeth o weithgareddau creadigol a chymdeithasol, cyfleoedd gwirfoddoli a rhaglenni sy'n deall dementia sy'n ymgysylltu ac yn cysylltu ag unigolion a chymunedau, yn mynd i'r afael ag unigrwydd ac yn gwella llesiant.

## EFFEITHIAU ECONOMAIDD

Mae'r sector amgueddfeydd yng Nghymru yn cynnwys amgueddfeydd annibynnol, lleol a chenedlaethol. Mae'r cyfan, i raddau mwy neu lai, yn dibynnu ar gynhyrchu incwm i ariannu gwasanaethau. Amcangyfrifwyd yn geidwadol bod y sector amgueddfeydd wedi dod ag o leiaf £80m i economi Cymru yn 2014. Mae siopau sy'n agos at amgueddfeydd yn elwa o'r agosrwydd hwn o ran mwy o ymweliadau a defnydd, ac mae amgueddfeydd yn stocio eu siopau ac yn gwerthu arddangosfeydd gyda chyflenwyr, artistiaid a chrefftwyr lleol.

Amcangyfrifodd Ffederasiwn Amgueddfeydd ac Orielau Celf Cymru fod y sector amgueddfeydd annibynnol wedi colli £820,000 o incwm a'r sector amgueddfeydd awdurdodau lleol wedi colli £800,000 yn ystod chwarter cyntaf y cyfyngiadau symud cyntaf yn unig.

Felly, bydd manteision economaidd i amgueddfeydd allu ailagor, i'w sefydliadau eu hunain ac i'r economi ehangach.

Efallai y bydd goblygiadau o ran adnoddau i amgueddfeydd wrth iddynt adolygu eu hasesiadau risg ac effaith a'r staff a'r offer sydd eu hangen i ailagor. I rai, bydd hyn yn golygu na fydd yn ariannol ymarferol ailagor gyda'r gostyngiadau a ddisgwylir yn nifer yr ymwelwyr.

## EFFEITHIAU AMGYLCHEDDOL

Er bod Llywodraeth Cymru yn parhau i hyrwyddo teithio llesol fel dewis yn lle mathau eraill o deithio yn ystod pandemig y coronafeirws a thu hwnt, mae'n debygol y bydd agor y sector yn ehangach yn ehangu'r rhesymau i aelodau'r cyhoedd deithio mewn cerbyd preifat (yn enwedig felly oherwydd cyfyngiadau ar gapasiti trafnidiaeth gyhoeddus effeithiol). Mae data symudedd yn awgrymu er bod teithio wedi gostwng yn sylweddol pan gyflwynwyd y cyfyngiadau symud, eu bod wedi cynyddu'n raddol wrth i'r cyfyngiadau symud gael eu llacio, gan gynnwys teithio ar gyfer adwerthu a hamdden (er eu bod yn dal i fod o dan eu lefelau cyn y cyfyngiadau symud ar gyfer y rhan fwyaf o fetrigau).

Er nad oes rhagolygon ar gael ynglŷn â'r effaith ganlyniadol ar ansawdd aer, disgwylir y bydd yn cael effaith negyddol o'i chymharu â'r misoedd diwethaf, lle credwyd bod ansawdd yr aer wedi gwella. Am y rheswm hwn, mae swyddogion yr Amgylchedd a Materion Gwledig yn monitro'r effeithiau ar ansawdd yr aer sydd wedi codi ers cyflwyno'r cyfyngiadau symud. Comisiynwyd ymgynghorwyr allanol i ddadansoddi'r effeithiau a bydd y gwaith hwn yn llywio polisi'r dyfodol gyda golwg ar gynnal gwelliannau i ansawdd aer ar gyfer y dyfodol, cyn belled ag y bo modd.

## EFFEITHIAU AR GYDRADDOLDEB

Mae asesiad o'r effeithiau yn ôl nodweddion gwarchodedig wedi'i nodi isod. Mae'r

mesurau llacio arfaethedig wedi cael eu nodi fel rhai a fydd yn cael effeithiau cadarnhaol posibl ar unigolion hŷn a phlant, gan gynnwys yn benodol y rheini o gefndiroedd economaidd-gymdeithasol is.

| ***Grŵp neu nodwedd warchodedig*** | ***Beth yw effeithiau cadarnhaol neu negyddol y cynnig?*** | ***Rhesymau dros eich penderfyniad (gan gynnwys tystiolaeth)*** | ***Sut byddwch yn lliniaru'r effeithiau?*** |
|---|---|---|---|
| *Oedran (meddyliwch am wahanol grwpiau oedran)* | **Cadarnhaol:** Bydd ailagor amgueddfeydd ac orielau yn cynnig amrywiaeth eang o gyfleoedd i bobl o bob oed gael mynediad at wasanaethau a chasgliadau amgueddfeydd. | Mae'r dystiolaeth a nodir uchod ar lesiant yn tynnu sylw at y dystiolaeth sy'n ymwneud â'r penderfyniad hwn. | Mae Llywodraeth Cymru wedi mabwysiadu dull cydweithredol o ddatblygu canllawiau ar ailagor y sector llyfrgelloedd a gwasanaethau archifau gan weithio gyda Ffederasiwn Amgueddfeydd ac Orielau Celf Cymru ac Amgueddfa Genedlaethol Cymru Felly, mae canllawiau cynhwysfawr wedi cael eu paratoi i gefnogi ailagor amgueddfeydd ac orielau'n ddiogel. |
| *Anabledd (meddyliwch am wahanol fathau o anabledd)* | **Cadarnhaol**: mae gan lawer o amgueddfeydd arddangosfeydd hygyrch a fformatau ychwanegol i sicrhau mynediad at ymweliadau a chasgliadau ar gyfer y rheini sydd ag anableddau gwahanol. | Ystyrir bod caniatáu rhagor o gyfleoedd i gymryd rhan mewn gweithgareddau diwylliannol yn rhywbeth cadarnhaol i bawb; oherwydd bydd ailagor amgueddfeydd yn cynyddu'r cyfleoedd ar gyfer rhyngweithio cymdeithasol diogel, gan leihau nifer y bobl sy'n unig ac yn teimlo'n ynysig; a hyrwyddo gwell llesiant meddyliol. | Fel uchod |
| *Ailbennu rhywedd (y weithred o drawsnewid a* | Ddim yn disgwyl effaith wahaniaethol. | Ystyrir bod caniatáu rhagor o gyfleoedd i gymryd rhan mewn gweithgareddau diwylliannol yn | Amh |

| | | | |
|---|---|---|---|
| *phobl drawsryweddol)* | | rhywbeth cadarnhaol i bawb; oherwydd bydd ailagor amgueddfeydd yn cynyddu'r cyfleoedd ar gyfer rhyngweithio cymdeithasol diogel, gan leihau nifer y bobl sy’n unig ac yn teimlo’n ynysig; a hyrwyddo gwell llesiant meddyliol. | |
| *Beichiogrwydd a mamolaeth* | Ddim yn disgwyl effaith wahaniaethol. | Ystyrir bod caniatáu rhagor o gyfleoedd i gymryd rhan mewn gweithgareddau diwylliannol yn rhywbeth cadarnhaol i bawb; oherwydd bydd ailagor amgueddfeydd yn cynyddu'r cyfleoedd ar gyfer rhyngweithio cymdeithasol diogel, gan leihau nifer y bobl sy’n unig ac yn teimlo’n ynysig; a hyrwyddo gwell llesiant meddyliol. | Amh |
| *Hil (yn cynnwys gwahanol leiafrifoedd ethnig, sipsiwn a theithwyr a mudwyr, ceiswyr lloches a ffoaduriaid)* | **Cadarnhaol**: mae llawer o amgueddfeydd yn gweithio gyda chymunedau amrywiol lleol i ddarparu gweithgareddau a dehongli hanes amrywiol yn eu harddangosfeydd. Bydd gallu cael gafael ar y gwasanaethau hyn yn fuddiol i’r grwpiau cymunedol penodol hynny ac i’r gymuned ehangach. | Ystyrir bod caniatáu rhagor o gyfleoedd i gymryd rhan mewn gweithgareddau diwylliannol yn rhywbeth cadarnhaol i bawb; oherwydd bydd ailagor amgueddfeydd yn cynyddu'r cyfleoedd ar gyfer rhyngweithio cymdeithasol diogel, gan leihau nifer y bobl sy’n unig ac yn teimlo’n ynysig; a hyrwyddo gwell llesiant meddyliol. | Amh |
| *Crefydd, cred a diffyg cred* | Ddim yn disgwyl effaith wahaniaethol. | Ystyrir bod caniatáu rhagor o gyfleoedd i gymryd rhan mewn gweithgareddau | Amh |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | diwylliannol yn rhywbeth cadarnhaol i bawb; oherwydd bydd ailagor amgueddfeydd yn cynyddu'r cyfleoedd ar gyfer rhyngweithio cymdeithasol diogel, gan leihau nifer y bobl sy'n unig ac yn teimlo'n ynysig; a hyrwyddo gwell llesiant meddyliol. | |
| *Rhyw / Rhywedd* | Ddim yn disgwyl effaith wahaniaethol. | Ystyrir bod caniatáu rhagor o gyfleoedd i gymryd rhan mewn gweithgareddau diwylliannol yn rhywbeth cadarnhaol i bawb; oherwydd bydd ailagor amgueddfeydd yn cynyddu'r cyfleoedd ar gyfer rhyngweithio cymdeithasol diogel, gan leihau nifer y bobl sy'n unig ac yn teimlo'n ynysig; a hyrwyddo gwell llesiant meddyliol. | Amh |
| *Cyfeiriadedd rhywiol (lesbiaidd, hoyw a deurywiol)* | Ddim yn disgwyl effaith wahaniaethol. | Ystyrir bod caniatáu rhagor o gyfleoedd i gymryd rhan mewn gweithgareddau diwylliannol yn rhywbeth cadarnhaol i bawb; oherwydd bydd ailagor amgueddfeydd yn cynyddu'r cyfleoedd ar gyfer rhyngweithio cymdeithasol diogel, gan leihau nifer y bobl sy'n unig ac yn teimlo'n ynysig; a hyrwyddo gwell llesiant meddyliol. | Amh |
| *Priodas a phartneriaeth sifil* | Ddim yn disgwyl effaith wahaniaethol. | Amh | Amh |

| | | | |
|---|---|---|---|
| *Plant a phobl ifanc hyd at 18 oed* | **Cadarnhaol:** Bydd y llacio arfaethedig yn cael effaith gadarnhaol ar blant a phobl ifanc a fydd yn gallu elwa o ailagor gwasanaethau amgueddfeydd.<br><br>Bydd y llacio'n helpu plant a phobl ifanc o ran cael gafael ar weithgareddau sy'n addas i deuluoedd, mynediad am ddim i amgueddfeydd ac i'r rheini sy'n dymuno cymryd rhan mewn prosiectau hanes/treftadaeth cymunedol ac ati. | Ystyrir bod caniatáu rhagor o gyfleoedd i gymryd rhan mewn gweithgareddau diwylliannol yn rhywbeth cadarnhaol i bawb; oherwydd bydd ailagor amgueddfeydd yn cynyddu'r cyfleoedd ar gyfer rhyngweithio cymdeithasol diogel, gan leihau nifer y bobl sy'n unig ac yn teimlo'n ynysig; a hyrwyddo gwell llesiant meddyliol. | |
| *Aelwydydd incwm isel* | **Cadarnhaol:** Mae llawer o amgueddfeydd lleol wrth galon cymunedau ledled Cymru ac maen nhw'n arbennig o bwysig, gan eu bod yn cynnig mynediad a gweithgareddau am ddim i bobl mewn aelwydydd incwm isel. | Ystyrir bod caniatáu rhagor o gyfleoedd i gymryd rhan mewn gweithgareddau diwylliannol yn rhywbeth cadarnhaol i bawb; oherwydd bydd ailagor amgueddfeydd yn cynyddu'r cyfleoedd ar gyfer rhyngweithio cymdeithasol diogel, gan leihau nifer y bobl sy'n unig ac yn teimlo'n ynysig; a hyrwyddo gwell llesiant meddyliol. | Amh |

*Hawliau Dynol a Chonfensiwn y Cenhedloedd Unedig*

Prif bwrpas y cyfyngiadau yw diogelu'r hawl i fywyd a rhaid ystyried unrhyw newidiadau yn y cyd-destun hwn. Mae'r newidiadau a gynigir yn gwneud cyfraniad at yr hawl i fyw bywyd yn breifat heb ymyrraeth gan y llywodraeth, drwy gael gwared ar gyfyngiadau a allai amharu ar fywyd preifat a theuluol unigolion.

*Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn (CCUHP)*

Ystyriwyd y confensiwn yn yr asesiad hwn. Gallai'r cyfyngiadau ar amgueddfeydd wrthdaro'n bennaf â'r Erthyglau canlynol:

- **Erthygl 15** – Mae gan blant yr hawl i gydgyfarfod ac ymuno gyda grwpiau a sefydliadau, cyn belled â bod hynny ddim yn cadw pobl eraill rhag mwynhau eu hawliau.
- **Erthygl 29** - Dylai addysg helpu i ddatblygu personoliaeth, talentau a galluoedd meddyliol a chorfforol pob plentyn i'r eithaf. Dylai ddatblygu parch plant at eu hawliau eu hunain a hawliau pobl eraill, at eu rhieni, at eu diwylliant eu hunain ac at ddiwylliannau eraill, ac at yr amgylchedd naturiol
- **Erthygl 31** – Mae gan blant yr hawl i ymlacio a chwarae ac ymuno mewn ystod eang o weithgareddau.

Gallai'r mesurau llacio arfaethedig felly ein galluogi i gyflawni ein rhwymedigaethau o dan Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn yn well.

*Y Gymraeg*

Nid oes tystiolaeth bod gan y mesurau a ddisgrifir uchod unrhyw effeithiau negyddol amlwg ar nod Llywodraeth Cymru i gynyddu nifer y siaradwyr Cymraeg, hyrwyddo'r defnydd o'r Gymraeg, a chreu amodau ffafriol ar gyfer y Gymraeg, fel y nodir yn **Cymraeg 2050: Miliwn o siaradwyr Cymraeg**. Mae amgueddfeydd yn chwarae rhan hanfodol yn y gwaith o ddarparu cyfleoedd i'w defnyddwyr, gan gynnwys plant a dysgwyr, gael gafael ar ddeunyddiau Cymraeg, cymryd rhan mewn gweithgareddau Cymraeg ac archwilio treftadaeth yr iaith.

vi. Sinemâu

EFFEITHIAU AR LESIANT

Bydd plant ac oedolion fel ei gilydd yn elwa o fwy o fynediad at sinemâu. Mae sinemâu yn asedau diwylliannol a chymunedol gwerthfawr ac mae sicrhau eu bod ar gael yn darparu manteision iechyd meddwl pwysig.

Yn ddiweddar, mae Llywodraeth Cymru wedi cynnal ymchwil a oedd yn edrych yn fanwl ar y berthynas rhwng diwylliant a llesiant.[31] Drwy ddadansoddi canlyniadau diweddaraf Arolwg Cenedlaethol Cymru, canfu'r ymchwil fod ffactorau iechyd a llesiant yn cael effaith gadarnhaol gan ddibynnu ar fynediad unigolion at y celfyddydau a diwylliant. Yn hollbwysig, canfu'r ymchwil fod presenoldeb neu gymryd rhan mewn gweithgareddau diwylliannol yn chwarae rhan drwy ragweld a fydd rhywun yn dweud bod eu llesiant yn dda. Mae'n amlwg bod y manteision sy'n deillio o'r gweithgareddau hyn wedi disgyn gan nad yw'r cyhoedd wedi gallu cymryd rhan mewn gweithgareddau diwylliannol.

Bydd ailagor sinemâu yn cyfrannu'n uniongyrchol neu'n anuniongyrchol at lesiant gan gael effeithiau cadarnhaol ar gyfoethogi diwylliannol a chymdeithasol ac ar iechyd. Mae sinemâu yn rhan o'r economi ymwelwyr sy'n cyfrannu at ganlyniadau iechyd a llesiant drwy gefnogi, hyrwyddo a gwella mynediad at gyfleoedd hamdden a chyfleusterau twristiaeth ac yn cefnogi erthygl CCUHP sy'n mynnu bod gan bob plentyn a pherson ifanc hawl i ymlacio, chwarae ac ymuno mewn amrywiaeth eang o weithgareddau.

---

[31] Llywodraeth Cymru:Archwilio'r Berthynas rhwng Diwylliant a Llesiant

Mae effeithiau cadarnhaol ar lesiant cymdeithasol a seicolegol yn sgil darparu a defnyddio sinemâu. Bydd eu hailagor yn darparu cyrchfannau i ymwelwyr ac yn helpu i feithrin ymdeimlad o ddychwelyd i 'normalrwydd'.

## EFFEITHIAU ECONOMAIDD

Mae pandemig y coronafeirws wedi cael effaith ddifrifol ar berfformiad economaidd, yn wahanol i unrhyw beth mae economi'r DU wedi'i weld yn yr oes fodern – mae'r sectorau Celfyddydau, adloniant a hamdden wedi cael eu taro'n arbennig o galed.

Mae'r cyfyngiadau sydd wedi cael eu rhoi ar waith i reoli Covid-19 ledled y DU wedi cael effaith anghymesur iawn ar gwmnïau yn economïau cymdeithasol, diwylliannol ac ymwelwyr y pedair gwlad. Y rheswm am hyn yw mai dyma'r meysydd o'r economi yr effeithir arnynt fwyaf o ganlyniad i fesurau sydd wedi'u cynllunio i gyfyngu ar symudiadau poblogaeth ac ymgynnull yn gymdeithasol.

Mae sinemâu yng Nghymru wedi cael eu cefnogi gan Gronfa Adferiad Diwylliannol Llywodraeth Cymru ac yn parhau i wneud hynny. Efallai y bydd y rheini mewn canolfannau celfyddydol mwy hefyd wedi cael cymorth gan y Gronfa Adferiad Diwylliannol a ddarperir drwy Gyngor Celfyddydau Cymru.

Mae'r Arolwg o Ganfyddiadau ac Amodau Busnes (BICS)[32] yn rhoi cipolwg ar effeithiau'r cyfyngiadau ledled y DU ar y sector *Celfyddydau, Adloniant a Hamdden* yn gyffredinol. Mae'r don ddiweddaraf (Ton 29) yn dangos bod 63% o fusnesau ledled y DU ym maes y *Celfyddydau, Adloniant a Hamdden* wedi bod yn masnachu am y 2 wythnos diwethaf. Dyma'r trydydd ffigur isaf ar draws pob sector, gyda dim ond *Gwasanaethau Llety a Bwyd* a G*weithgareddau Gwasanaethau Eraill* â chyfran is o fusnesau'n masnachu. Yn ôl y disgwyl, dywedodd y sector hwn hefyd fod ei drosiant busnes wedi disgyn yn sylweddol. Dywedodd 40.1% o fusnesau yn y sector celfyddydau, adloniant a hamdden bod eu trosiant wedi disgyn mwy na 50% o'i gymharu â'r disgwyliadau arferol ar gyfer yr adeg hon o'r flwyddyn.

Mae llawer o gwmnïau'n defnyddio Cynllun Cadw Swyddi drwy gyfnod y Coronafeirws (CJRS) Llywodraeth y DU i roi staff ar ffyrlo neu fathau eraill o gymorth. Mae'r CJRS yn sicrhau, petai gweithwyr yn cael eu rhoi ar ffyrlo, y bydd Llywodraeth y DU yn gwarantu 80% o'u hincwm cyflogedig arferol (gyda chyflogwyr yn cael ychwanegu at y cyflog yn ôl eu disgresiwn). Ar 28 Chwefror 2021, roedd 177,400 o swyddi yng Nghymru ar ffyrlo o dan y CJRS.[33] Mae pryderon y gallai diffyg eglurder ynghylch llacio'r cyfyngiadau arwain at ddileu swyddi wrth i gwmnïau orfod ysgwyddo'r cyfrifoldeb ariannol am eu cyflogres ar yr un pryd ag wynebu gostyngiadau sylweddol yn eu refeniw. Roedd y data'n dangos mai'r sector *Celfyddydau, Adloniant, Hamdden a Gwasanaethau Eraill* oedd â'r cyfraddau ail a thrydedd uchaf sef 57% a 42% yn y drefn honno.

[32] https://www.ons.gov.uk/economy/economicoutputandproductivity/output/datasets/businessinsightsandimpactontheukeconomy

[33] https://www.gov.uk/government/statistics/coronavirus-job-retention-scheme-statistics-6-may-2021/coronavirus-job-retention-scheme-statistics-6-may-2021

Bydd ailagor sinemâu yn arwain at fanteision economaidd, ond mewn termau cymharol bydd y rhain yn weddol fach, yn enwedig wrth ystyried y cyfyngiadau ar niferoedd cwsmeriaid.

Ceir tystiolaeth sy'n awgrymu bod y galw ymysg defnyddwyr yn codi cyn y disgwyliad y bydd y cyfyngiadau'n cael eu llacio. Mewn arolwg diweddar gan Ipsos Mori[34] o oedolion yn y DU, nodwyd y byddai ychydig o dan 4 o bob 10 (38%) yn teimlo'n gyfforddus yn mynd i sinemâu a theatrau fel roedden nhw'n ei wneud cyn i'r pandemig daro ac na fyddai 42% yn gwneud hynny. Dangosodd Arolwg Sinema yn Gyntaf ar gyfer Cymdeithas Sinema'r DU[35] fod 59% o'r ymatebwyr yn dweud mai'r sinema oedd y gweithgaredd y tu allan i'r cartref roedden nhw'n gweld ei fethu fwyaf.

## EFFEITHIAU AMGYLCHEDDOL

Er bod Llywodraeth Cymru yn parhau i hyrwyddo teithio llesol fel dewis yn lle mathau eraill o deithio yn ystod pandemig y coronafeirws a thu hwnt, mae'n debygol y bydd agor y sector yn ehangach yn ehangu'r rhesymau i aelodau'r cyhoedd deithio mewn cerbyd preifat (yn enwedig felly oherwydd cyfyngiadau ar gapasiti trafnidiaeth gyhoeddus effeithiol). Mae data symudedd yn awgrymu er bod teithio wedi gostwng yn sylweddol pan gyflwynwyd y cyfyngiadau symud, eu bod wedi cynyddu'n raddol wrth i'r cyfyngiadau symud gael eu llacio, gan gynnwys teithio ar gyfer adwerthu a hamdden (er eu bod yn dal i fod o dan eu lefelau cyn y cyfyngiadau symud ar gyfer y rhan fwyaf o fetrigau).

Er nad oes rhagolygon ar gael ynglŷn â'r effaith ganlyniadol ar ansawdd aer, disgwylir y bydd yn cael effaith negyddol o'i chymharu â'r misoedd diwethaf, lle credwyd bod ansawdd yr aer wedi gwella. Am y rheswm hwn, mae swyddogion yr Amgylchedd a Materion Gwledig yn monitro'r effeithiau ar ansawdd yr aer sydd wedi codi ers cyflwyno'r cyfyngiadau symud. Comisiynwyd ymgynghorwyr allanol i ddadansoddi'r effeithiau a bydd y gwaith hwn yn llywio polisi'r dyfodol gyda golwg ar gynnal gwelliannau i ansawdd aer ar gyfer y dyfodol, cyn belled ag y bo modd.

## EFFEITHIAU AR GYDRADDOLDEB

Mae asesiad o'r effeithiau yn ôl nodweddion gwarchodedig wedi'i nodi isod. Mae'r mesurau llacio arfaethedig wedi cael eu nodi fel rhai a fydd yn cael effeithiau cadarnhaol posibl ar unigolion hŷn a phlant, gan gynnwys yn benodol y rheini o gefndiroedd economaidd-gymdeithasol is.

| ***Grŵp neu nodwedd warchodedig*** | ***Beth yw effeithiau cadarnhaol neu negyddol y cynnig?*** | ***Rhesymau dros eich penderfyniad (gan gynnwys tystiolaeth)*** | ***Sut byddwch yn lliniaru'r effeithiau?*** |
|---|---|---|---|
| *Oedran (meddyliwch am wahanol* | **Cadarnhaol:** Bydd ailagor sinemâu yn cynnig amrywiaeth | Mae'r dystiolaeth a nodir uchod ar lesiant yn tynnu sylw at y | Mae Llywodraeth Cymru wedi mabwysiadu dull |

[34] https://www.ipsos.com/ipsos-mori/en-uk/number-people-completely-following-covid-19-restrictions-falls-especially-among-55-75-year-olds
[35] UK audiences eager to return to the big screen, survey confirms | UK Cinema Association (cinemauk.org.uk)

| | | | |
|---|---|---|---|
| *grwpiau oedran)* | eang o gyfleoedd i bobl o bob oed gael mynediad at sinemâu. | dystiolaeth sy'n ymwneud â'r penderfyniad hwn. | cydweithredol o ddatblygu canllawiau ar ailagor sinemâu, gan weithio gyda Chymdeithas Sinema'r DU a Ffilm Cymru.<br><br>Mae canllawiau cynhwysfawr wedi cael eu paratoi i gefnogi ailagor sinemâu'n ddiogel. |
| *Anabledd (meddyliwch am wahanol fathau o anabledd)* | **Cadarnhaol:** Mae gan lawer o sinemâu rampiau / seddi wedi'u haddasu ac maent yn cyflwyno ffilmiau mewn amrywiaeth o fformatau neu gyda chyfarpar wedi'i addasu ar gael i sicrhau bod pobl ag anableddau gwahanol yn gallu eu mwynhau. | Ystyrir bod caniatáu rhagor o gyfleoedd i gymryd rhan mewn gweithgareddau diwylliannol yn rhywbeth cadarnhaol i bawb; oherwydd bydd ailagor sinemâu yn cynyddu'r cyfleoedd ar gyfer rhyngweithio cymdeithasol diogel, gan leihau nifer y bobl sy'n unig ac yn teimlo'n ynysig; a hyrwyddo gwell llesiant meddyliol. | Fel uchod |
| *Ailbennu rhywedd (y weithred o drawsnewid a phobl drawsryweddol)* | Ddim yn disgwyl effaith wahaniaethol. | Ystyrir bod caniatáu rhagor o gyfleoedd i gymryd rhan mewn gweithgareddau diwylliannol yn rhywbeth cadarnhaol i bawb; oherwydd bydd ailagor sinemâu yn cynyddu'r cyfleoedd ar gyfer rhyngweithio cymdeithasol diogel, gan leihau nifer y bobl sy'n unig ac yn teimlo'n ynysig; a hyrwyddo gwell llesiant meddyliol. | Amh |
| *Beichiogrwydd a mamolaeth* | Ddim yn disgwyl effaith wahaniaethol. | Ystyrir bod caniatáu rhagor o gyfleoedd i gymryd rhan mewn gweithgareddau diwylliannol yn | Amh |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | rhywbeth cadarnhaol i bawb; oherwydd bydd ailagor sinemâu yn cynyddu'r cyfleoedd ar gyfer rhyngweithio cymdeithasol diogel, gan leihau nifer y bobl sy'n unig ac yn teimlo'n ynysig; a hyrwyddo gwell llesiant meddyliol. | |
| *Hil (yn cynnwys gwahanol leiafrifoedd ethnig, sipsiwn a theithwyr a mudwyr, ceiswyr lloches a ffoaduriaid)* | Ddim yn disgwyl effaith wahaniaethol. | Ystyrir bod caniatáu rhagor o gyfleoedd i gymryd rhan mewn gweithgareddau diwylliannol yn rhywbeth cadarnhaol i bawb; oherwydd bydd ailagor sinemâu yn cynyddu'r cyfleoedd ar gyfer rhyngweithio cymdeithasol diogel, gan leihau nifer y bobl sy'n unig ac yn teimlo'n ynysig; a hyrwyddo gwell llesiant meddyliol. | Amh |
| *Crefydd, cred a diffyg cred* | Ddim yn disgwyl effaith wahaniaethol. | Ystyrir bod caniatáu rhagor o gyfleoedd i gymryd rhan mewn gweithgareddau diwylliannol yn rhywbeth cadarnhaol i bawb; oherwydd bydd ailagor sinemâu yn cynyddu'r cyfleoedd ar gyfer rhyngweithio cymdeithasol diogel, gan leihau nifer y bobl sy'n unig ac yn teimlo'n ynysig; a hyrwyddo gwell llesiant meddyliol. | Amh |
| *Rhyw / Rhywedd* | Ddim yn disgwyl effaith wahaniaethol. | Ystyrir bod caniatáu rhagor o gyfleoedd i gymryd rhan mewn gweithgareddau diwylliannol yn rhywbeth cadarnhaol i bawb; oherwydd bydd | Amh |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | ailagor sinemâu yn cynyddu'r cyfleoedd ar gyfer rhyngweithio cymdeithasol diogel, gan leihau nifer y bobl sy’n unig ac yn teimlo’n ynysig; a hyrwyddo gwell llesiant meddyliol. | |
| *Cyfeiriadedd rhywiol (lesbiaidd, hoyw a deurywiol)* | Ddim yn disgwyl effaith wahaniaethol. | Ystyrir bod caniatáu rhagor o gyfleoedd i gymryd rhan mewn gweithgareddau diwylliannol yn rhywbeth cadarnhaol i bawb; oherwydd bydd ailagor sinemâu yn cynyddu'r cyfleoedd ar gyfer rhyngweithio cymdeithasol diogel, gan leihau nifer y bobl sy’n unig ac yn teimlo’n ynysig; a hyrwyddo gwell llesiant meddyliol. | Amh |
| *Priodas a phartneriaeth sifil* | Ddim yn disgwyl effaith wahaniaethol. | Amh | Amh |
| *Plant a phobl ifanc hyd at 18 oed* | **Cadarnhaol:** Bydd y llacio arfaethedig yn cael effaith gadarnhaol ar blant a phobl ifanc a fydd yn gallu elwa o ailagor sinemâu.<br><br>Bydd y llacio o fudd i blant a phobl ifanc oherwydd bydd modd cymryd rhan mewn gweithgareddau i’r teulu a bydd ystod ehangach o weithgareddau gwahanol ar gael. | Ystyrir bod caniatáu rhagor o gyfleoedd i gymryd rhan mewn gweithgareddau diwylliannol yn rhywbeth cadarnhaol i bawb; oherwydd bydd ailagor sinemâu yn cynyddu'r cyfleoedd ar gyfer rhyngweithio cymdeithasol diogel, gan leihau nifer y bobl sy’n unig ac yn teimlo’n ynysig; a hyrwyddo gwell llesiant meddyliol. | |
| *Aelwydydd incwm isel* | Ddim yn disgwyl effaith wahaniaethol. | Ystyrir bod caniatáu rhagor o gyfleoedd i gymryd rhan mewn gweithgareddau diwylliannol yn | Amh |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | rhywbeth cadarnhaol i bawb; oherwydd bydd ailagor sinemâu yn cynyddu'r cyfleoedd ar gyfer rhyngweithio cymdeithasol diogel, gan leihau nifer y bobl sy'n unig ac yn teimlo'n ynysig; a hyrwyddo gwell llesiant meddyliol. | |

*Hawliau Dynol a Chonfensiwn y Cenhedloedd Unedig*

Prif bwrpas y cyfyngiadau yw diogelu'r hawl i fywyd a rhaid ystyried unrhyw newidiadau yn y cyd-destun hwn. Mae'r newidiadau a gynigir yn gwneud cyfraniad at yr hawl i fyw bywyd yn breifat heb ymyrraeth gan y llywodraeth, drwy gael gwared ar gyfyngiadau a allai amharu ar fywyd preifat a theuluol unigolion.

*Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn (CCUHP)*

Ystyriwyd y confensiwn yn yr asesiad hwn. Gallai'r cyfyngiadau ar sinemâu wrthdaro'n bennaf â'r Erthyglau canlynol:

- **Erthygl 15** – Mae gan blant yr hawl i gydgyfarfod ac ymuno gyda grwpiau a sefydliadau, cyn belled â bod hynny ddim yn cadw pobl eraill rhag mwynhau eu hawliau.
- **Erthygl 31** – Mae gan blant yr hawl i ymlacio a chwarae ac ymuno mewn ystod eang o weithgareddau.

Gallai'r mesurau llacio arfaethedig felly ein galluogi i gyflawni ein rhwymedigaethau o dan Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn yn well.

*Y Gymraeg*

Nid yw'n hysbys bod gan y mesurau a ddisgrifir uchod unrhyw effeithiau negyddol amlwg ar nod Llywodraeth Cymru i gynyddu nifer y siaradwyr Cymraeg, hyrwyddo'r defnydd o'r Gymraeg, a chreu amodau ffafriol ar gyfer y Gymraeg, fel y nodir yn **Cymraeg 2050: Miliwn o siaradwyr Cymraeg**. Mae sinemâu yn chwarae rhan drwy ddarparu cyfleoedd i'w defnyddwyr fwynhau cynnwys Cymraeg, gan gynnwys plant a dysgwyr.

### vii. Llety sy'n Weddill

<u>EFFEITHIAU AR LESIANT</u>

Canfu *Arolwg Ymgysylltu â'r Cyhoedd* Iechyd Cyhoeddus Cymru a gynhaliwyd ddechrau mis Mawrth fod 27 y cant o bobl wedi dweud eu bod wedi poeni 'llawer' am eu hiechyd meddwl a'u llesiant yn ystod yr wythnos flaenorol. Dywedodd bron i'w

hanner (45%) fod eu ffitrwydd corfforol yn waeth na'r adeg hon y llynedd a dywedodd tri o bob pump fod eu cysylltiadau cymdeithasol wedi gwaethygu.[36] Fe wnaeth yr elusen iechyd meddwl Mind gyhoeddi tystiolaeth o arolwg ym mis Mehefin y llynedd, a oedd yn awgrymu bod iechyd meddwl dros hanner yr oedolion a'r bobl ifanc yn y DU wedi dirywio ers i'r cyfyngiadau symud fod mewn grym, gyda'r effaith waethaf ar bobl ifanc.[37] Canfu ymchwil mwy diweddar gan yr elusen iechyd meddwl, y Sefydliad Iechyd Meddwl, fod dros hanner oedolion y DU yn pryderu neu'n poeni oherwydd y pandemig.  Canfu'r ymchwil fod hyn yn fwy cyffredin ymysg menywod, myfyrwyr a'r rheini a oedd yn ddi-waith; a bod pobl iau a rhieni sengl yn dweud eu bod yn llawer mwy unig.[38] Mae wedi'i sefydlu bod diweithdra'n gysylltiedig â lefelau llesiant isel ac iechyd sy'n dirywio. Bydd mwy a mwy o bobl sy'n ymuno â'r farchnad lafur yn teimlo effeithiau niweidiol os byddant yn ymuno â'r farchnad lafur yn ystod dirywiad economaidd. Mae tystiolaeth academaidd y gall profiadau niweidiol yn y farchnad lafur mewn dirwasgiad gael effeithiau gydol oes ar yr economi, iechyd, llesiant a hyd yn oed disgwyliad oes pobl ifanc.[39]

## EFFEITHIAU ECONOMAIDD

### *Effeithiau economaidd cyffredinol*

Yn 2018, roedd yr holl sector *Llety* yn cyfrannu £820 miliwn o werth ychwanegol gros (GVA) i economi Cymru, a oedd gyfwerth â 1.3% o gyfanswm y gwerth ychwanegol gros ar gyfer yr un flwyddyn. Yn 2019, roedd y sector yn cyflogi tua 32,000 o bobl ledled Cymru[40] ac roedd 1,855 o ganghennau o fusnesau llety ar draws Cymru.

Mae'r Swyddfa Ystadegau Gwladol wedi adrodd bod Cynnyrch Domestig Gros (GDP) blynyddol y DU wedi disgyn 9.9% yn 2020, a bod y sector *Llety a Gwasanaethau Bwyd* wedi dangos twf negyddol o 44%.  Roedd effaith arbennig ar y sector *Llety*, a welodd ostyngiad o 73% mewn allbwn rhwng mis Chwefror a mis Rhagfyr 2020[41]. Mae hosteli Cymru wedi gweld niferoedd cyson a chryf yn defnyddio eu gwelyau dros y blynyddoedd diwethaf ac roedd 54% o'u gwelyau wedi cael eu defnyddio yn 2019, a dim ond 10% o ddefnydd gwelyau ar gyfartaledd yn 2020.  Yn yr un modd, roedd y nifer a oedd yn defnyddio lleiniau ar gyfer carafanau teithiol yn 43% yn 2019 ond dim ond 32% yn 2020.[42]

Mae Arolwg y Swyddfa Ystadegau Gwladol o Ganfyddiadau ac Amodau Busnes (BICS) yn rhoi cipolwg ar effeithiau'r cyfyngiadau ledled y DU ar y sector *Gweithgareddau Llety a Gwasanaethau Bwyd* yn gyffredinol.[43] Ochr yn ochr â'r *Celfyddydau, Adloniant a Hamdden,* mae'n dal yn un o'r meysydd yn economi'r DU sydd wedi cael ei daro waethaf drwy gydol y pandemig iechyd a'r cyfyngiadau cysylltiedig. Roedd 8 o bob 10 busnes yn y DU yn masnachu ddiwedd Ebrill 2021 ond dim ond 6 o bob 10 busnes *Llety a Gweithgareddau Gwasanaethau Bwyd* oedd yn masnachu yn ystod y cyfnod hwn, er bod nifer y busnesau a oedd ar agor ym

---

[36] Arolwg Ymgysylltu â'r Cyhoedd ar Iechyd a Llesiant yn ystod Mesurau'r Coronafeirws: Wythnos 48 (1-7 Mawrth 2021), Iechyd Cyhoeddus Cymru

[37] Mind (2020) The mental health emergency: How has the coronavirus pandemic impacted our mental health?

[38] Y Sefydliad Iechyd Meddwl: Coronavirus: mental health and the pandemic Wave 9: Rhagfyr 2020

[39] Darllenwch: https://voxeu.org/article/impact-covid-19-chronic-health-uk

[40] Defnyddir data BRES ar gyfer ffigurau cyflogaeth.  Data 2019 ar gyfer grŵp SIC 55: Llety

[41] ONS GDP a gyhoeddwyd 12 Chwefror 2021.

[42] Croeso Cymru Adroddiad meddiannaeth llety 2019

[43] Yn berthnasol i 25 Ionawr - 7 Chwefror 2021.

maes y Celfyddydau, Adloniant a Hamdden wedi codi i fod yn debyg i gyfartaledd y DU.[44] Yn ôl y disgwyl, mae'r ddau sector hyn yn parhau i weld y gostyngiadau mwyaf mewn trosiant busnes, gyda 6 o bob 10 busnes *Llety a Gwasanaethau bwyd* a dwy ran o dair o fusnesau *Celfyddydau, Adloniant a Hamdden* yn dweud bod eu trosiant wedi gostwng o'r lefelau arferol, o'i gymharu â thraean o fusnesau'r DU yn gyffredinol.[45]

Ac ystyried y cymhlethdodau sy'n gysylltiedig â theithio rhyngwladol, yn ogystal â phryderon defnyddwyr, mae VisitBritain wedi rhagweld y bydd ymweliadau a fydd yn dod mewn i'r DU yn disgyn 76% o'r lefelau a welwyd yn 2019 ac yn rhagweld y bydd 71% yn llai o ymweliadau i mewn i'r DU yn 2021, er dylid bod yn ofalus gyda'r ffigur hwn ac ystyried yr anawsterau o ran modelu'r effeithiau'n gywir.[46] Serch hynny, mae'r rhagolygon ar gyfer twristiaeth ryngwladol yn negyddol a gallai hyn gael effaith sylweddol ar y sector llety yr haf hwn pe na bai'r galw domestig yn gwneud iawn am hynny.

*Cyflogaeth ac Effaith ar Incwm*

Mae llawer o gwmnïau'n defnyddio Cynllun Cadw Swyddi drwy gyfnod y Coronafeirws (CJRS) Llywodraeth y DU i roi staff ar ffyrlo neu fathau eraill o gymorth. Mae'r CJRS yn sicrhau, petai gweithwyr yn cael eu rhoi ar ffyrlo, y bydd Llywodraeth y DU yn gwarantu 80% o'u hincwm cyflogedig arferol (gyda chyflogwyr yn cael ychwanegu at y cyflog yn ôl eu disgresiwn). Yn ôl arolwg BICS yng nghanol mis Ebrill, amcangyfrifwyd bod ychydig o dan 4 o bob 10 o weithwyr yn y sector *Gweithgareddau Llety a Gwasanaethau Bwyd* ar ffyrlo yn y DU, yn yr un modd â 4 o bob 10 o'r rheini sy'n gweithio yn y *Celfyddydau, Adloniant a Hamdden*, y ddau sector oedd â'r lefelau uchaf o ffyrlo.[47]

I lawer o bobl yng Nghymru, mae pandemig Covid-19 wedi cael effaith niweidiol ar incwm eu haelwyd. Mae tystiolaeth o arolygon Iechyd Cyhoeddus Cymru yn awgrymu bod 20% o bobl mewn sefyllfa waeth yn ariannol o ganlyniad i'r coronafeirws, ac mae 16% yn dweud eu bod mewn sefyllfa well. Roedd 16% yn teimlo bod eu rhagolygon gwaith neu eu cyflogaeth yn waeth ac roedd 41% wedi poeni am eu sefyllfa ariannol yn ystod yr wythnos flaenorol [48]. Mae pryderon wedi cael eu codi ynglŷn ag effaith niweidiol y coronafeirws ar gyllid aelwydydd tlotach, yn enwedig rheini lle mae eu haelodau'n gweithio mewn sectorau sydd wedi cau. Mae'r aelwydydd hyn yn llai tebygol o allu lleihau eu gwariant yn sylweddol o ganlyniad i'r coronafeirws nag aelwydydd mwy cyfoethog, sy'n golygu eu bod yn fwy tebygol o fod yn ariannu eu gwariant yn ystod y cyfyngiadau symud drwy ddefnyddio cynilion (a all fod yn gyfyngedig) a'u bod felly'n cronni dyledion.[49] Nid yw effaith y cyfyngiadau

---

[44] Roedd canran y busnesau yn y DU a ddywedodd eu bod yn parhau i fasnachu yn 61% ar gyfer y sector Llety a Gwasanaethau Bwyd, 78% ar gyfer y sector Celfyddydau, Adloniant a Hamdden, ac 83% oedd cyfartaledd pob sector yn y DU.

[45] 61% oedd canran y busnesau yn y DU a ddywedodd eu bod wedi colli trosiant yn y sector Llety a Gwasanaethau Bwyd, 67% yn y sector Celfyddydau, Adloniant a Hamdden, a 34% oedd y cyfartaledd ar gyfer pob sector yn y DU.

[46] VisitBritain (2020) rhagolwg twristiaeth 2020 [ar-lein]. https://www.visitbritain.org/2020-tourism-forecast

[47] Yn berthnasol i 5-18 Ebrill 2021

[48] Iechyd Cyhoeddus Cymru (2021) Arolwg Ymgysylltu â'r Cyhoedd ar Iechyd a Llesiant yn ystod Mesurau'r Coronafeirws: Wythnos 48; 1af – 7fed Mawrth 2021.

[49] Bangham & Leslie (2020) Rainy days: An audit of household wealth and the initial effects of the coronavirus crisis on saving and spending in Great Britain. Resolution Foundation.

wedi cael ei theimlo'n gyfartal, gyda gweithwyr ar gyflogau is yn fwy tebygol o fod wedi cael eu rhoi ar ffyrlo neu golli eu swydd. Roedd aelwydydd incwm isel hefyd yn fwy tebygol o ddweud eu bod yn poeni mwy am sefyllfa ariannol yr aelwyd.[50]

*Hyder defnyddwyr*

Os caniateir i'r sector llety ailagor, mae'n anodd pennu'r effaith a gaiff yr argyfwng ar y galw wrth symud ymlaen o'i gymharu â'r lefelau a welwyd cyn yr argyfwng a'r haf diwethaf. Mae tystiolaeth yr arolwg yn awgrymu, er bod unigolion yng Nghymru yn llawer mwy amharod i deithio dramor ar hyn o bryd, bod tystiolaeth anecdotaidd sy'n awgrymu bod cyhoeddiad y Prif Weinidog y gallai teithiau rhyngwladol ddechrau o 17 Mai yn Lloegr wedi arwain at gynnydd mawr yn y nifer sy'n archebu gwyliau tramor.[51] Yn 2020 roedd 30% o oedolion y DU (24% o drigolion Cymru) wedi mynd ar wyliau dros nos yn y DU rhwng mis Gorffennaf a mis Medi.[52] Mewn arolwg diweddar, roedd 15% o oedolion y DU, a'r un gyfran o drigolion Cymru, yn bwriadu mynd ar daith dros nos yn y DU y gwanwyn hwn. Roedd 34% o oedolion y DU, er mai dim ond 30% o drigolion Cymru, yn bwriadu mynd ar daith haf. O blith y rheini a oedd yn bwriadu mynd ar daith yn ystod y gwanwyn a'r haf, dywedodd 9% eu bod yn debygol o ymweld â Chymru. Dim ond 4% o oedolion y DU a ddywedodd eu bod wedi cymryd gwyliau tramor ers dechrau'r cyfyngiadau symud cyntaf.[53] Er mwyn cymharu, mewn cyfres o arolygon yr haf diwethaf, dywedodd tua 6 o bob 10 o drigolion Cymru y byddent fel arfer yn mynd ar wyliau tramor yn yr haf a dywedodd oddeutu hanner eu bod fel arfer yn cymryd gwyliau yn y DU.[54] Mae'r pandemig wedi arwain at ostyngiad sylweddol mewn ymwelwyr rhyngwladol.

Mae data arolwg diweddar yn dangos bod llety gwersylla neu garafanau'n gyson boblogaidd ymysg y rheini sy'n bwriadu mynd ar daith yn y DU, gan gyrraedd yr 2il safle yn ystod y gwanwyn a'r 3ydd yn ystod yr haf, gyda rhentu llety hunanddarpar yn cyrraedd y safle uchaf yn y naill dymor a'r llall. Er mai archebu a chanslo'n hyblyg yw'r peth pwysicaf ar gyfer dewis llety, mae hylendid, glendid a mesurau cadw pellter yn bwysig iawn. Mae oedolion dros 45 oed yn y DU sydd wedi cael o leiaf un dos o frechlyn Covid-19 yn dangos bod ganddynt ychydig yn fwy o fwriad i gymryd taith dros nos yn ystod yr haf wrth gymharu â'r rheini sydd heb gael eu brechu. Mae hyn yn awgrymu y gallai'r bwriad i fynd ar daith gynyddu wrth i fwy o'r boblogaeth gael brechlyn.[55]

## EFFEITHIAU AMGYLCHEDDOL

Mae'r sector llety yn rhan o'r economi sy'n golygu ei bod yn rhaid i weithwyr a defnyddwyr deithio i safleoedd penodol i weithredu. Bydd agor y sector bron yn siŵr o gynyddu'r rhesymau pam fod aelodau o'r cyhoedd yn teithio mewn cerbyd preifat (yn enwedig os rhoddir cyfyngiadau i gapasiti trafnidiaeth gyhoeddus effeithiol) gan y bydd pobl fel arfer yn teithio'n bell i ddefnyddio llety, sy'n golygu bod teithio llesol yn anymarferol. Er nad oes rhagolygon ar gael ynglŷn â'r effaith ganlyniadol ar ansawdd

[50] Caught in a Covid Trap: 15 Tachwedd 2020 Resolution Foundation
[51] Holiday bookings surge in UK after lockdown exit plans revealed, The Guardian, 23 Chwefror 2021
[52] Croeso Cymru Proffil Tracio Defnyddwyr Covid Cymru 20 Hydref 2020
[53] Traciwr Defnyddwyr y DU Ton 29: 19-23 Ebrill
[54] Iechyd Cyhoeddus Cymru (2020) Arolwg Ymgysylltu â'r Cyhoedd ar Iechyd a Llesiant yn ystod Mesurau'r Coronafeirws: Wythnosau 11, 14, 16; Mehefin-Gorffennaf 2020.
[55] Traciwr Defnyddwyr y DU Ton 29: 19-23 Ebrill

aer, disgwylir y bydd yn cael effaith negyddol wrth gymharu â'r misoedd diwethaf, lle credwyd bod ansawdd yr aer wedi gwella. Am y rheswm hwn, mae swyddogion yr Amgylchedd a Materion Gwledig yn monitro'r effeithiau ar ansawdd yr aer sydd wedi codi ers cyflwyno'r cyfyngiadau symud. Comisiynwyd ymgynghorwyr allanol i ddadansoddi'r effeithiau a bydd y gwaith hwn yn llywio polisi'r dyfodol gyda golwg ar gynnal gwelliannau i ansawdd aer ar gyfer y dyfodol, cyn belled ag y bo modd.

## ASESIADAU O'R EFFAITH

*Effeithiau ar gydraddoldeb*

Mae asesiad o'r effeithiau yn ôl nodweddion gwarchodedig wedi'i nodi isod. Mae'r cyfyngiadau ar y sector hwn wedi cael effaith anghyfartal ar draws cymdeithas, gan gael effaith arbennig o drwm ar bobl ifanc a menywod.

| ***Grŵp neu nodwedd warchodedig*** | ***Beth yw effeithiau cadarnhaol neu negyddol y cynnig?*** | ***Rhesymau dros eich penderfyniad (gan gynnwys tystiolaeth)*** | ***Sut byddwch yn lliniaru'r effeithiau?*** |
|---|---|---|---|
| *Oedran (meddyliwch am wahanol grwpiau oedran)* | **Cadarnhaol:** Gallai agor y sector arwain at ganlyniadau buddiol o ran dosbarthiad i bobl ifanc pe bai hynny'n helpu i gadw swyddi a chynyddu incwm aelwydydd ymysg y rheini sy'n gweithio yn y sector (hy drwy gael eu cyflog llawn wrth i'w cyfnod ar ffyrlo ddod i ben).<br><br>Negyddol: Mae'r risgiau o ganlyniadau iechyd negyddol yn sgil dal Covid-19 yn cynyddu ag oedran. Dylid ystyried hyn mewn cysylltiad â staff a chwsmeriaid y sector. | Mae dadansoddiad Llywodraeth Cymru o ddata'r Arolwg Blynyddol o'r Boblogaeth yn 2018 yn dangos bod 29% o weithwyr mewn twristiaeth yng Nghymru o dan 25 oed. | Mae'r mesurau lliniaru y gofynnwyd i'r sector eu rhoi ar waith, a'r gofyniad iddynt ailagor yn gyfyngedig i ddechrau, wedi'u hanelu at leihau'r risg o drosglwyddiad i bob grŵp; cwsmeriaid a staff.<br><br>Dylid defnyddio'r asesiadau risg y mae gofyn i fusnesau eu cynnal i nodi risgiau anghymesur i grwpiau penodol. |

| ***Grŵp neu nodwedd warchodedig*** | ***Beth yw effeithiau cadarnhaol neu negyddol y cynnig?*** | ***Rhesymau dros eich penderfyniad (gan gynnwys tystiolaeth)*** | ***Sut byddwch yn lliniaru'r effeithiau?*** |
|---|---|---|---|
| *Anabledd (meddyliwch am wahanol fathau o anabledd)* | Heb ganfod effeithiau gwahaniaethol penodol. | Mae dadansoddiad o ddata'r Arolwg Blynyddol o'r Boblogaeth yn 2019 yn awgrymu bod pobl anabl yn cynrychioli 11% o'r gweithwyr yn y sector llety yng Nghymru (mae'r grŵp hwn yn cynrychioli 15% o'r gweithlu ehangach). | Amh |
| *Ailbennu rhywedd (y weithred o drawsnewid a phobl drawsryweddol)* | Heb ganfod effeithiau gwahaniaethol penodol. | Amh | Amh |
| *Beichiogrwydd a mamolaeth* | **Cadarnhaol:** Bydd caniatáu defnyddio mannau gwasanaethau a rennir, fel toiledau, hefyd yn cynnwys lleoedd newid babanod. Gallai hyn ehangu'r mannau sydd ar gael i deuluoedd ifanc newid cewynnau, yn ogystal ag ystyriaethau eraill. | Amh | Amh |

| *Grŵp neu nodwedd warchodedig* | *Beth yw effeithiau cadarnhaol neu negyddol y cynnig?* | *Rhesymau dros eich penderfyniad (gan gynnwys tystiolaeth)* | *Sut byddwch yn lliniaru'r effeithiau?* |
|---|---|---|---|
| *Hil (yn cynnwys gwahanol leiafrifoedd ethnig, sipsiwn a theithwyr a mudwyr, ceiswyr lloches a ffoaduriaid)* | **Niwtral:** Mae gweithwyr y sector llety yn cynnwys cyfran gymesur o unigolion BAME, yn yr un modd â'r gweithlu ehangach.<br><br>Negyddol: Mae'n bosibl bod pobl BAME yn wynebu risg anghymesur o ganlyniadau iechyd negyddol pe baent yn dal Covid-19. Dylid ystyried hyn mewn cysylltiad â staff a chwsmeriaid y sector. | Mae dadansoddiad o ddata'r Arolwg Blynyddol o'r Boblogaeth yn 2019 yn amcangyfrif bod 5% o weithwyr y sector **llety** yng Nghymru yn bobl dduon ac Asiaidd a lleiafrifoedd ethnig (dim ond 5% o'r gweithlu yng Nghymru mae'r grŵp hwn yn ei gynrychioli). | Mae canllawiau a mesurau lliniaru sy'n cael eu hyrwyddo wedi cael eu dylunio i leihau'r risg o drosglwyddo ymysg pob grŵp, gan gynnwys cwsmeriaid a staff.<br><br>Dylid defnyddio'r asesiadau risg y mae gofyn i fusnesau eu cynnal i nodi risgiau anghymesur i grwpiau penodol. |
| *Crefydd, cred a diffyg cred* | Heb ganfod effeithiau gwahaniaethol penodol. | Amh | Amh |
| *Rhyw / Rhywedd* | **Cadarnhaol:** Gallai agor y sector arwain at ganlyniadau buddiol o ran dosbarthiad i fenywod pe bai hynny'n helpu i gadw swyddi a chynyddu incwm aelwydydd ymysg y rheini sy'n gweithio yn y sector (hy drwy gael eu cyflog llawn wrth i'w cyfnod ar ffyrlo ddod i ben). | Mae dadansoddiad o ddata'r Arolwg Blynyddol o'r Boblogaeth yn 2019 yn amcangyfrif bod 53% o weithwyr yn y sector **llety** yng Nghymru yn fenywod, a bod menywod yn cynrychioli 47% o gyfanswm y gweithlu yng Nghymru. | Heb ganfod effeithiau negyddol i'w lliniaru. |
| *Cyfeiriadedd rhywiol (lesbiaidd, hoyw a deurywiol)* | Heb ganfod effeithiau gwahaniaethol penodol. | Amh | Amh |
| *Priodas a phartneriaeth sifil* | Heb ganfod effeithiau gwahaniaethol penodol. | Amh | Amh |

| *Grŵp neu nodwedd warchodedig* | *Beth yw effeithiau cadarnhaol neu negyddol y cynnig?* | *Rhesymau dros eich penderfyniad (gan gynnwys tystiolaeth)* | *Sut byddwch yn lliniaru'r effeithiau?* |
|---|---|---|---|
| *Plant a phobl ifanc hyd at 18 oed* | Negyddol: Mae'n bosibl y bydd gan oedolion sy'n gweithio yn y sector llety gyfrifoldebau gofal plant, oherwydd bydd y sector yn agor cyn i'r ysgolion gau am wyliau'r haf (ond mae estyniad ar gael yn ôl disgresiwn yr Awdurdod Lleol). Mae'n bosibl bod y cyfyngiadau symud cyfredol wedi amharu ar fathau traddodiadol o ofal plant. | Mae dadansoddiad Llywodraeth Cymru yn awgrymu bod gan 5,600 o'r oedolion sy'n gweithio yn y sector llety blant o dan 16 oed. | Mae Llywodraeth Cymru wedi llacio'r cyfyngiadau ar y sector gofal plant gyda'r bwriad o leddfu'r pwysau ar deuluoedd lle gallai fod angen i'r oedolion ddychwelyd i safleoedd ffisegol i weithio. |
| *Aelwydydd incwm isel* | **Cadarnhaol:** Gallai agor y sector arwain at ganlyniadau buddiol o ran dosbarthiad i bobl ar incwm isel pe bai hynny'n helpu i gadw swyddi a chynyddu incwm aelwydydd ymysg y rheini sy'n gweithio yn y sector (hy drwy gael eu cyflog llawn wrth i'w cyfnod ar ffyrlo ddod i ben). | Mae data dros dro o'r Arolwg Blynyddol o Oriau ac Enillion yn darparu amcangyfrifon ar gyfer cyflog gros fesul awr a fesul wythnos, yn ôl codau Dosbarthiad Diwydiannol Safonol (SIC) 2 ddigid yng Nghymru. Ar gyfer **Llety** (cod SIC 55), y cyflog gros canolrifol yr awr oedd £8.82 – £3.37 yn is na chanolrif Cymru ar gyfer holl swyddi gweithwyr, sef £12.19. O ran cyflog gros yr wythnos yn y sector hwn, £280.30 yw'r canolrif – tua £160.50 yn is na chanolrif Cymru.<br><br>Gan ddefnyddio'r un data, amcangyfrifir bod **o leiaf** 75% o | Heb ganfod effeithiau negyddol i'w lliniaru. |

| ***Grŵp neu nodwedd warchodedig*** | ***Beth yw effeithiau cadarnhaol neu negyddol y cynnig?*** | ***Rhesymau dros eich penderfyniad (gan gynnwys tystiolaeth)*** | ***Sut byddwch yn lliniaru’r effeithiau?*** |
|---|---|---|---|
| | | weithwyr **Llety** yn cael cyflog gros is yr awr na chanolrif Cymru. | |

*Hawliau Dynol a Chonfensiwn y Cenhedloedd Unedig*

Prif bwrpas y cyfyngiadau a’r gofynion sy’n gysylltiedig â’r cyfyngiadau symud yw diogelu hawl pawb i fywyd. Mae hyn wedi arwain at gyfyngiadau ar hawliau megis ar fywyd preifat a theuluol a’r rhyddid i gynnull a chymdeithasu ar sail y gellir ei gyfiawnhau yn ymwneud ag iechyd. Mae iechyd y cyhoedd yn cael ei ddisgrifio fel rheswm derbyniol dros atal yr hawliau hyn, ar yr amod ei fod yn angenrheidiol ac yn gymesur. Er gwaethaf y cyfyngiadau parhaus ar y cyfyngiadau symud yn gyffredinol, gallai’r cynnig hwn effeithio ar y canlynol:

| ***Hawliau Dynol*** | ***Beth yw effeithiau cadarnhaol neu negyddol y cynnig?*** | ***Rhesymau dros eich penderfyniad (gan gynnwys tystiolaeth)*** | ***Sut byddwch yn lliniaru’r effeithiau negyddol?*** |
|---|---|---|---|
| *Mae Erthygl 11 o’r **Cyfamod Rhyngwladol ar Hawliau Economaidd, Cymdeithasol a Diwylliannol** yn cydnabod hawl pawb i gael safon byw ddigonol ar ei gyfer ei hun a’i deulu, gan gynnwys cartref a digon o fwyd a dillad, ac i sicrhau bod ei amodau byw yn gwella’n barhaus.* | Cadarnhaol: bydd caniatáu i’r sector llety ailagor yn golygu bod llawer o weithwyr yn y sector – a allent fod yn ennill llai na’r Isafswm Cyflog a’r Cyflog Byw Cenedlaethol oherwydd eu bod yn cael 80% o’r cyflog roeddent yn ei gael cyn yr argyfwng – yn dychwelyd i’r gwaith. | Mae data incwm ar gyfer yr Arolwg Blynyddol o Oriau ac Enillion yn dangos bod gweithwyr yn y sector hwn yn ennill llai na’r cyflog cyfartalog (canolrif) yng Nghymru a bod llawer ohonynt yn debygol o fod yn ennill llai na’r Isafswm Cyflog/Cyflog Byw Cenedlaethol oherwydd eu bod ar ffyrlo. | Does dim effeithiau negyddol penodol yn deillio o'r cynnig. |

*Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn*

Ystyriwyd y confensiwn yn yr asesiad hwn. Y brif fantais yw’r effaith gadarnhaol o fynd ar wyliau ar **Erthygl 31** (Mae gan bob plentyn hawl i ymlacio a chwarae, ac ymuno mewn amrywiaeth eang o weithgareddau). Gallai mynd ar wyliau fel rhan o

aelwyd estynedig neu gydag aelwyd arall sy'n cadw pellter cymdeithasol gefnogi hawliau o dan **Erthygl 15** (Mae gan blant yr hawl i gwrdd â'i gilydd ac ymuno â grwpiau a sefydliadau, ar yr amod nad yw hyn yn atal pobl eraill rhag mwynhau eu hawliau).

Dylai agor y sector gael effaith gadarnhaol yn gyffredinol o ran incwm rhieni:

- **Erthygl 18** – Dylai'r ddau riant rannu cyfrifoldeb dros fagu eu plant, a dylent ystyried yr hyn sydd orau i bob plentyn bob amser. Dylai llywodraethau helpu rhieni drwy ddarparu gwasanaethau i'w cefnogi, yn enwedig os yw'r ddau riant yn gweithio.

- **Erthygl 27** – Mae gan blant yr hawl i safon bywyd sy'n ddigon da i ymateb i'w hanghenion corfforol a meddyliol. Dylai'r Llywodraeth helpu rhieni na allant fforddio i ddarparu hyn

Wrth fodloni rhwymedigaethau o dan **Erthygl 12** (Mae gan blant yr hawl i ddweud beth ddylai ddigwydd yn eu barn nhw, pan fydd oedolion yn gwneud penderfyniadau sy'n effeithio arnynt, ac i'w barn gael ei hystyried) rydym wedi ystyried arolwg Coronafeirws a Fi a gafodd ei lenwi gan dros 23,700 o blant a phobl ifanc 3-18 oed yng Nghymru. O ran yr hawl i ymlacio a chwarae, soniodd nifer o blant am bethau cadarnhaol yn ymwneud â chael mwy o amser i chwarae, gan dynnu sylw at y cyfle i anghofio am y coronafeirws a mwynhau mwy o ryddid. Y ddau ateb mwyaf poblogaidd gan bobl ifanc (12-18 oed) ynghylch pa reolau aros gartref a oedd wedi effeithio fwyaf ar sut roedden nhw'n teimlo yw 'peidio â gallu treulio amser gyda ffrindiau' (72%) a 'peidio â gallu ymweld ag aelodau'r teulu' (59%). Gellid ategu'r canfyddiadau hyn yn gadarnhaol drwy gyfuniad o aelwydydd estynedig a gyflwynwyd yn ddiweddar ac ailagor llety sy'n hwyluso gwyliau.

*Y Gymraeg*

Nid yw'n hysbys bod gan y cynigion i ailagor llety unrhyw effeithiau cadarnhaol neu negyddol amlwg ar nod Llywodraeth Cymru i gynyddu nifer y siaradwyr Cymraeg, hyrwyddo'r defnydd o'r Gymraeg, a chreu amodau ffafriol ar gyfer y Gymraeg, fel y nodir yn **Cymraeg 2050: Miliwn o siaradwyr Cymraeg**.

viii. Canolfannau Chwarae Dan Do

<u>EFFEITHIAU AR LESIANT</u>

Mae arbenigwyr yn pwysleisio y dylid ystyried chwarae fel gweithgaredd hanfodol i blant.  Mae'n hanfodol i lesiant, cydnerthedd a datblygiad plant, ac mae'n ffordd bwysig o gael ymarfer corff. Mae chwarae actif yn un o'r ffyrdd hawsaf a mwyaf naturiol y gall plant o unrhyw oed gymryd rhan yn y lefelau angenrheidiol o weithgarwch corfforol a'r math mwyaf cyffredin o weithgarwch corfforol y gall plant ei wneud y tu allan i'r ysgol.

Pan gânt gyfle i chwarae, mae plant yn debygol o fod yn gorfforol egnïol drwy redeg, neidio, dawnsio, dringo, cloddio, codi, gwthio a thynnu. Mae chwarae’n gallu cefnogi llythrennedd corfforol, gyda phlant arbennig o ifanc yn datblygu galluoedd corfforol drwy chwarae.  Mae hyn yn gallu cynnwys datblygu cyhyrau, cydsymud ac ymwybyddiaeth ofodol. Mae chwarae hefyd yn cyfrannu at lesiant emosiynol, asesu risg, dychymyg a chreadigrwydd, cymdeithasu a gwytnwch.

I lawer o blant, bydd mwy o gyfleoedd yn bwysig yn dilyn y misoedd diwethaf, pan roedd y cyfyngiadau’n golygu na allent gyfarfod a rhyngweithio â ffrindiau neu deulu. Bydd plant wedi sylwi ar densiynau gartref, neu bryderon am y feirws, a bydd angen cyfleoedd arnynt i leddfu a rhyddhau’r pwysau hynny.

Bydd plant yn elwa o fwy o fynediad i ganolfannau chwarae dan do, yn enwedig dros gyfnod yr haf. Maent yn aml yn nodwedd o atyniadau ehangach i dwristiaid y mae teuluoedd yn ymweld â nhw ar wyliau, ac mae *canolfannau chwarae dan do pwrpasol* yn adnodd gwerthfawr i deuluoedd ar ddiwrnodau pan fydd y tywydd yn wael.  O ganlyniad, byddai manteision corfforol, datblygiadol a llesiant amlwg i blant a phobl ifanc o ganlyniad i fwy o gyfleoedd i fod mewn canolfannau chwarae dan do.  Mae hyn yn arbennig o wir i’r rheini sydd heb fynediad at erddi neu fannau mwy i chwarae.

## <u>EFFEITHIAU ECONOMAIDD</u>

Mae *canolfannau chwarae dan do* yn fusnesau.  Mae BALPPA yn cynrychioli 180 o ardaloedd chwarae allan o 1,100, ac yn dweud bod y sector yn cyflogi dros 30,000 o bobl ar draws y DU.  Efallai nad yw hyn yn rhoi gwir faint y gweithlu oherwydd bod *canolfannau chwarae dan do* hefyd yn gweithredu fel rhan o’r atyniad ehangach i dwristiaid neu dan do.  Nid oes dadansoddiad penodol ar lefel Cymru, ond maen nhw’n dweud bod y rhan fwyaf o *ganolfannau chwarae dan do* pwrpasol ledled Cymru yn fusnesau bach a chanolig, sy’n cael eu rhedeg fel endidau unigol.  Maen nhw’n cefnogi cadwyni cyflenwi lleol ac yn cyfrannu at yr economi leol a chenedlaethol.

Mae cymryd rhan mewn gweithgarwch corfforol yn arwain at elw hael ar fuddsoddiad o ran manteision canlyniadol i ffordd iach ac egnïol o fyw.  Mae plant yn chwarae am yr hwyl a’r pleser pur. Fodd bynnag, mae manteision sylweddol i unigolion ac i gymdeithas. Mae manteision chwarae i blant yn cynnwys gwell iechyd meddwl a chorfforol, cymdeithasu, iechyd emosiynol, creadigrwydd a mwy o wytnwch. Mae chwarae’n diogelu rhag effeithiau negyddol tlodi a bydd yn cefnogi plant i wella ar ôl y cyfyngiadau cymdeithasol sydd wedi bod ar waith dros y misoedd diwethaf.

## <u>EFFEITHIAU AMGYLCHEDDOL</u>

Mae effeithiau amgylcheddol caniatáu i blant gymryd rhan mewn chwarae dan do yn debygol o fod yn isel.  Mae *canolfannau chwarae dan do* yn tueddu i weithredu o adeiladau neu ofod pwrpasol mewn cyfleusterau mwy (er enghraifft, canolfannau siopa).  Efallai y byddwn yn gweld cynnydd bach mewn traffig wrth i bobl yrru i ddefnyddio cyfleusterau, yn enwedig ar ddiwrnodau lle nad yw’r tywydd yn addas ar gyfer chwarae yn yr awyr agored.

*Effeithiau ar gydraddoldeb*

Mae asesiad o'r effeithiau yn ôl nodweddion gwarchodedig wedi'i nodi isod. Yn gyffredinol, mae'r cynnig yn hyrwyddo cydraddoldeb gan ei fod yn dileu'r cyfyngiadau ar deithio a fydd wedi effeithio ar wahanol grwpiau mewn gwahanol ffyrdd. Mae effeithiau negyddol posibl yn ymwneud â'r risgiau o wneud addasiadau i fannau cyhoeddus nad ydynt yn ystyried anghenion gwahanol grwpiau yn llawn. Mae'r rhain yn ymwneud yn bennaf â chydraddoldeb mynediad.

| ***Grŵp neu nodwedd warchodedig*** | ***Beth yw effeithiau cadarnhaol neu negyddol y cynnig?*** | ***Rhesymau dros eich penderfyniad (gan gynnwys tystiolaeth)*** | ***Sut byddwch yn lliniaru'r effeithiau?*** |
|---|---|---|---|
| *Oedran (meddyliwch am wahanol grwpiau oedran)* | **Cadarnhaol:** Bydd ailagor rhagor o safleoedd, gan ddarparu amrywiaeth ehangach o wasanaethau ac atyniadau, yn fuddiol i bob grŵp oedran. Fodd bynnag, mae manteision penodol i blant o ganlyniad i ailagor canolfannau chwarae dan do. Mae'r rhain yn cael eu hamlinellu uchod. | Mae cyfoeth o dystiolaeth ar werth chwarae i ddatblygiad plentyn, gan gynnwys datblygiad corfforol, llythrennedd a datblygiad emosiynol.<br><br>Mae hyn yn cynnwys adroddiadau a gyhoeddwyd gan yr American Academy of Paediatrics[56] a Chymdeithas Feddygol Prydain[57]. | Mae Llywodraeth Cymru wedi mabwysiadu dull cydweithredol o ddatblygu canllawiau ar ailagor sectorau/gwasanaethau/cyfleusterau, a hynny gyda rhanddeiliaid a diwydiannau. Felly, mae canllawiau cynhwysfawr ar roi'r mesurau ar waith yn ddiogel ar gael i'r meysydd hynny lle mae'r cyfyngiadau wedi'u llacio, a byddant yn cael eu paratoi fel y bo'n briodol i safleoedd eraill wrth i baratoadau gael eu gwneud ar gyfer eu hailagor.<br><br>Mae'r canllawiau sy'n ymwneud â chanolfannau chwarae dan do wrthi'n cael eu datblygu a byddant yn tanlinellu ei bod hi'n anghyfreithlon gwahaniaethu, yn uniongyrchol neu'n anuniongyrchol, yn erbyn unrhyw un oherwydd nodwedd warchodedig. |
| *Anabledd (meddyliwch am wahanol fathau o anabledd)* | **Cadarnhaol:** Wrth i ragor o safleoedd ailagor, dylai pobl anabl elwa ar allu | Does dim ffigurau ar gael ar nifer y gweithwyr ag anableddau yn y sector chwarae dan do. Nid oes | Bydd canllawiau ar gyfer y sector chwarae dan do yn golygu bod yn rhaid i sefydliadau ystyried hawliau'r rhai â nodweddion gwarchodedig o ran cael |

[56] https://pediatrics.aappublications.org/content/119/1/182

[57] https://www.researchgate.net/publication/281283103_Preventing_childhood_obesity_BMA_June_2005

| | | | |
|---|---|---|---|
| | defnyddio amrywiaeth ehangach o wasanaethau a manteisio ar gyfleoedd eraill. Bydd hyn yn helpu i leihau nifer y bobl sy'n unig ac yn teimlo'n ynysig; yn darparu mynediad gwell at gymorth; ac yn hyrwyddo llesiant yn gyffredinol.<br><br>Mae'n rhaid i ganolfannau chwarae dan do gydymffurfio â Deddf Gwahaniaethu ar sail Anabledd 1995, i sicrhau bod pobl ag anableddau'n gallu cael mynediad i'w safleoedd. Mae cyfarpar chwarae dan do sy'n benodol ar gyfer plant ag anableddau ar gael mewn rhai lleoliadau yng Nghymru. | ychwaith unrhyw wybodaeth ar nifer yr ymweliadau â'r mannau hyn gan blant neu oedolion ag anableddau. O ganlyniad, mae'n anodd mesur yr effaith benodol.<br><br>Mae dyletswydd statudol ar awdurdodau lleol i sicrhau bod digon o gyfleoedd i blant ag anableddau chwarae yn eu hardaloedd. | mynediad i'r lleoliadau neu'r gwasanaethau.<br><br>Gallai'r enghreifftiau gynnwys:<br>• Rhoi gwybod i bobl am unrhyw newid i'r trefniadau archebu neu sut bydd y lleoliad yn helpu pobl anabl er mwyn iddynt allu parhau i ddefnyddio'r lleoliad mewn ffordd ddiogel.<br><br>• darparu gwybodaeth ychwanegol i ymwelwyr sydd â nam ar eu golwg cyn eu hymweliad o ran newidiadau i fynedfa'r adeilad neu'r safle a llwybrau newydd a mwy cymhleth i ymwelwyr eu dilyn ac, yn gyffredinol, drwy wneud yr holl wybodaeth sydd ar gael i ymwelwyr yn fwy hygyrch.<br><br>Mae'r canllawiau hefyd yn datgan bod gan gyflogwyr ddyletswyddau statudol tuag at weithwyr anabl a rhaid iddynt wneud addasiadau rhesymol i wneud yn siŵr nad ydynt dan anfantais. |
| *Ailbennu rhywedd (y weithred o drawsnewid a phobl drawsryweddol)* | Nid yw'n debygol o gael effaith. | Dim digon o ddata ar gael i gynhyrchu asesiad iawn<br><br>Wrth i ragor o adeiladau agor, dylai pobl elwa'n gyffredinol ar ragor o gyfleoedd ar gyfer rhyngweithio cymdeithasol diogel | Bydd canllawiau ar gyfer y sector chwarae dan do yn cynghori sefydliadau i feddwl am hawliau'r rheini sydd â nodweddion gwarchodedig a sut byddant yn gallu parhau i ddefnyddio'r lleoliad / gwasanaethau'n ddiogel. |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | a chyfleoedd i ddefnyddio gwasanaethau, a fydd yn helpu i leihau nifer y bobl sy'n unig ac yn teimlo'n ynysig; yn darparu rhagor o fynediad at gymorth; ac yn hyrwyddo llesiant yn gyffredinol. | |
| *Beichiogrwydd a mamolaeth* | **Cadarnhaol:** Bydd ailagor rhagor o fusnesau, fel canolfannau chwarae dan do, hefyd yn darparu amrywiaeth ehangach o weithgareddau y bydd mamau/gofalwyr yn gallu eu mwynhau gyda phlant ifanc o bosibl | Wrth i ragor o safleoedd agor, byddant yn elwa'n gyffredinol ar ragor o gyfleoedd ar gyfer rhyngweithio cymdeithasol diogel a chyfleoedd i ddefnyddio gwasanaethau, a fydd yn helpu i leihau nifer y bobl sy'n unig ac yn teimlo'n ynysig; yn darparu rhagor o fynediad at gymorth; ac yn hyrwyddo llesiant yn gyffredinol. | Bydd canllawiau ar gyfer y sector chwarae dan do yn cynghori sefydliadau i feddwl am hawliau'r rheini sydd â nodweddion gwarchodedig a sut byddant yn gallu parhau i ddefnyddio'r lleoliad / gwasanaethau'n ddiogel. |
| *Hil (yn cynnwys gwahanol leiafrifoedd ethnig, sipsiwn a theithwyr a mudwyr, ceiswyr lloches a ffoaduriaid)* | Niwtral fel ymwelwyr.<br><br>Aneglur o ran gweithwyr am nad oes manylion ar gael ynghylch y gweithlu.  Fodd bynnag, wrth i ragor o fusnesau gael yr hawl i ailagor dylent helpu i gadw swyddi a chynyddu incwm aelwydydd ymysg y rheini | Dim digon o ddata ar gael i gynhyrchu asesiad iawn<br><br>Wrth i ragor o adeiladau agor, dylai pobl elwa'n gyffredinol ar ragor o gyfleoedd ar gyfer rhyngweithio cymdeithasol diogel a chyfleoedd i ddefnyddio gwasanaethau, a fydd yn helpu i leihau nifer y bobl sy'n unig ac yn teimlo'n ynysig; yn darparu rhagor o | Rhaid cadw at negeseuon cyson a chlir i atgoffa pobl BAME o'r risgiau sy'n gysylltiedig â COVID-19.<br><br>Bydd canllawiau ar gyfer y sector chwarae dan do yn cynghori sefydliadau i feddwl am hawliau'r rheini sydd â nodweddion gwarchodedig a sut byddant yn gallu parhau i ddefnyddio'r lleoliad / gwasanaethau'n ddiogel.<br><br>Mae'r canllawiau hefyd yn cynghori defnyddio negeseuon syml, clir a hygyrch i egluro'r canllawiau, gan ystyried grwpiau sydd ag iaith gyntaf ar |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | sy'n gweithio yn y sector (hy drwy gael eu cyflog llawn wrth i'w cyfnod ar ffyrlo ddod i ben).<br><br>Negyddol: Mae pobl dduon ac Asiaidd a lleiafrifoedd ethnig yn wynebu risg anghymesur o ganlyniadau iechyd negyddol pe baent yn dal Covid-19 | fynediad at gymorth; ac yn hyrwyddo llesiant yn gyffredinol. | wahân i'r Gymraeg a'r Saesneg.<br><br>Mae hefyd yn mynnu bod yr asesiad risg yn rhoi sylw penodol i a yw'r bobl sy'n gwneud y gwaith yn arbennig o agored i niwed oherwydd COVID19 a rhoi camau ar waith i'w diogelu. |
| *Crefydd, cred a diffyg cred* | *Nid yw'n debygol o gael effaith* | Dim digon o ddata ar gael i gynhyrchu asesiad iawn<br><br>Wrth i ragor o adeiladau agor, dylai pobl elwa'n gyffredinol ar ragor o gyfleoedd ar gyfer rhyngweithio cymdeithasol diogel a chyfleoedd i ddefnyddio gwasanaethau, a fydd yn helpu i leihau nifer y bobl sy'n unig ac yn teimlo'n ynysig; yn darparu rhagor o fynediad at gymorth; ac yn hyrwyddo llesiant yn gyffredinol. | Bydd canllawiau ar gyfer y sector chwarae dan do yn cynghori sefydliadau i feddwl am hawliau'r rheini sydd â nodweddion gwarchodedig a sut byddant yn gallu parhau i ddefnyddio'r lleoliad / gwasanaethau'n ddiogel. |
| *Rhyw / Rhywedd* | **Niwtral:** Mae menywod yn dueddol o fod yn bennaf gyfrifol am roi gofal, gan gynnwys i blant yn ystod | Dim digon o ddata ar gael i gynhyrchu asesiad iawn<br><br>Wrth i ragor o adeiladau agor, dylai pobl elwa'n gyffredinol ar ragor | Bydd canllawiau ar gyfer y sector chwarae dan do yn cynghori sefydliadau i feddwl am hawliau'r rheini sydd â nodweddion gwarchodedig a sut byddant yn gallu parhau i ddefnyddio'r lleoliad / gwasanaethau'n ddiogel. |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | gwyliau'r ysgol. Bydd mynediad at ragor o wasanaethau a ddarperir yn y gymuned, ac yn benodol canolfannau chwarae dan do, yn fuddiol. | o gyfleoedd ar gyfer rhyngweithio cymdeithasol diogel a chyfleoedd i ddefnyddio gwasanaethau, a fydd yn helpu i leihau nifer y bobl sy'n unig ac yn teimlo'n ynysig; yn darparu rhagor o fynediad at gymorth; ac yn hyrwyddo llesiant yn gyffredinol.<br><br>Bydd cyfleoedd i ddychwelyd i weithio yn helpu i leihau'r pryderon sy'n gysylltiedig â'r cyfyngiadau symud, gan gynnwys pryderon ariannol. | |
| *Cyfeiriadedd rhywiol (lesbiaidd, hoyw a deurywiol)* | Nid yw'n debygol o gael effaith. | Dim digon o ddata ar gael i gynhyrchu asesiad iawn<br><br>Wrth i ragor o adeiladau agor, dylai pobl elwa'n gyffredinol ar ragor o gyfleoedd ar gyfer rhyngweithio cymdeithasol diogel a chyfleoedd i ddefnyddio gwasanaethau, a fydd yn helpu i leihau nifer y bobl sy'n unig ac yn teimlo'n ynysig; yn darparu rhagor o fynediad at gymorth; ac yn hyrwyddo llesiant yn gyffredinol. | Bydd canllawiau ar gyfer y sector chwarae dan do yn cynghori sefydliadau i feddwl am hawliau'r rheini sydd â nodweddion gwarchodedig a sut byddant yn gallu parhau i ddefnyddio'r lleoliad / gwasanaethau'n ddiogel. |
| *Priodas a phartneriaeth sifil* | Nid yw'n debygol o gael effaith. | Dim digon o ddata ar gael i gynhyrchu asesiad iawn | Bydd canllawiau ar gyfer y sector chwarae dan do yn cynghori sefydliadau i feddwl |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | Wrth i ragor o adeiladau agor, dylai pobl elwa'n gyffredinol ar ragor o gyfleoedd ar gyfer rhyngweithio cymdeithasol diogel a chyfleoedd i ddefnyddio gwasanaethau, a fydd yn helpu i leihau nifer y bobl sy'n unig ac yn teimlo'n ynysig; yn darparu rhagor o fynediad at gymorth; ac yn hyrwyddo llesiant yn gyffredinol. | am hawliau'r rheini sydd â nodweddion gwarchodedig a sut byddant yn gallu parhau i ddefnyddio'r lleoliad / gwasanaethau'n ddiogel. |
| *Plant a phobl ifanc hyd at 18 oed* | **Cadarnhaol:** Bydd yn darparu rhagor o gyfleoedd i gymryd rhan mewn amrywiaeth o wahanol weithgareddau ac i ryngweithio'n gymdeithasol.<br><br>**Cadarnhaol:** Mae ymarfer corff a chwaraeon yn ffactor bwysig o ran cyfrannu at ddatblygiad corfforol, llesiant seicolegol a chymdeithasol iach plant. Mae tystiolaeth yn awgrymu bod plant yng Nghymru yn gwneud llai o ymarfer corff | Mae hawliau plant wedi cael eu hystyried fel rhan o'r asesiad hwn (gweler uchod); a bydd y mesurau sy'n darparu cyfleoedd i gymryd rhan mewn rhagor o weithgareddau yn gadarnhaol i blant ac maent yn cydymffurfio ag erthyglau Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn (Erthyglau 12, 14, 15, 27, 31).<br><br>Mae'r arolwg '[Coronafeirws a Fi]' o tua 23,000 o blant a phobl ifanc yng Nghymru yn taflu rhywfaint o oleuni ar eu profiadau o bandemig y coronafeirws a'u hymatebion, eu | Dim angen lliniaru. |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | nawr nag yr oeddent cyn y pandemig. Bydd ail-alluogi gweithgareddau yn y maes hwn yn cynyddu'r cyfleoedd i blant a phobl ifanc gymryd rhan mewn ymarfer corff. | gobeithion a'u pryderon ar gyfer y dyfodol (Erthygl 12, Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn).<br><br>Arolwg Chwaraeon Cymru a gynhaliwyd gan Savanta ComRes rhwng 8 a 12 Mai 2020:<br><br>“Mae 26% yn dweud bod eu plant yn gwneud rhagor o weithgareddau ers dechrau cyfyngiadau COVID-19, a 35% yn dweud bod eu plant yn gwneud llai. Yn gyffredinol, mae hyn yn awgrymu gostyngiad net o 9 pwynt canran.” | |
| Aelwydydd incwm isel | **Cadarnhaol:** Mae canolfannau chwarae dan do fel arfer mewn ardaloedd sy’n hawdd i deuluoedd eu cyrraedd ar droed neu drafnidiaeth gyhoeddus yn ogystal â char, ac yn aml maen nhw wedi lleoli wrth ymyl cyfleusterau eraill ar gyfer plant a theuluoedd. Bydd rhai o’r canolfannau hyn yn codi ffi | Arolwg Chwaraeon Cymru a gynhaliwyd gan Savanta ComRes rhwng 8 a 12 Mai 2020:<br><br>“Fodd bynnag, mae amrywiadau sylweddol mewn rhai grwpiau demograffig. Mae cynnydd net mewn lefelau gweithgarwch ymysg y rheini o gefndir economaidd-gymdeithasol uwch (+7 pwynt canran), ond gostyngiad net ymysg y rheini o gefndir economaidd- | Bydd y canllawiau ar ailagor canolfannau chwarae dan do yn cynghori gwneud darpariaeth fel bod pobl heb fynediad at y Rhyngrwyd yn gallu archebu lle. |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | mynediad, ond yn gyffredinol mae'r rhain yn isel, gyda chynigion i deuluoedd a chymhellion eraill i sicrhau eu bod yn fforddiadwy. Maen nhw'n cynrychioli dewis amgen i barciau a meysydd chwarae yn yr awyr agored pan fydd y tywydd yn wael, ac maen nhw'n arbennig o bwysig i bobl heb fannau yn yr awyr agored. | gymdeithasol is (-4 pwynt canran)."<br><br>"Mae'n ymddangos bod y gostyngiadau mwyaf ymysg plant o gefndir economaidd-gymdeithasol is (SES ISEL: Mwy 23% Llai 36% = -13 pwynt canran SES UCHEL: Mwy 28% Llai 35% = -7 pwynt canran)" | |

*Deddf Hawliau Dynol*

Prif bwrpas y cyfyngiadau yw diogelu'r hawl i fywyd a rhaid ystyried unrhyw newidiadau yn y cyd-destun hwn. Mae'r newidiadau a gynigir yn cyfrannu at yr hawl i barch at fywyd preifat a bywyd teuluol, drwy gael gwared ar gyfyngiadau a allai amharu ar fywyd preifat a theuluol unigolion.

*Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn*

Ystyriwyd y confensiwn yn yr asesiad hwn. Gallai'r cyfyngiadau ar ganolfannau chwarae dan do wrthdaro'n bennaf â'r Erthygl ganlynol:

- **Erthygl 31** – Mae gan blant yr hawl i ymlacio a chwarae ac ymuno mewn ystod eang o weithgareddau.

Byddai llacio cyfyngiadau cysylltiedig yn galluogi Llywodraeth Cymru i fodloni ei hymrwymiadau dan yr erthygl hon yn benodol. Hefyd efallai fod rhai buddion dan Erthygl 15 (yr hawl i gydgyfarfod), ond bydd y rhain yn cael eu cyfyngu nes bydd rhagor o fesurau llacio o ran ymgynnull dan do.

Mae atyniadau dan do yn rhan o'r profiadau a chyfleusterau a ddarperir i deuluoedd, a fydd yn sicrhau bod modd sicrhau cymaint o ganlyniadau â phosibl i blant a phobl ifanc.

*Y Gymraeg*

Nid oes data penodol ar nifer y siaradwyr Cymraeg sy'n defnyddio canolfannau chwarae, nac ar nifer y gweithlu sy'n siarad Cymraeg. Fodd bynnag, mae canolfannau chwarae dan do ledled Cymru, gyda nifer ohonynt mewn ardaloedd lle siaredir Cymraeg yn bennaf.

Gan edrych y tu hwnt i ganolfannau chwarae dan do pwrpasol, mae'r gwasanaethau hyn yn aml yn rhan o atyniad ehangach i dwristiaid sy'n canolbwyntio ar deuluoedd. Mae 127,000 o bobl yn cael eu cyflogi'n uniongyrchol yn yr economi ymwelwyr – tua 9% o'r gweithlu. Mae'r economi yn hanfodol i greu'r amodau cymdeithasol lle gall siaradwyr Cymraeg aros mewn cymunedau Cymraeg, neu ddychwelyd i'r cymunedau hynny. Mae llawer o ardaloedd sy'n Gymraeg yn bennaf yn dibynnu'n drwm ar dwristiaeth am incwm a chyflogaeth. Mae canran uchel o fusnesau twristiaeth mewn ardaloedd Cymraeg – er enghraifft mae dros draean y busnesau llety i dwristiaid wedi'u lleoli mewn awdurdodau lleol lle mae dros 40% o'r boblogaeth yn siarad Cymraeg fel iaith gyntaf.

Bydd cymunedau Cymraeg eu hiaith yn cael budd o'r ffaith bod atyniadau i dwristiaid yn cael ailddechrau gweithredu, oherwydd bydd yn helpu i greu a diogelu swyddi, ac mae'n bosibl y bydd hynny'n annog siaradwyr Cymraeg i aros a gweithio yno, a chynnal hyfywedd yr iaith yn sgil hynny.

Bydd canllawiau ar ganolfannau chwarae dan do yn cynghori bod sefydliadau'n ystyried sut byddwch yn parhau i gydymffurfio â dyletswyddau iaith Gymraeg wrth newid eu gweithgareddau / gwasanaethau.

ix. Alïau bowlio

<u>EFFEITHIAU AR LESIANT</u>

Ym mis Hydref 2020, cynhaliodd Chwaraeon Cymru ail arolwg i arferion pobl o ran chwaraeon a gweithgarwch corfforol. Roedd y canlyniadau'n dangos y meysydd canlynol o bwys ar effaith y cyfyngiadau symud ar lesiant corfforol a meddyliol.

- Mae'n ymddangos bod cydnabyddiaeth gynyddol o bwysigrwydd ymarfer corff yn rheolaidd, ac mae rhagor o bobl bellach yn gwneud ymarfer corff i reoli eu hiechyd meddwl a chorfforol. Roedd yr un ganran (62%) o bobl ag ym mis Mai – pan gynhaliwyd yr arolwg cyntaf – yn gwneud ymarfer corff i gefnogi eu hiechyd meddwl.

- Mae effaith yn dal i fod ar drefniadau ymarfer corff pobl ond nid yw'r effaith mor ddifrifol ag ydoedd yn ystod y cyfyngiadau symud cenedlaethol. Mae pobl yn gwneud mwy o ymarfer corff oddi cartref erbyn hyn.

- Roedd yr arolwg yn dangos bod lefelau gweithgarwch llawer o bobl wedi dychwelyd i'r un lefelau â chyn y pandemig. Fodd bynnag, mae menywod yn fwy tebygol o ddweud eu bod yn gwneud llai o weithgarwch na chyn y pandemig, ac mae'n ymddangos bod dynion yn gwneud mwy. Mae 40% o fenywod yn anghytuno â'r datganiad bod ganddynt fwy o amser yn awr i fod yn gorfforol egnïol.

- Mae anghydraddoldebau tebyg yn bodoli ar draws statws economaidd-gymdeithasol, cyflyrau hirdymor ac afiechyd, ac oedran. Er enghraifft, mae 22% o bobl yn dweud eu bod yn gwneud ychydig mwy o ymarfer corff nag oeddent cyn y pandemig ar y raddfa gymdeithasol uchaf, ac mae 20% o'r rheini sy'n dweud eu bod nawr yn gwneud llai o ymarfer corff na chyn y pandemig ar y raddfa gymdeithasol isaf.

- Dywedodd rhwng 20 a 25% o bobl eu bod wedi ymweld â champfeydd dan do, pyllau nofio a neuaddau chwaraeon. Fodd bynnag, o'r rheini a fynychodd sesiwn nofio neu gampfa dan do yn ystod yr wythnos cyn yr arolwg, roedd 80% yn teimlo'n gyfforddus, gan ddangos bod cyfleusterau'n rhoi'r mesurau angenrheidiol ar waith i wneud i bobl deimlo'n ddiogel.

## EFFEITHIAU ECONOMAIDD

Fel rhan o adroddiad gwerthuso economaidd a gomisiynwyd gan Chwaraeon Cymru[58], amcangyfrifodd Canolfan Ymchwil Diwydiant Chwaraeon Prifysgol Sheffield Hallam effaith cyfnod o gyfyngiadau symud ac yna modelu hyn dros flwyddyn. Roedd hyn yn cynnwys cyfnodau o normalrwydd, cyfyngiadau symud llawn, cyfyngiadau symud wedi'u rhannu'n haenau, a chyfnodau eraill lle'r oedd yr economi'n gweithredu gyda llai o gapasiti. I amcangyfrif effaith economaidd chwaraeon yn 2019, ychydig cyn yr achosion pan dybiwyd bod yr amodau'n 'normal', cafodd cyfraddau cymryd rhan mewn chwaraeon a phatrymau gwario eu cyfrifo. Roedd yr amcangyfrif a ddeilliodd o hyn yn awgrymu bod gwariant defnyddwyr, ychydig cyn y pandemig, wedi parhau i godi (7%), yn ogystal â gwerth ychwanegol gros a swyddi (5% y naill a'r llall). Roedd y gwariant hwn gan ddefnyddwyr sy'n gysylltiedig â chwaraeon yng Nghymru yn £1.26bn, gwerth ychwanegol gros sy'n gysylltiedig â chwaraeon yn £1.195bn ac amcangyfrifir bod cyflogaeth chwaraeon yn 31,100 o swyddi cyfwerth ag amser llawn. Mae hyn yn awgrymu bod y patrymau twf a welwyd dros yr 20 mlynedd diwethaf yn debygol o barhau yn 2019 ymlaen.

Mae'r holl fuddsoddiadau a arweiniodd at dwf yn y gorffennol diweddar yn y fantol nawr oherwydd pandemig COVID-19. Mae canlyniad y model hwn yn awgrymu y gellir dangos bod cyfnod y cyfyngiadau symud caeth wedi lleihau gwariant defnyddwyr (-47%), gwerth ychwanegol gros (-50%), a chyflogaeth (-48%). Mae hyn

---

[58] Kokolakakis *et al*: The economic consequences of the COVID-19 pandemic on sport in Wales, Prifysgol Sheffield Hallam, Ionawr 2021

yn golygu y byddai effaith economaidd chwaraeon yn cael ei haneru i bob pwrpas yn ystod y cyfyngiadau symud caeth.

Wrth gysylltu amodau'r cyfyngiadau symud gyda’r cyfnodau o adferiad dros flwyddyn (yn 2020), mae'r effaith net ar wariant defnyddwyr yn llawer mwy difrifol i’r sector chwaraeon yng Nghymru o’i gymharu â gwariant defnyddwyr y DU yn gyffredinol (-24% a -15% yn y drefn honno). Felly, mae gwariant defnyddwyr ar chwaraeon yng Nghymru wedi gostwng tua £303.4m. Roedd gwariant defnyddwyr ar chwaraeon wedi gostwng mewn rhai meysydd yn fwy nag eraill; mae hyn yn bennaf oherwydd y cynnydd mewn gweithgareddau chwaraeon anffurfiol fel rhedeg a beicio yn ystod y cyfyngiadau symud, a’r adwerthu ar-lein cysylltiedig (ee ffioedd mynediad yn disgyn 40% o’i gymharu â chynnydd o 16% mewn gwariant ar feiciau).

Yn 2020, disgwylir i economi’r DU fod wedi lleihau 10%. Ar yr un pryd, roedd gwerth ychwanegol gros sy’n ymwneud â chwaraeon yng Nghymru wedi disgyn 20%, bron ddwywaith cymaint â’r gostyngiad yn y DU. Felly, amcangyfrifir bod gwerth ychwanegol gros yng Nghymru wedi gostwng £209m. Yng Nghymru, y gwerth ychwanegol gros sy’n cael ei gynhyrchu drwy chwaraeon gwylwyr oedd y gostyngiad mwyaf (-43%). Mae Ymddiriedolaethau Hamdden a Diwylliant Cymru yn parhau i weld colledion net o £292,000 y mis oherwydd bod eu cyfleusterau ar gau, sy’n golygu bod methdaliad yn bosibilrwydd go iawn.

Mae’n bwysig nodi y byddai’r amodau hyn wedi bod yn llawer gwaeth heb y buddsoddiad cychwynnol o £22.7 miliwn mewn pecynnau cymorth chwaraeon, yn ogystal â phecynnau anuniongyrchol eraill fel cronfeydd caledi awdurdodau lleol. Amcangyfrifir, heb fuddsoddiad, y gallai gwerth ychwanegol gros sy’n ymwneud â chwaraeon yng Nghymru fod wedi disgyn deirgwaith yn fwy nag economi’r DU. Byddai’r sector gwirfoddol yng Nghymru, er enghraifft, wedi gweld gostyngiad mwy fyth heb y cyfraniad hwn (-80% o’i gymharu â -50%). Ar ben hynny, byddai 15.2 mil o swyddi chwaraeon cyfwerth ag amser llawn mewn perygl o gael eu colli heb gymorth cyhoeddus. Ar ddiwedd y pecyn adfer ym mis Mawrth, daeth y pryderon hyn yn realiti byw unwaith eto.

Mae chwaraeon yn ddiwydiant economaidd mawr i Gymru. Mae’r rhwydwaith o ficrofusnesau sy’n gyrru’r economi chwaraeon wedi’i wreiddio yn eu cymunedau. Maen nhw’n ychwanegu gwerth go iawn o ran eu gallu i gefnogi cyflogaeth yn uniongyrchol yn ogystal â sut maen nhw’n gwasanaethu diwydiannau cysylltiedig. Cyn y pandemig, roedd twf cyson yn nylanwad chwaraeon ar gynnyrch economaidd yng Nghymru. Er bod hyn wedi dioddef ergyd ddramatig, mae dulliau polisi sy’n golygu bod modd dod â'r hwb economaidd hwn yn ôl i’r sector mewn ffordd synhwyrol, ddiogel a chynaliadwy. Byddai llacio’r cyfyngiadau ar gampfeydd, canolfannau hamdden a chyfleusterau ffitrwydd (gan gynnwys canolfannau cymunedol) yn gam pwysig yn hyn o beth.

## EFFEITHIAU AMGYLCHEDDOL

Yn yr un modd â’r llacio arall, bydd dileu’r cyfyngiadau yn y maes hwn bron yn siŵr o gynyddu’r rhesymau i aelodau'r cyhoedd deithio.

## ASESIADAU O’R EFFAITH

*Effeithiau ar gydraddoldeb*

Mae asesiad o'r effeithiau yn ôl nodweddion gwarchodedig wedi'i nodi isod.

| ***Grŵp neu nodwedd warchodedig*** | ***Beth yw effeithiau cadarnhaol neu negyddol y cynnig?*** | ***Rhesymau dros eich penderfyniad (gan gynnwys tystiolaeth)*** | ***Sut byddwch yn lliniaru'r effeithiau?*** |
|---|---|---|---|
| *Oedran (meddyliwch am wahanol grwpiau oedran)* | **Cadarnhaol:** Bydd ailagor rhagor o safleoedd, gan ddarparu amrywiaeth ehangach o wasanaethau ac atyniadau, yn fuddiol i bob grŵp oedran. Mae carfannau iau o'r boblogaeth yn fwy tebygol o lawer o weithio yn y sector chwaraeon a hamdden yng Nghymru na charfannau hŷn, felly gallai agor y sector arwain at effeithiau cadarnhaol o ran dosbarthiad os yw'n atal colledion swyddi posibl ac yn cynyddu incwm aelwydydd, drwy drosglwyddo unigolion oddi ar Gynllun Cadw Swyddi drwy gyfnod y Coronafeirws y DU. Ar hyn o bryd, y garfan hon yw'r grŵp oedran sy'n wynebu'r risg fwyaf o ganlyniad i ddirywiad economaidd. | Mae dadansoddiad Llywodraeth Cymru o ddata'r Arolwg Blynyddol o'r Boblogaeth yn 2019 yn dangos bod 31% o weithwyr yn y sector gweithgareddau chwaraeon yng Nghymru o dan 25 oed (a dim ond 12% o'r gweithlu mae'r grŵp oedran hwn yn ei gynrychioli). | Amh |

| | | | |
|---|---|---|---|
| *Anabledd (meddyliwch am wahanol fathau o anabledd)* | Cadarnhaol. | Mae dadansoddiad o ddata’r Arolwg Blynyddol o'r Boblogaeth yn 2019 yn awgrymu bod pobl anabl yn cynrychioli 15% o'r gweithlu yn y sector Gweithgareddau Chwaraeon (mae’r grŵp hwn yn cynrychioli 15% o'r gweithlu ehangach).<br><br>Wrth i ragor o safleoedd ailagor, dylai pobl anabl elwa ar allu defnyddio amrywiaeth ehangach o wasanaethau a manteisio ar gyfleoedd eraill. Bydd hyn yn helpu i leihau nifer y bobl sy’n unig ac yn teimlo’n ynysig; yn darparu mynediad gwell at gymorth; ac yn hyrwyddo llesiant yn gyffredinol. | Mae'r canllawiau sydd wedi cael eu rhoi i fusnesau twristiaeth a lletygarwch yn nodi y dylai sefydliadau ystyried hawliau’r rheini sydd â nodweddion gwarchodedig o ran cael gafael ar leoliadau neu wasanaethau. Mae hyn hefyd wedi cael ei gynnwys yn y rhestr wirio ar gyfer busnesau twristiaeth.<br><br>ee rhoi gwybod iddynt am unrhyw newid i’r trefniadau archebu neu sut bydd y lleoliad yn helpu pobl anabl er mwyn iddynt allu parhau i ddefnyddio’r lleoliad mewn ffordd ddiogel.<br><br>ee darparu gwybodaeth ychwanegol i ymwelwyr sydd â nam ar eu golwg cyn eu hymweliad o ran newidiadau i fynedfa’r adeilad neu’r safle a llwybrau newydd a mwy cymhleth i ymwelwyr eu dilyn ac, yn gyffredinol, drwy wneud yr holl wybodaeth sydd ar gael i ymwelwyr yn fwy hygyrch.<br><br>Mae’r canllawiau hefyd yn datgan bod gan gyflogwyr ddyletswyddau statudol tuag at weithwyr anabl a |

| *Grŵp neu nodwedd warchodedig* | *Beth yw effeithiau cadarnhaol neu negyddol y cynnig?* | *Rhesymau dros eich penderfyniad (gan gynnwys tystiolaeth)* | *Sut byddwch yn lliniaru'r effeithiau?* |
|---|---|---|---|
| | | | rhaid iddynt wneud addasiadau rhesymol i wneud yn siŵr nad ydynt dan anfantais. |
| *Ailbennu rhywedd (y weithred o drawsnewid a phobl drawsryweddol)* | Nid yw'n debygol o gael effaith. | Wrth i ragor o adeiladau agor, dylai pobl elwa'n gyffredinol ar ragor o gyfleoedd ar gyfer rhyngweithio cymdeithasol diogel a chyfleoedd i ddefnyddio gwasanaethau, a fydd yn helpu i leihau nifer y bobl sy'n unig ac yn teimlo'n ynysig; yn darparu rhagor o fynediad at gymorth; ac yn hyrwyddo llesiant yn gyffredinol. | |
| *Beichiogrwydd a mamolaeth* | **Cadarnhaol:** Bydd ailagor rhagor o fusnesau, fel atyniadau i dwristiaid, yn darparu amrywiaeth ehangach o weithgareddau y bydd mamau/gofalwyr yn gallu eu mwynhau gyda phlant ifanc o bosibl. | Wrth i ragor o safleoedd agor, byddant yn elwa'n gyffredinol ar ragor o gyfleoedd ar gyfer rhyngweithio cymdeithasol diogel a chyfleoedd i ddefnyddio gwasanaethau, a fydd yn helpu i leihau nifer y bobl sy'n unig ac yn teimlo'n ynysig; yn darparu rhagor o fynediad at gymorth; ac yn hyrwyddo llesiant yn gyffredinol. | Mae'r Canllawiau i fusnesau twristiaeth a lletygarwch yn tynnu sylw at y ffaith bod asesiadau risg yn ofyniad cyfreithiol i fenywod beichiog, dim ots beth yw maint y busnes, a bod gan gyflogwyr ddyletswydd statudol i famau newydd neu fenywod beichiog. |

| ***Grŵp neu nodwedd warchodedig*** | ***Beth yw effeithiau cadarnhaol neu negyddol y cynnig?*** | ***Rhesymau dros eich penderfyniad (gan gynnwys tystiolaeth)*** | ***Sut byddwch yn lliniaru'r effeithiau?*** |
|---|---|---|---|
| *Hil (yn cynnwys gwahanol leiafrifoedd ethnig, sipsiwn a theithwyr a mudwyr, ceiswyr lloches a ffoaduriaid)* | Heb ganfod effaith wahaniaethol. | Mae dadansoddiad o ddata'r Arolwg Blynyddol o'r Boblogaeth yn 2019 yn amcangyfrif bod 8% o'r gweithlu yn y sector Gweithgareddau Chwaraeon yn BAME, a bod y grŵp hwn yn cynrychioli 5% o'r gweithlu yn gyffredinol yng Nghymru. | |
| *Crefydd, cred a diffyg cred* | Nid yw'n debygol o gael effaith. | | Mae'r canllawiau i fusnesau twristiaeth a lletygarwch yn nodi er mwyn trin cyflogeion yn deg y dylid cymryd camau i ddeall, cynnwys ac ystyried amgylchiadau penodol y rheini sydd â nodweddion gwarchodedig. Mae hyn hefyd wedi cael ei gynnwys yn y rhestr wirio gysylltiedig.<br><br>Mae hefyd yn nodi bod y camau y bydd angen eu cymryd fel arfer yn cynnwys sicrhau nad ydych yn cael effaith negyddol nad oes modd ei chyfiawnhau ar rai grwpiau o'u cymharu ag eraill, er enghraifft y rheini sydd ag ymrwymiadau crefyddol. |

| *Grŵp neu nodwedd warchodedig* | *Beth yw effeithiau cadarnhaol neu negyddol y cynnig?* | *Rhesymau dros eich penderfyniad (gan gynnwys tystiolaeth)* | *Sut byddwch yn lliniaru'r effeithiau?* |
|---|---|---|---|
| *Rhyw / Rhywedd* | Heb ganfod effeithiau gwahaniaethol. | Mae dadansoddiad o ddata'r Arolwg Blynyddol o'r Boblogaeth yn 2019 yn amcangyfrif bod 42% o weithwyr yn y sector Gweithgareddau Chwaraeon yng Nghymru yn fenywod, a bod menywod yn cynrychioli 47% o gyfanswm y gweithlu yng Nghymru. | Mae'r canllawiau twristiaeth yn nodi er mwyn trin cyflogeion yn deg y dylid cymryd camau i ddeall, cynnwys ac ystyried amgylchiadau penodol y rheini sydd â nodweddion gwarchodedig. Mae hyn hefyd wedi cael ei gynnwys yn y rhestr wirio gysylltiedig. |
| *Cyfeiriadedd rhywiol (lesbiaidd, hoyw a deurywiol)* | Heb ganfod effeithiau gwahaniaethol. | | Mae'r canllawiau twristiaeth yn nodi er mwyn trin cyflogeion yn deg y dylid cymryd camau i ddeall, cynnwys ac ystyried amgylchiadau penodol y rheini sydd â nodweddion gwarchodedig. Mae hyn hefyd wedi cael ei gynnwys yn y rhestr wirio gysylltiedig. |
| *Priodas a phartneriaeth sifil* | Heb ganfod effaith wahaniaethol | Wrth i ragor o adeiladau agor, dylai cyplau elwa'n gyffredinol ar ragor o gyfleoedd ar gyfer rhyngweithio cymdeithasol diogel a chyfleoedd i ddefnyddio gwasanaethau, a ddylai hyrwyddo llesiant. | Mae'r canllawiau twristiaeth yn nodi er mwyn trin cyflogeion yn deg y dylid cymryd camau i ddeall, cynnwys ac ystyried amgylchiadau penodol y rheini sydd â nodweddion gwarchodedig. Mae hyn hefyd wedi cael ei gynnwys yn y rhestr wirio gysylltiedig. |

| *Grŵp neu nodwedd warchodedig* | *Beth yw effeithiau cadarnhaol neu negyddol y cynnig?* | *Rhesymau dros eich penderfyniad (gan gynnwys tystiolaeth)* | *Sut byddwch yn lliniaru'r effeithiau?* |
|---|---|---|---|
| *Plant a phobl ifanc hyd at 18 oed* | **Cadarnhaol:** Bydd yn darparu rhagor o gyfleoedd i gymryd rhan mewn amrywiaeth o wahanol weithgareddau ac i ryngweithio'n gymdeithasol ar gyfer pobl ifanc. | Mae'r arolwg 'Coronafeirws a Fi' o tua 23,000 o blant a phobl ifanc yng Nghymru yn taflu rhywfaint o oleuni ar eu profiadau o bandemig y coronafeirws a'u hymatebion, eu gobeithion a'u pryderon ar gyfer y dyfodol (Erthygl 12, Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn). | Dim angen lliniaru. |
| *Aelwydydd incwm isel* | **Cadarnhaol:** Bydd yn rhoi mwy o gyfleoedd i deuluoedd gymryd rhan mewn amrywiaeth o weithgareddau lleol. | | Bydd cyfleusterau hamdden sy'n lleol yn fwy hygyrch i aelwydydd incwm isel nad ydynt yn gallu teithio'n bell o'u cartref o bosibl. |

*Hawliau Dynol a Chonfensiwn y Cenhedloedd Unedig*

Prif bwrpas y cyfyngiadau a'r gofynion sy'n gysylltiedig â'r cyfyngiadau symud yw diogelu hawl pawb i fywyd. Mae hyn wedi arwain at gyfyngiadau ar hawliau megis ar fywyd preifat a theuluol a'r rhyddid i gynnull a chymdeithasu ar sail y gellir ei gyfiawnhau yn ymwneud ag iechyd. Mae iechyd y cyhoedd yn cael ei ddisgrifio fel rheswm derbyniol dros atal yr hawliau hyn, ar yr amod ei fod yn angenrheidiol ac yn gymesur. Er gwaethaf y cyfyngiadau parhaus ar y cyfyngiadau symud yn gyffredinol, mae'r cynnig hwn yn effeithio ar y canlynol:

| *Hawliau Dynol* | *Beth yw effeithiau cadarnhaol neu negyddol y cynnig?* | *Rhesymau dros eich penderfyniad (gan gynnwys tystiolaeth)* | *Sut byddwch yn lliniaru'r effeithiau negyddol?* |
|---|---|---|---|
| Yr hawl i fwynhau perthnasau teuluol heb ymyrraeth gan y llywodraeth (ee yr hawl i fyw | **Cadarnhaol:** Bydd yn rhoi mwy o gyfleoedd i deuluoedd gymryd rhan mewn amrywiaeth o weithgareddau lleol. | Wrth i ragor o safleoedd agor, bydd teuluoedd yn elwa'n gyffredinol ar ragor o gyfleoedd ar gyfer rhyngweithio cymdeithasol diogel a | Dim angen lliniaru. |

| | | | |
|---|---|---|---|
| gyda'ch teulu ac i gael cyswllt rheolaidd) | | chyfleoedd i ddefnyddio gwasanaethau, a fydd yn helpu i leihau nifer y bobl sy'n unig ac yn teimlo'n ynysig; ac yn hyrwyddo llesiant yn gyffredinol. | |

*Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn*

Ystyriwyd y confensiwn yn yr asesiad hwn. Gallai'r cyfyngiadau ar alïau bowlio wrthdaro â'r Erthyglau canlynol:

- **Erthygl 15** – Mae gan blant yr hawl i gydgyfarfod ac ymuno gyda grwpiau a sefydliadau, cyn belled â bod hynny ddim yn cadw pobl eraill rhag mwynhau eu hawliau.
- **Erthygl 31** – Mae gan blant yr hawl i ymlacio a chwarae ac ymuno mewn ystod eang o weithgareddau.

*Y Gymraeg*

Nid yw'n hysbys bod gan y cynigion unrhyw effeithiau cadarnhaol neu negyddol amlwg ar nod Llywodraeth Cymru i gynyddu nifer y siaradwyr Cymraeg, hyrwyddo'r defnydd o'r Gymraeg, a chreu amodau ffafriol ar gyfer y Gymraeg, fel y nodir yn **Cymraeg 2050: Miliwn o siaradwyr Cymraeg**.

x. Brecwastau priodas

EFFEITHIAU ECONOMAIDD

*Arwyddocâd economaidd y sector*

Yn ôl y Swyddfa Ystadegau Gwladol, roedd yr holl sector *Gwasanaethau Bwyd a Diod*, sy'n rhan o'r gadwyn gyflenwi ehangach ar gyfer priodasau a digwyddiadau tebyg, wedi cyfrannu £1.3 biliwn o werth ychwanegol gros (GVA) i economi Cymru yn 2018, a oedd gyfwerth â 2% o gyfanswm y gwerth ychwanegol gros ar gyfer yr un flwyddyn. Yn 2019, gan ddefnyddio data Arolwg Cyflogaeth y Gofrestr Fusnes (BRES), amcangyfrifwyd bod 85,500 o bobl yn cael eu cyflogi'n uniongyrchol yn y sector 'Lletygarwch - Tafarndai, Caffis a Bwytai' yng Nghymru, 6.7% o gyfanswm y gyflogaeth.[59]

Mae'r sector lletygarwch ehangach hefyd yn hanfodol i'r economi sylfaen. Mae cwmnïau lleol yn y diwydiant priodasau a digwyddiadau yn aml yn defnyddio cyflenwyr sy'n prynu bwyd a diod gan gyflenwyr lleol. Mae'n amlwg bod cau'r sector lletygarwch yn effeithio ar y sector cyflenwi bwyd a diod – er enghraifft, mae 50% o'r

[59] Wedi diffinio cod SIC2007 2 ddigid (56) Gweithgareddau bwytai a gwasanaethau bwyd symudol a 563 Gweithgareddau gweini diodydd.

llaeth a gyflenwir gan ffermwyr yn mynd i'r sector lletygarwch yn gyffredinol. Er bod y defnydd domestig wedi codi 15%, nid yw hyn yn gwneud iawn am y gostyngiad o'r sector lletygarwch. Mae Llywodraeth Cymru wedi gorfod camu i mewn i gefnogi ffermwyr o ganlyniad i hynny.

**Maint y sector a'i gadwyn gyflenwi yng Nghymru**

Mae'r sector yn cynnwys amrywiaeth eang o leoliadau sy'n cynnwys lleoliadau priodasau mewn tai gwledig, canolfannau ysguboriau, plastai, cestyll (rhai ohonynt yn eiddo i Cadw), gwestai, swyddfeydd cofrestru, mannau addoli, atyniadau ac amgueddfeydd, cyrsiau golff, lleoliadau digwyddiadau, lleoliadau chwaraeon, bwytai a thafarndai, lleoliadau dinesig fel clybiau cymdeithasol, lleoliadau awyr agored a pharciau.

Mewn ymgynghoriad â'r sector, ein hamcangyfrif gorau yw bod tua 600 o fusnesau cofrestredig yng Nghymru sydd â thrwydded ddilys i gynnal priodasau. Y tu hwnt i hynny, mae'r gadwyn gyflenwi sy'n cefnogi'r sector priodasau yn enfawr ac mae'n cynnwys Cofrestryddion, Lleoliadau, Arlwyo, Cacennau, Blodau, Lluniau a Fideos, Adwerthu, Deunyddiau Papur, Bandiau/ DJs, Ceir/Cludiant, Pebyll mawr, Propiau a rhentu, Gwallt a Cholur, Teithio a Thwristiaeth, Staff Cefnogi, Sioeau Masnach Priodasau, Llwyfannau Cyfryngau.  Rhagwelir y bydd o leiaf 10 busnes yn cyflenwi ac yn cefnogi pob un briodas mewn lleoliad.

Mae priodasau a digwyddiadau personol arbennig eraill yn sbardun i dwristiaeth gan fod gwesteion yn teithio i'r digwyddiad.  Yn 2019 roedd 2.8 miliwn o ymweliadau dydd a 96,000 o deithiau dros nos yng Nghymru gan bobl a oedd wedi dod i ddigwyddiad personol (ee priodas, bedydd, seremoni graddio). Roedd hyn wedi golygu bod cyfanswm gwariant gan yr ymwelwyr hynny, gan gynnwys llety a'r holl gostau eraill, yn £430m.[60]

**Ffeithiau allweddol[61]:**

**Gwerth y sector yng Nghymru**

| | |
|---|---|
| Cyfanswm cost gyfartalog gwariant Priodasau yng Nghymru: | £17,236 |
| Gwariant cyfartalog ar leoliadau yng Nghymru: | £5,283 |
| Nifer y Priodasau a gynhaliwyd yng Nghymru yn 2019: | 13,197 |
| Nifer y lleoliadau priodasau trwyddedig yng Nghymru: | 578 |

**Nifer y Priodasau yng NGHYMRU:**

13,197 y flwyddyn

Cafodd 10,420 o briodasau eu gohirio yn 2020

Mae 74% o fusnesau priodas yn dweud eu bod wedi colli rhwng 76% a 100% o'u trosiant ers y cyfyngiadau symud cyntaf.

---

[60] GB Day Visit Survey a GB Tourism Survey

[61] Arolwg Tasglu Priodasau'r DU o dros 3000 o fusnesau priodas 24ain Rhag 2020 – 12fed Ion 2021

**Amcangyfrif o Weithwyr yn y Diwydiant Priodasau - CYMRU[62]:**
2,580 o fusnesau
18,920 o weithwyr
11,825 o bobl ar-y-diwrnod + 7,095 mewn swyddogaethau cefnogi gan gynnwys y gadwyn gyflenwi

**Y Gweithlu**

Mae'r gweithlu lletygarwch a thwristiaeth yn tueddu i gynnwys cyfran anghymesur o bobl sydd wedi cael addysg is, pobl iau, Pobl Dduon, Asiaidd a Lleiafrifoedd Ethnig ac maent yn ennill cyflogau sy'n is o lawer na chyfartaledd Cymru (canolrif) – mae llawer o'r rhain yn grwpiau sydd fel arfer yn profi'r effeithiau cyson gwaethaf ar eu hiechyd, eu henillion, a'u potensial cyflogaeth o ganlyniad i ddirywiad economaidd.

**Cadwyn gyflenwi / gwerth lletygarwch i economi Cymru a'r gadwyn gyflenwi twristiaeth a lletygarwch ehangach:**
Yn 2018, roedd yr holl sector gwasanaethau bwyd a diod werth £1.3 biliwn o werth ychwanegol gros (GVA) i economi Cymru. Roedd hyn gyfwerth â 2% a 1.2% yn y drefn honno o gyfanswm y gwerth ychwanegol gros ar gyfer yr un flwyddyn. Er nad yw ystadegau llif nwyddau marchnad fewnol y DU ar gael, bydd adwerthwyr Cymru mewn sawl achos yn prynu cynnyrch a nwyddau wedi'u gweithgynhyrchu yn uniongyrchol gan gwmnïau yng Nghymru, felly mae'n debygol y bydd manteision cadwyn gyflenwi oherwydd bod mwy o weithgarwch economaidd yn cael ei ganiatáu yn y sector – fodd bynnag, nid yw'n bosibl mesur yr effaith honno.

EFFEITHIAU AMGYLCHEDDOL

Ni nodwyd unrhyw effeithiau amgylcheddol sylweddol o ganlyniad i gyfyngiadau yn y maes hwn, ac ni ragwelir unrhyw effeithiau o ganlyniad i'r mesurau llacio arfaethedig.

ASESIADAU O'R EFFAITH

*Effeithiau ar gydraddoldeb*

Mae asesiad o'r effeithiau yn ôl nodweddion gwarchodedig wedi'i nodi isod. Yn gyffredinol, mae'r cynnig yn hyrwyddo cydraddoldeb gan ei fod yn dileu'r cyfyngiadau ar ddathlu digwyddiadau bywyd a fydd wedi effeithio ar wahanol grwpiau mewn gwahanol ffyrdd. Mae effeithiau negyddol posibl yn ymwneud â'r risgiau o wneud addasiadau i fannau sy'n cael eu rheoleiddio nad ydynt yn ystyried anghenion gwahanol grwpiau yn llawn. Mae'r rhain yn ymwneud yn bennaf â chydraddoldeb mynediad.

| ***Grŵp neu nodwedd warchodedig*** | ***Beth yw effeithiau cadarnhaol neu negyddol y cynnig?*** | ***Rhesymau dros eich penderfyniad (gan gynnwys tystiolaeth)*** | ***Sut byddwch yn lliniaru'r effeithiau?*** |
|---|---|---|---|
| *Oedran (meddyliwch* | **Cadarnhaol:** Mae carfannau iau o'r | Mae dadansoddiad Llywodraeth Cymru o | Mae'r mesurau lliniaru y gofynnwyd |

[62] Gwybodaeth am y diwydiant

| | | | |
|---|---|---|---|
| *am wahanol grwpiau oedran)* | boblogaeth yn fwy tebygol o lawer o weithio yn y sector hwn yng Nghymru na charfannau hŷn, felly gallai agor y sector arwain at effeithiau cadarnhaol o ran dosbarthiad os yw'n atal colledion swyddi posibl ac yn cynyddu incwm aelwydydd, drwy drosglwyddo unigolion oddi ar Gynllun Cadw Swyddi drwy gyfnod y Coronafeirws y DU. Ar hyn o bryd, y garfan hon yw'r grŵp oedran sy'n wynebu'r risg fwyaf o ganlyniad i ddirywiad economaidd.<br><br>Negyddol: Mae'r risgiau o ganlyniadau iechyd negyddol yn sgil dal Covid-19 yn cynyddu ag oedran. Dylid ystyried hyn mewn cysylltiad â staff a chwsmeriaid y sector. | ddata'r Arolwg Blynyddol o'r Boblogaeth yn 2019 yn dangos bod 46% o weithwyr mewn tafarndai, caffis a bwytai yng Nghymru o dan 25 oed (a dim ond 12% o'r gweithlu mae'r grŵp oedran hwn yn ei gynrychioli). | i'r sector eu rhoi ar waith, a'r gofyniad iddynt ailagor yn gyfyngedig i ddechrau, wedi'u hanelu at leihau'r risg o drosglwyddiad i bob grŵp; cwsmeriaid a staff.<br><br>Dylid defnyddio'r asesiadau risg y mae angen i fusnesau eu cynnal i nodi risgiau anghymesur i grwpiau penodol. |
| *Anabledd (meddyliwch am wahanol fathau o anabledd)* | **Cadarnhaol:** Mae'r boblogaeth anabl yng Nghymru yn cynrychioli cyfran ychydig yn uwch o'r gweithwyr yn y diwydiannau Twristiaeth a Lletygarwch ehangach nag yn y gweithlu'n gyffredinol, felly gallai agor y sector arwain at effeithiau cadarnhaol o ran dosbarthiad os yw'n atal colledion swyddi | Mae dadansoddiad o ddata'r Arolwg Blynyddol o'r Boblogaeth yn 2019 yn awgrymu bod cyfran ychydig bach yn uwch o bobl anabl yn gweithio mewn gwasanaethau bwyd a diod yng Nghymru, gyda 17% o'r gweithlu yn cael eu hystyried yn anabl (mae'r grŵp hwn yn cynrychioli 15% o'r gweithlu ehangach). | Mae Llywodraeth Cymru yn ymwybodol o faterion posibl ac yn ymgysylltu â grwpiau priodol i baratoi i gwblhau Asesiad Effaith Integredig.<br><br>Dylid defnyddio'r asesiadau risg y mae angen i fusnesau eu cynnal i nodi effeithiau anghymesur ar grwpiau penodol. |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | posibl ac yn cynyddu incwm aelwydydd, drwy drosglwyddo unigolion oddi ar Gynllun Cadw Swyddi drwy gyfnod y Coronafeirws y DU. | | |
| *Ailbennu rhywedd (y weithred o drawsnewid a phobl drawsryweddol)* | *Heb ganfod effeithiau gwahaniaethol penodol* | Amh | Amh |
| *Beichiogrwydd a mamolaeth* | Negyddol: Mae'n bosibl y bydd y cynlluniau i ailagor y sector yn arwain at ddefnyddio lleoliadau wedi'u rheoleiddio i gynyddu capasiti awyr agored gwirioneddol. Bydd hi'n bwysig gwneud yn siŵr nad yw hyn yn creu amgylcheddau peryglus i rieni â phlant ifanc neu bramiau. | Amh | Mae Llywodraeth Cymru yn ymwybodol o faterion posibl ac yn ymgysylltu â grwpiau priodol i baratoi i gwblhau Asesiad Effaith Integredig. |
| *Hil (yn cynnwys gwahanol leiafrifoedd ethnig, sipsiwn a theithwyr a mudwyr, ceiswyr lloches a ffoaduriaid)* | **Cadarnhaol:** Mae'r boblogaeth BAME yn fwy tebygol o weithio mewn Twristiaeth a Lletygarwch yng Nghymru na'r boblogaeth wyn, felly gallai agor y sector arwain at effeithiau cadarnhaol o ran dosbarthiad os yw'n atal colledion swyddi posibl ac yn cynyddu incwm aelwydydd, drwy drosglwyddo unigolion oddi ar Gynllun Cadw Swyddi drwy gyfnod y Coronafeirws y DU. Negyddol: Mae'n bosibl bod pobl | Mae dadansoddiad o ddata'r Arolwg Blynyddol o'r Boblogaeth yn 2019 yn amcangyfrif bod 11% o weithwyr mewn gwasanaethau bwyd a diod yng Nghymru yn dod o gefndir BAME (a dim ond 5% o'r gweithlu yng Nghymru mae'r grŵp hwn yn ei gynrychioli). | Mae'r mesurau lliniaru y gofynnwyd i'r sector eu rhoi ar waith, a'r gofyniad iddynt ailagor yn gyfyngedig i ddechrau, wedi'u hanelu at leihau'r risg o drosglwyddiad i bob grŵp; cwsmeriaid a staff.<br><br>Dylid defnyddio'r asesiadau risg y bydd angen i fusnesau eu cynnal i nodi risgiau anghymesur i grwpiau penodol. |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | BAME yn wynebu risg anghymesur o ganlyniadau iechyd negyddol pe baent yn dal Covid-19. Dylid ystyried hyn mewn cysylltiad â staff a chwsmeriaid y sector. | | |
| *Crefydd, cred a diffyg cred* | Mae’r grŵp Gorchwyl a Gorffen Ailagor Mannau Addoli a’r Grŵp Seremonïau wedi cyfarfod yn rheolaidd ac wedi rhoi cyngor ar y canllawiau ar gyfer seremonïau digwyddiadau bywyd fel angladdau, bedydd a bar mitzvahs. | Bydd caniatáu dathliad/derbyniad ar ôl seremoni digwyddiad bywyd yn caniatáu i’r teulu a’r unigolion (ond mewn ffordd gyfyngedig) gael y digwyddiad roeddent wedi’i drefnu. | Does dim effeithiau negyddol penodol yn deillio o'r cynnig. |
| *Rhyw / Rhywedd* | Cadarnhaol: mae cyfran y gweithwyr yn y sector sy’n fenywod ychydig yn uwch nag ar gyfer gweithlu Cymru yn gyffredinol. | Mae dadansoddiad o ddata’r Arolwg Blynyddol o'r Boblogaeth yn 2019 yn amcangyfrif bod 53% o weithwyr mewn gwasanaethau bwyd a diod yng Nghymru yn fenywod, a bod menywod yn cynrychioli 47% o gyfanswm y gweithlu yng Nghymru. | Does dim effeithiau negyddol penodol yn deillio o'r cynnig. |
| *Cyfeiriadedd rhywiol (lesbiaidd, hoyw a deurywiol)* | Heb ganfod effaith wahaniaethol benodol. | Amh | Amh |
| *Priodas a phartneriaeth sifil* | Mae’r grŵp Gorchwyl a Gorffen Ailagor Mannau Addoli wedi cyfarfod yn rheolaidd ac wedi rhoi cyngor ar y canllawiau ar gyfer gweinyddu priodasau a ffurfio partneriaethau sifil. Mae’r sector | Bydd caniatáu dathliad/derbyniad ar ôl priodas neu bartneriaeth sifil yn caniatáu i gyplau gael y diwrnod priodas (ond mewn ffordd gyfyngedig) roedden nhw wedi’i gynllunio. | Yr Hawl Ddynol yw priodi, fodd bynnag, drwy ganiatáu derbyniadau mewn rhai achosion ac nid eraill gellid ystyried bod hynny’n trin seremonïau crefyddol a sifil yn wahanol. |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | Lletygarwch sy'n cynnwys grŵp rhanddeiliaid Lleoliadau Priodasau Cymru hefyd wedi cyfarfod yn rheolaidd ac wedi cyfrannu gyda data a dadansoddiad o'r maint a'r effaith ar y sector. | | |
| *Plant a phobl ifanc hyd at 18 oed* | Negyddol: Gallai oedolion a gyflogir mewn lleoliadau, tafarndai, caffis a bwytai fod â chyfrifoldebau gofal plant gyda'r sector. Mae'n bosibl bod y cyfyngiadau symud cyfredol wedi amharu ar fathau traddodiadol o ofal plant. | Mae dadansoddiad Llywodraeth Cymru o'r Arolwg Blynyddol o'r Boblogaeth yn 2018 yn awgrymu bod gan 11,400 o'r oedolion sy'n gweithio yn y sector tafarndai a bwytai blant o dan 16 oed. | Mae Llywodraeth Cymru wedi llacio'r cyfyngiadau ar y sector gofal plant gyda'r bwriad o leddfu'r pwysau ar deuluoedd lle gallai fod angen i'r oedolion ddychwelyd i safleoedd ffisegol i weithio. |
| *Aelwydydd incwm isel* | **Cadarnhaol:** Drwy ganiatáu i aelodau o'r sector hwn ddychwelyd i weithio, gallai hynny leihau colledion swyddi. | Mae data dros dro o'r Arolwg Blynyddol o Oriau ac Enillion yn darparu amcangyfrifon ar gyfer cyflog gros fesul awr a fesul wythnos, yn ôl codau Dosbarthiad Diwydiannol Safonol (SIC) 2 ddigid yng Nghymru. Ar gyfer **Gweithgareddau Gwasanaethau Bwyd a Diod** (cod SIC 56), y cyflog gros canolrifol yr awr oedd £8.28 – £3.91 yn is na chanolrif Cymru ar gyfer holl swyddi gweithwyr, sef £12.19. O ran cyflog gros yr wythnos yn y sector hwn, £197.30 yw'r canolrif – tua £243.50 yn is na chanolrif Cymru. | Does dim effeithiau negyddol penodol yn deillio o'r cynnig. |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | Gan ddefnyddio'r un data, amcangyfrifir bod **o leiaf** 80% o weithwyr **Gweithgareddau Gwasanaethau Bwyd a Diod** yn cael cyflog gros is yr awr na chanolrif Cymru. | |

*Hawliau Dynol a Chonfensiwn y Cenhedloedd Unedig*

Prif bwrpas y cyfyngiadau a'r gofynion sy'n gysylltiedig â'r cyfyngiadau symud yw diogelu hawl pawb i fywyd. Mae hyn wedi arwain at gyfyngiadau ar hawliau megis ar fywyd preifat a theuluol a'r rhyddid i gynnull a chymdeithasu ar sail y gellir ei gyfiawnhau yn ymwneud ag iechyd. Mae iechyd y cyhoedd yn cael ei ddisgrifio fel rheswm derbyniol dros atal yr hawliau hyn, ar yr amod ei fod yn angenrheidiol ac yn gymesur. Er gwaethaf y cyfyngiadau parhaus ar y cyfyngiadau symud yn gyffredinol, mae'r cynnig hwn yn effeithio ar y canlynol:

| ***Hawliau Dynol*** | ***Beth yw effeithiau cadarnhaol neu negyddol y cynnig?*** | ***Rhesymau dros eich penderfyniad (gan gynnwys tystiolaeth)*** | ***Sut byddwch yn lliniaru'r effeithiau negyddol?*** |
|---|---|---|---|
| Yr hawl i fwynhau perthnasau teuluol heb ymyrraeth gan y llywodraeth (ee yr hawl i fyw gyda'ch teulu ac i gael cyswllt rheolaidd) | Cadarnhaol: bydd caniatáu i Leoliadau, Tafarndai, Caffis a Bwytai ailagor yn golygu bod llawer o weithwyr yn y sector – a allent fod yn ennill llai na'r Isafswm Cyflog a'r Cyflog Byw Cenedlaethol oherwydd eu bod yn cael 80% o'r cyflog roeddent yn ei gael cyn yr argyfwng – yn dychwelyd i'r gwaith. | Mae data incwm ar gyfer yr Arolwg Blynyddol o Oriau ac Enillion yn dangos bod gweithwyr yn y sector hwn yn ennill llai na'r cyflog cyfartalog (canolrif) yng Nghymru a bod llawer ohonynt yn debygol o fod yn ennill llai na'r Isafswm Cyflog/Cyflog Byw Cenedlaethol oherwydd eu bod ar ffyrlo. | Does dim effeithiau negyddol penodol yn deillio o'r cynnig. |
| Mae Erthygl 12 yn diogelu hawl dynion a menywod o oedran priodasol i briodi a dechrau teulu. | Er bod cyplau wedi gallu priodi neu ffurfio partneriaeth sifil ym mhob lleoliad a gymeradwywyd i gynnal seremoni, mae llawer wedi dewis peidio â bwrw ymlaen nes iddynt allu dathlu'r digwyddiad gyda ffrindiau a theulu. | Bydd caniatáu derbyniadau/dathliadau yn caniatáu i gyplau gael y diwrnod roeddent wedi'i gynllunio, er bod cyfyngiadau'n parhau | Heb ganfod effeithiau negyddol penodol. |

*Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn*

Mae agor derbyniadau priodas yn yr awyr agored yn cefnogi’r gofyniad bod gan bob plentyn a pherson ifanc hawl i ymlacio, chwarae ac ymuno mewn ystod eang o weithgareddau. Mae priodasau yn rhan o’r profiadau a chyfleusterau a ddarperir i deuluoedd, a fydd yn sicrhau bod modd sicrhau cymaint o ganlyniadau â phosibl i blant a phobl ifanc.

*Y Gymraeg*

Mae 150,000 o bobl yn cael eu cyflogi’n uniongyrchol yn yr economi ymwelwyr – tua 12% o’r gweithlu. Mae’r economi yn hanfodol i greu’r amodau cymdeithasol lle gall siaradwyr Cymraeg aros mewn cymunedau Cymraeg, neu ddychwelyd i’r cymunedau hynny. Mae llawer o ardaloedd sy’n Gymraeg yn bennaf yn dibynnu’n drwm ar dwristiaeth a lletygarwch am incwm a chyflogaeth. Mae canran uchel o fusnesau twristiaeth a lletygarwch mewn ardaloedd Cymraeg – er enghraifft mae dros draean y busnesau llety i dwristiaid wedi’u lleoli mewn awdurdodau lleol lle mae dros 40% o'r boblogaeth yn siarad Cymraeg fel iaith gyntaf.

Bydd cymunedau Cymraeg eu hiaith yn cael budd o’r ffaith bod busnesau lletygarwch yn cael ailddechrau gweithredu, oherwydd bydd yn helpu i greu a diogelu swyddi, ac mae’n bosibl y bydd hynny’n annog siaradwyr Cymraeg i aros a gweithio yno, a chynnal hyfywedd yr iaith yn sgil hynny.